Llytr y Pſalmau,

WEDI EV CYFIEITHV, A'i CYFANSODDI

Ar Feſur Cerdd, yn *Gymraeg.*

DRWY WAITH

EDMWND PRYS
ARCHDIACON
MEIRIONNYDD.

(***)

A'I PRINTIO
YN LLVNDAIN.
1630.

¶ AT Y DARLLEYDD YSTYRIOL.

TRi pheth a wnaeth na chyfiaithwyd y Pſalmau bendigaid ar yr vn o'r pedwar meſur ar hugain.

Vn yw, am na allwn ryfygu clymu yr Scrythur ſanctaidd ar feſur cyn gaethed, rhac i mi wrth geiſio cadw y meſurau, golli deall yr Yſpryd, ac felly pechu yn erbyn Duw er mwyn bodloni dyn.

Yn ail, y mae gair Duw iw ganu mewn cynnulleidfa ſanctaidd o lawer ynghyd, i foliannu Duw yn vn llais, vn feddwl, vn galon; yr hyn a allant ei wneuthur ar y meſur gwael hwn, ac nï allai ond vn ganu cywydd neu awdl.

Yn drydydd, pob plant, gweinidogion, a phobl annyſcedic a ddyſcant bennill o garol, lle ni allai ond yſgolhaig ddyſcû Cywydd neu gerdd gyfarwydd arall. Ac o achos bôd yn berthynol i bob Chriſtion wybod ewyllys Duw,

a'i foliannu ef, mi a ymadewais â'r gelfyddyd, er mwyn bod pawb yn rhwymedic i wario ei dalent at y gorau. Hefyd nid wyf fi yn cadw mor meſûr eſmwyth hwn yn gywir ymhob man, am nad oes dim yn ein iaith ni mewn ſynwyr i ſcinio nac i odli â Duw. Am hynny i roi iddo ef ei ragor pioedd y gerdd, mi a rois amryw ddiphthongau eraill i gyfatteb â'r gair hwnnw, yn neſaf ac y medrwn.

Te Deum.

Te Deum.

YDi (o Dduw) a folwn ni,
addefwn di yn Arglwydd,
Y ddaiar oll, (dragwyddol Dad)
gwna yt addoliad hylwydd.
Arnat ti oll Angylion nef
a ront eu lleſ heb dewi,
Y nefoedd hefyd oddiar hyn,
a'r nerthoedd ſy'n y rheſtni,

Cherub, a Seraphin, a fydd
yn llefain beunydd attat,
Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Saboth glan,
ſ.l hyn y galwan arnat.
Nefoedd, a daiar ſydd yn llawn
o'th wirddawn, a'th ogoniant.
Yr Apoſtolion, hefryd gor,
a ron yt' ragor foliant.

Moliannus rif y Prophwydi
ſy i'th folt o'r dechreuad,
A'r Merthyron ardderchog lu,
ſydd i'th foliannu'n waſtad.
Dy Eglwys wir gatholig lan,
(hon ſydd ar dân drwy'r holl fyd)
O Arglwydd, a'th addola di,
yn vn ac yn dri heſyd.

Y Tad o anfeidrol fowredd:
gwir Fab gogoneedd vnig:
A hefyd y glan Yſpryd pur,
ſydd i ni'n gyſſar diddig.
Ti wyt (O Chriſt yr vnig Sanct)
frenin gogoniant grafol,
Wyt hefyd i'r tragwyddol Dad
yn wirfab rhad tragwyddol.

Pan gym'raiſt arnat wared dyn
o feddiant gelyn anfwyn,
Diyſtyr gennit ti ni bu
dy eni o fru y forwyn.
Pan ſethraiſt angau: teyrnas nef
i bob ffydd gref agoraiſt.
Yn gogoniant yr hael-dad byw,
ar ddeau Duw eiſteddaiſt.

Credu yr ym â difigl ffydd
mai ti fydd barnwr arnom:
Am hyn, er ein cynorthwyaw,
bid dy ddcheulaw drofom.
Dy bobl di ydym (o Dduw 'n nerth)
prid werth dy waed ſanctteiddiol;
Par gael ein cyfrif gyda'th ſainct
mewn gogoniant tragwyddol.

Cadw dy bobl (o Arglwydd da)
bendithia d'etifeddiaeth.
Dyrcha hwynt byth: gwna iddynt fod
dan gyſgod dy lywodraeth.
O ddydd i ddydd i'th gloſorwn:
mawrhygwn dy enw bythoedd.
Teilynga ein cadw ni heddyw
rhag pechu (o Dduw 'r Uuoedd)

O Arglwydd wrthym trugartha,
trugaredd gwna a'r eiddod.
Dy ſerch di arnom tywynned,
bydd ein ymddiried ynod.
Mewn dim nid ymddiriedais i
ond ynot ti (o Arglwydd)
N'ad byth ym' gwilydd achos hyn,
o Dduw, na derbyn gwradwydd

Benedicite omnia opera.

CHwi holl weithredoedd Arglwydd nef,
bendithiwch ef ein llywydd:
Gogoneddwch, a chlodforwch,
mawrhygwch yn dragwydd.
Chwi yr angylion glan o'r nef
molienwch ef yn hyſtyd.
Chwithau nefoedd, a ffurfafen,
a'r dyfroedd vwchben heſyd.

Chwithau nerthoedd mawr: haul a lleur,
Cafodau oer a gwyntoedd,
Chwi dân a gwres; gauaf, a haf:
a gwlith araf o'r nefoedd.
Chwithau oerfel, noethni, ag ia,
a rhew ac eira tewdrwch:
Chwi noſweithian a dyddian, chwi
oleuni a thywyllwch.

Mellt, cymylau, a daiar gron,
ac ſydd ar hon yn tyfu:
Mynyddoedd uchel, a'r bryniau,
a'r gloyw ffynonnau obru.
Y moroedd, a'r lliſeiriaint mawr,
rhyd eigion llawer a'i helynt:
Morfilod braiſg, a phyſgod mân,
y rhai a nohau' ynthynt.

Holl adar is yr awyr len,
a phob perchen adenydd,
Anſeilieid maes, bwyſtfilod coed
i'r Arglwydd doed a'i gwyydd.
Chwi holl ddynion, eu plant, a'i hal,
a'i heppil darbodedig,
Ty Iſrael yn anad vn,
ei bobl ei hun enwedig.

Chwi offeiriaid ſydd iw deml wen,
a'i hollawl lawen weiſion.

Chwi 'ſprydoedd ac enbidiau glan,
a phawb ſydd burlan galon.
Ananias, Azarias,
y ſy a'r awen ddiwiol,
Tithau yn drydydd Miſael,
O Iſrael ddewiſol.

Chwi boll weithredoedd, &c.
fel yn y dechreu.

Cân Zacharias.

68 HWn ſydd dros Iſrael Arglwydd Ddiuw,
bendigaid yw vwch oeſoedd:
Am ymweled â ni mor gu,
ac am brynu ei bobloedd.
69 Yr hwn a roes gorn a nerth faeth
yn iechydwriaeth ddedwydd,
A'i godi i ni o'i air a'i ras
o deulu ei was Dafydd.

70 Yr hwn addewid nid oedd au
o enau y prophwydi,
Y rhai oedd o ddechrau y byd:
wele ei gyd-gyflowni.
71 Sef, y rhoe'i ni'r ymwared hon
rhag ein gelynion hynny:
A'n gwared o ddwylo'n holl gas,
wel dyna'i ras yn ſyny.

72 Y rhoe nowdd i'n tadau nyni,
a chofio'i ſanct ddygymod,
73 A'i lw i Abraham ein Tad,
yn rhwymiad o'r cyſamod.
74 Sef gwedj 'n rhoddi ni ar led
oddiwrth gaethiwed gelyn:
Cael heb ofn ei waſnaethu ei,
heb vn llaw gref i'n herbyn.

75 Holl ddyddiau 'n heinioes gar ei fron
yu vnion ac yn ſanctaidd,
Holl ddyddiau 'n heinioes, &c.
Cenwch ddwywaith.

76 Tithau fab bychan, fe'th elwir
yn brophwyd i'r Goruchaf:
Cans ai o'i flaen i baratoi
ei ffyrdd, a'n troi iw noddfa.
77 I roi gwybodaeth i'w bobl o'r
ddyfod o'r nef ag iechyd,
Drwy ei ſaddeuant i'n rhyddhau
oddiwrth bechodau enbyd.

78 O ferion trugaredd Duw tad
a'i ymwelediad tyner
Tywynnodd arnom ymhob man
yr haulgan o'r vchelder.
79 I roddi llewyrch diſglair glod
i rhai ſy 'nghyſgod angau,
A chyfeirio ein traed i'w ol
ar hyd heddychol lwybrau.

Gogoniant ſyth a fô i'r Tad,
i'r Mâb vnâd, a'r glân Yſpryd,
Fal y bû, y mae, ac y bydd
yn Duw trag'wyddd hyſyd.

Cân Mair forwyn.

46 FY enaid a fawrha 'r Arglwydd,
yr vnſwydd gwna fy yſpryd.
47 Yr hwn ynofi hefyd yw,
drwy gredu 'n Nuw fy iechyd.
48 Cans edrychodd ar iſel wedd
a gwaeledd ei lawforwyn.
A dedwydd fyth y gelwir fi
gan bob rhieni addwyn.

49 Cans hwn ſydd allwog bennaeth
a'm gwnaeth i yn fawrhygar:
Bendigaid fytho ei enw ef,
yr Arglwydd nef a daiar.
50 A'i drugaredd ef byth a ſai'
dros bob rhai ar a'i hofnant:
51 A'r beilch gwaſgarodd ef, a'i nerth,
mae 'n brydferth ei ogoniant.

52 Fe dynnodd y rhai cedyrn mawr
i lawr o'i holl gadernyd:
Fe a godedd ac a fawrhadd
y rhai iſel-radd hefyd.
53 A phethau da y llanwodd rai
a fyddai yn newynog:
Ac ef a anfonodd yn wag,
drwy nag, y rhai goludog.

54 Fe helpiodd Iſrael ei was,
gan gofio ei ras a'i arnmod:
I'n tadau (Abraham a'i had)
hyd byth, a'i rad gyfammod.

Gogoniant, &c.

Cân Simton a'r Iesu yn ei freichiau.

29 ARglwydd bellach gollwng dy was
mewn heddwch addas ymy,
Yn ol dy air, hwn oedd ynghyd
a'm hyſpryd i'm diddanu.
30 Cans gwelais i â'r golwg hyn
y Chriſt a bryn ein iechyd,
31 Hwn a roiſt ynny yn Arglwydd,
a'byn ynghwydd yr holliyd.

32 Hwn a oſodaiſt di yn ddrych,
i lewych i'r cenhedloedd:
Hefyd i Iſrael, dy blant
yn ogoniant byth bythoedd.

Gogoniant, &c.

Neu fel hyn.

WRth d'air caf bellach Arglwydd cu,
ymadu yn heddychlon,
30 Canys i'm golwg i y daeth
dy iechydwriaeth dirion:
31 Hon a ddarperaiſt yn ddiddrwg,
yngolwg pawb o'r hollfyd,
32 Yn oleu i'r byd, i Iſrael blant
yn fawr ogoniant hyfryd.

Gogoniant ſyth o fô i'r Tâd,
i'r Mâb vnâd, a'r glân Yſpryd,
Fal y bû, y mae, ac y bydd
yn Duw trag'wyddd hyſyd.

Beatus

Beatus vir. Pſal. 1.

Dyma wyneb-ni y Pſalmau: yn dangos ſyccian y duwiol ac aſtwydd y rhai anwiol.



Sawl ni rodia, dedwydd yw



yn ol drwg yſtryw gyngor,



ni ſaif ar ffordd troſeddwyr ffol,



nid eiſte 'n ſiol y gwatwor.

2 Ond ei holl ſerch ef fydd yn rhwydd,
ar ddeddf yr Arglwydd vchod:
Ac ar ei ddeddf, rhydd ddydd a nos,
yn ddiddes ei fyfyrdod.

3 Ef fydd fel prenplan ar lan dol,
dwg ffrwyth amſerol arno:
Ni chrina 'i ddalen, a'i holl waith,
a lwydda 'n berffaith iddo.
4 Nid felly bydd y drwg di-rus,
ond fel yr us ar gorwynt:
Yr hwn o'r tir â'i chwyth a'i chwal,
anwadal fydd ei helynt.

5 Am hyn y drwg ni ſaif mewn barn,
o flaen y cadarn vniawn:
Na'r pechaduriaid mawr eu bâr,
ynghynulleidfa'r cyfiawn.
6 Canys yr Arglwydd Ddiuw, fel hyn,
a edwyn ffyrdd gwirioniaid:
Ac ef ni âd byth i barhau,
'mo lwybrau pechaduriaid.

Quare fremuerunt. Pſal. 2.

Mae'r prophwyd Dafydd yn yr yſtryd glaw yn rhagweled gwrthwyneb mawr i eglwys Chriſt. Lle y mae ſôn yn mwiſd perſonau yn yr ymadrodd mae'r yſtryd yn gryſach na rheſtrau dyn.



Aham y terfyſc gwyr y byd,



a pham y cyfyd rhodres ?



Pam y mae 'r bobloedd yn cyd-wan,

yn eu bwriadau diles?

2 Codi y mae brenhinoedd byd,
a'i bryd yn gyd gynghorol:
Yn erbyn Duw a'i Chriſt (ein plaid)
y mae pennaethiaid bydol.
3 Drylliwn eu rhwymau, meddan hwy,
ni wnawn ni mwy vſydd-dod:
Ac ymaith toſlwn eu trom iau,
ni chant yn fraw 'mo'n gorfod.

4 Ond Duw 'r hwn ſydd vwch wybrol lea
a chwardd am ben en geiriau:
Yr Arglwydd nef a wel eu bâr,
efe a'i gwatwar hwythau.
5 Yna y dywaid yn ei lid,
a hyn fydd rhybrid iddyn
O'i eiriau ef y cyfyd braw,
a'i ddig a ddaw yn ddychryn.

6 Goſodais innau (meddai ef)
fi flaw gref yn dragywydd:
Fy mrenin i, yn llywydd llon,
ar ſanctaidd Sion fynydd.
7 Dyma'r ddeddf a ddwedai yn rhwydd,
hon gan yr Arglwydd clywais:
Ti yw fy mab (o'm perfaith ryw)
a heddyw i'th genhedlais.

8 Gofyn ym, a mi yt' a'i rhydd,
holl wledydd iw 'vifeddu:
Y cenedlaethau dros y byd,
i gyd a gai 'meddiannu.
9 Ti a'i briwi hwynt yn dy farn,
fi gwialen hayarn hayach:
Ti a'i maluri, hwythau fân
mor fâu a lleſtri priddach.

10 Am hyn yn awr ſtrohinoedd coeth,
byddwch ddoeth a ſynhwyrol:
A chwithau farnwyr cymrwch ddyſg,
i oſtwng ter'yſg fydol.
11 Gwaſnaethwch chwi yr Arglwydd nef,
ac ofnwch ef drwy ogiud:
A byddwch lawen yn Nuw eu,
ettо drwy gryn hefyd.

12 Cuſenwch y mabrhâg ei ddig,
a'ch bwrw yn ſyrnig heſbio:
A gwyn ei fyd pob calon lân,
a ymddiriedan yntho.

Domine quid? Pſal. 3.
Achwyn Dafydd wrth Ddduw rhag Abſalon ei fab, a'rblaid ſa chyſur yr eglwys.

Cauer hon ſel Pſalm. 1.

O Arglwydd, amled ydyw'r gwyr,
y ſydd drallodwyr imi:
A llawer iawn i'm herbyn ſydd,
o ddydd i ddydd yn codi.
2 Dwedai lawer o'r gwrthgyrch blaid
yn drwm am f'enaid eiſoes:
Nid oes iddo yn ei Dduw Ior,
chwaith mawr yſtor o'i einioes.

3 Tithau O Arglwydd ymhob man,
ydwyd yn darian yny:
Fy ngogoniant wyt: tu a'r neu,
y codi 'ymhen i ſyny.
4 Ar Dduw yr Arglwydd a'm holl lais,
y gelwais yn doſturaidd.
Ac ef a'm clybu i ar frys,
o'i vchel freinllys ſanctaidd.

5 Mi orweddais, ac a gyſcais,
ac mi a godais gwedi:
Canys yr Arglwydd oedd i'm dal,
i'm cynnal, ac i'm codi.
6 Nid ofnaf fi, o'r achos hwn,
'mo fyrddiwn ſydd yn barod:
O bobloedd, o'm amgylch yn dyn,
i'm herbyn wedi dyfod.

7 Cyfod ti Arglwydd, achub fi,
drwy gosbi fy ngelynion:
Trwaiſt yr en, torraſt en daint,
er maint yr annuwiolion.
8 I'r Arglwydd byth (o achos hyn)
y perthyn iechydwriaeth:
Ac ar ei bobl ydiſgyn gwlith
ei ſendith yn dra helaeth.

Cum invocarem. Pſal. 4.
Dafydd yn achwyn wrth Ddduw rhag ei elynion.

DVw fy nghyfiawnder clywaiſt fi,
i'm cyni pan i'th elwais:
Rhyddheaiſt fi, dod y'm yn wedd,
drugaredd, clyw fy neilais.
2 O feibion dynion hyd ba hyd
y trowch trwy gyd yn gabledd,
Fy nharch yn warth? a hynny ſydd
drwy gelwydd a thrwy wagedd.

3 Gwybyddwch ethol o Dduw cun,
iddo'i hun y duwiolaf:
A phan alwyf arno yn hy,
eſe a wrendy arnaf.
4 Ofnwch, a thewch, ac na phechwch,
meddyliwch ar eich gwely,
5 Aberthwch, gobeithiwch Ddnw ner,
rhodd cyfiawnder yw hynny.

6 Pwy (medd llawer o edd) y pryd hyn,
a ddengys yn' ddaioni?
O Arglwydd, dercha d'wyneb pryd,
dauy digon iechyd ini.
7 Rhoiſt i'n calon llawenydd mwy,
(a hynny trwy dy ſendith;)
Nag a fyddai gan rai yn trin,
amlder o'i gwin a'i gwenith.
8 Mi orweddaf ac a hunaf,
a hynny fydd mewn heddwch:
Cans ti Arglwydd o'th vnic air,
a bair y'm ddiogelwch.

Verba mea auribus. Pſal. 5.
Gweddi yn erbyn ei elynion, gan ddangos ei ymddyriedaeth bun tu ag at Ddduw, bob amſeuthur cam â'i elynion.



Rglwydd clyw 'ngweddi yn ddiball,



Duw deall fy myſyrdod:



2 Erglyw fy llais a'm gweddi ſiin,



Fy Nuw, a'm brenin hygled.

3 Yn foran gwrando fi fy Naf,
yn foran galwaf arnad:
4 Cans nid wyd Dduw i garu drwg,
ni thrig i'th olwg anfad.

5 Nid ſaif ynſydion yn dy flaen,
na'r rhai a wnaen auwiredd:
Y rhai hynſydd gennyt yn gâs,
ſef diflas yt bob gwagedd.
6 Y rhai a ddwedant ffug a hnd,
a pheb gwyr gwaedlud crenlon,
Ti a'i tynni lwyntwy o'r gwraidd,
ſel ffiaidd annuwiolion.

7 Dof fiinan tu a'th dy mewn hedd,
ani dy drugaredd galwaf:
Trwy ofn, a pharch, a geglud dwyf,
i'th ſanctaidd eglwys treiglaf.
8 I'th gyfiownder arwain fi, Ner,
rhag blinder a chaſineb.
Duw gwna dy ffordd rhag ofn eu bâd,
yn waſtad rhag fy wyneb.

9 Cans iw genau nid oes dim iawn,
mae llygredd llawn iw cendod:
Eu gyddfau ſel ceulannau bedd,
a gwagedd ar en tafod.
10 Diſtrywia hwynt iw camwedd, Ien,
o'i holl gynghorion cwympant,
Hwnt a hwy, a'i holl drygioni,
i'th erbyn di rhyfelant.

11 A'r rhai a'r mddiried ynot ti,
am yt' gyſgodi droſtynt:
(Llawen a fydd pob rhai a'th gâr)
cei fawl yn llafar ganthynt.
12 Cans ti (Arglwydd) anfonawlith
dy ſendith ar y cyfion:
A'th gwir ſerch ſel tarian gref,
rhoi droſto ef yn gorcu.

Domine

Domine ne in furore. Pſal. 6.

Gweddi o drymder am ei bechodau: a phan gafas ebaith, y mae yn dibriſio cielyn, gan ſoh Duw.



Arglwydd na cherydda fi,



ymhoethni dy gynddaredd:



Ac na chosba fi yn dy lid,



o blegid ſy enwiredd.

2 O Arglwydd dy drugaredd dod,
wyf leſg mewn nychdod rhybrudd:
O Arglwydd dyrd, iacha fi'n chwyrn,
mae peſgyrn i mewn cyſtudd.

3 A'm henaid i o'r lleſgedd hyn,
y ſydd mewn dychryn ſceler:
Tithau O Arglwydd, paryw hyd?
rhoi arnaf ddybryd brudd-der.
4 Duw gwared fenaid, dychwel dy,
iacha fi a'th drugaredd:
5 Nid oes yn angau gof na hawl,
a phwy ath fawl o'r pridd-fedd.

6 Diffygiais gan ochain bob nos,
mewn gwal anniddos ſoddfa:
Rwy'n gwlychu drwy y cyſtudd mau,
a'm dagrau fy ngorweddfa.
7 O ddig i'm cas a goddef drwg,
fy ngolwg ſy'n tywyllu:
A chan y dwfr a red yn rhaff,
ynt angraff ac yn pylu.

8 Pob vn a wnelo, ared ymhell,
na dichell nac enwiredd:
Cans clybu yr Arglwydd fy llais,
pan leſais am drugaredd.
9 Yr Arglwydd clybu ef fy arch,
rhof fianau barch a moliant:
Fe dderbyn fy ngweddi, a'm gwaedd,
am hyn yr haedd ogoniant.

10 Fe wradwyddir, ſe drallodir,
yn ddir fy ngelynion:
Ac fo'i dychwelir drwy ſefl glwth,
hwynt yn ddiſymwth ddigon.

Domine Deus meus. Pſal. 7.

Erſyn ar Dduw ei gadw rhag cam gyhuddiad, a'i gyawlyd yn lân.

Canir hon fel Pſal. 5.

O Achub fi fy Nuw, fy Ner,
cans mae fy hyder ynod:
Rhag fy erlidwyr gwared fi,
cans mae o'r rhain ormod.

2 Rhag llarpio fenaid fel y llew,
heb vn dyn glew a'm gweryd:
A'm rhwygo i yn ddrylliau mân,
fal dyna amcan gwaedlyd.

3 O Arglwydd Dduw, os gwneuthym hyn,
os diwg y ſy'n fy nwylaw:
4 Na thrwy ymddiried, dwyll i neb,
pe bawn wrthwyneb iddaw:
5 I erlid foes y gelyn doed,
dalied, a rhoed fi'n iſaf,
A ſathred Purddas yn y llwch,
drwy'r diyſtyrwch eithaf.

6 Cyſod o Ddaw, cyſod i'th ddig,
a goſtwng big pob gelyn:
A deffro droſof yn y farn,
lef cadarn yw d'orchymyn.
7 Pan ddringych, yr holl bobl yn llu,
a ddaw o'th ddantu attad:
Duw dychwel i'th farn er eu mwyn,
a gwrando 'n cwyn yn waſtad.

8 Duw dyro i'r bobl y farn dau,
a barn di finnau Arglwydd:
Ac fel yr haeddais dod farn iawn,
yn ol fy llawn berffeithrwydd.
9 Derfid anwiredd y rhai drwg,
gwna 'n amlwg ffordd y cyfion:
Cans vnion wyd, a chraff, Duw cu,
yn chwilio dentu 'r galon.

10 Ac am ſod Duw yn canſod hyn,
Duw yw Pamddiffyn innau:
Duw ſydd iechawdur i bob rhai,
ſydd lân ddifai 'i calonnau.
11 Felly mae Duw byth ar yt iawn,
a Duw yw 'r cyfiawn farnydd:
Wrth yr annuwiol ar bob tro
mae Duw yn digio bennydd.

12 Ac oni thry 'r annuwiol cân,
ſo liſa'i loywlas gleddau:
Ar ynnyl y mae bwa'r Ion,
a'i barod lymion ſaethau.
13 Sef arfau angau at y nod,
y maent yn barod ddigon:
Ac ni ſaetha ef ergyd byrr
at yr erlidwyr poethion.

14 Wele hanes y gelyn drwg,
eſe a ymdawg ar draha:
O chwydd ar gamwedd, beichiog fydd,
ar gelwydd yr eſgora.
15 Cloddiodd ef bwll hyd eigion llawr,
o ſwriad mawr i'r tynan:
Ac ef a ſyrthiodd ymron bawdd,
i'r dyſn iw glawdd ei hunan.

16 Ei holl enwiredd ar ei ben,
o vchder nen a ddiſgyn:
A Duw a ddymchwyl yr vn wedd,
ei gamwedd ar ei goryn.
17 Im harglwydd Dduw rhof finnau glod,
câf gan fod ei gyfiownder.
A chanmolaf ei enw yn rhwydd,
yr Arglwydd o'r vchelder.

Domine Deus. Pſal. 8.

Clod i Dduw, gan erſyddu a dyſcleb am ogoniant dyn.

O Ar-



Arglwydd ein Ior ni a'n nerth,



mor brydferth wyd drwy'r hollfyd!



Dy enw, a'th barch, a roiſt vwchben



dayar ac wybren hefyd.

2 Peraiſt yt nerth o enau plant,
a rhai a ſugnant beunydd,
Rhag d'elynion: tawed am hyn,
y gelyn a'r dialydd.

3 Wrth edrych ar y nefoedd faith,
a gweled gwaith dy fyſedd:
Y lloer, y ſer, a threfn y rhod,
a'i goſod mor gyfanneddd.
4 Pa beth yw dyn yt' iw gofio,
o ddoniau ac anwylfraint?
A pheth yw mâb dyn yr vn wedd,
lle rhoi ymgeledd cymaint?

5 Ti a wnaethoſt ddyn o fraint a phriſ,
ychydig is Angylion:
Mewn mawr ogoniant, parch, a nerth,
rhoiſt arno brydferth goron.
6 Ar waith dy ddwylo is y neſ,
y gwnaethoſt ef yn bennaeth:
Gan oſod pob peth dan ei draed,
iddo y gwnaed llywodraeth.

7 Defaid, gwartheg, a holl dda mâs,
a'r adar llaes eu heſgyll:
Ehediaid neſ, a'r pyſg o'r don,
ſy'n tramwy 'r eigion erchyll.
8 O Arglwydd ein Ior ni a'n nerth,
mor brydferth wyd drwy'r hollfyd,
Dy enw a'th barch a roiſt vwchben,
dayar ac wybren hefyd.

Confitebor tibi. Pſal. 9.

Diolch am orfoledd, a driſſ ar Ddnw ei ymddiffyn rhag llaw.



Lodforaf fi fy Arglwydd Ion,



o'm calon, ac yn hollawl:



Ei ryfeddodau rhof ar led,



ac mae'n ddyled eu canmawl.

2 Byddaf fi lawen yn dy glod,
ac ynod gorfoleddaf:
I'th enw (o Ddnw) y canaf glod,
wyd hynod, y Goruchaf.

3 Tra y dychwelir draw'n ei hol,
fy holl elynol luoedd,
Llithrant o'th flaen, difethir hwy,
ni ddon hwy mwy yn lleoedd.
4 Cans rhoiſt fy marn yn fatter da,
gwnaethoſt eiſteddfa vnion:
Eiſteddaiſt ar y gwir, yn ſiwr,
tydi yw'r barnwr cyſon.

5 Ceryddaiſt, a diſtrywiaiſt di
y cenhedlaethi cyndyn:
Diwreiddiaiſt ynfyd yn y bon,
ni bydd byth ſon am danyn.
6 Diſtrywiaiſt dithau (elyn glâs)
do lawer dinas hyfryd:
Darfu dy nerth byth, darfu hyn,
a'r coſ o honyn hefyd.

7 Ond yr Arglwydd iw nerth a ſydd,
ac yn dragywydd pery:
A pharod fydd ei faingc i farn,
a chadarn ydyw hynny.
8 Cans efe a farna y byd,
a'r bobl i gyd ſydd ynthe:
Trwy gyfiowndet, heb ofni neb,
a thrwy vniondeb rhagddo.

9 Gwna'r Arglwydd hefyd hyn wrth raid,
trueiniaid fo'i hymddiffyn:
Nodaſa a fydd i'r rhai'n mewn pryd,
pan ſo caledfyd arnyn.
10 A phawb a'th edwyn rhon eu cred,
a'i holl ymddiried arnad:
Cans ni adewaiſt (Arglwydd) neb,
a geiſio'i wyneb attad.

11 Molwch chwi'r Arglwydd, yr hwn ſydd
yn ſanctaidd ſynydd Seion:
A dwedwch i'r bobl fal yr oedd
ei holl weithredoedd mawrion.
12 Pan chwilio efe am waed neu draiſ,
fe goſia lais y trnain:
Pan eiſteddo a'r faingc y frawd,
fe glyw y tlawd yn germain.

13 Dy nawdd Arglwydd, dydi ym'ſydd
dderchafydd o barth angau,
A gwel fy mlinder gan fy nghâs,
y ſydd o'm cwmpas innau.
14 Fel y mynegwyf dy holl wyrth,
a hyn ymbyrth merch Seion:
Ac fel y bwyf lawen a ſraeth,
i'th iechydwriaeth dirion.

15 Y cenhedloedd cloddiaſant ffos,
lle'i ſuddent, agos boddi:
I arall lle cuddiaſant rwyd,
eu traed a faglwyd ynthi.
16 Yr Arglwydd nef fal hyn yn wir,
adwaenir wrth ei farnau:
A'r annuwiol a wnaethai'r rhwyd,
yn hon y daliwyd yntau.

17 Yr annwiol i vffern aêd,
ac yno gwnaed ei wely:
A'r rhai' ollygant Dduw dros goſ,
bydd yno fyth eu lletty.
18 Cans byth y gwirion a'r dyn tlawd
hyd dyddbrawd nis anghofir:
Y gweiniaid a'r trueiniaid, hwy,
eu gobaith mwy ni chollir.

19 O cyſod Arglwydd yn dy wyn,
na âd i ddyn mo'th orfod:
Barna'r cenhedloedd gar dy fron,
a'th farn yn vnion goſod.
20 Gyrr arnynt Arglwydd ofn dy rym,
yn awchlym i'th elynion.
Fel y gwybyddont, pe baent mwy,
nad ydynt hwy ond dynion.

Vt quid Domine. Pſal. x.

Achwyn rhag trais cedyrn bydol.

O Arglwydd pa'm y ſeſi di;

oddiwrthym ni cyn bellad?

Pa'm yr ymguddi di i'th rym,

pan ydym mewn caethiwed?

2 Y drygrai ſydd yn blinc'r tlawd,
gan drallawd, a chan falchder:
Yn y dichellion a wnai' rhai'n,
hwynt hwy eu hunain dalier.

3 Hoff gan ddyn drwg ei chwant ei hyn,
pawb yn gytan â'i bechod:
Bendithio mael ydyw en ſwydd,
a'r Arglwydd maent iw wrthod.
4 Yr annwiol ni chais Dduw ner,
(mae ef iw falchder cyſuwch?
Nê chred ef, ac ni feddwl ſod,
yn fâth awdurded goruwch.

5 Am ſod ei ffyrdd mewn lwyddiant hir,
ni wyl mo'th wir gyfammod:
Bydd dordyn wrth elynion mân,
fel chwythu tân mewn ſorod.
6 Fe ddwedodd hyn â'i feddwl ſyth,
ni ddigwydd byth y'm adfyd:
Ni'm ſymudir o oes i oes,
ni chaf na gloes, na drygfyd.

7 Yn ddichellgar, yn dwyllgar iawn,
a'i ſafn yn llawn melldithion:
Tan ei daſod y mae camwedd,
a thrawſ enwiredd creulon.
8 Mewn cilfechydd y diſgwyl ſan
i lâdd y truan gwirion:
Ac ar y tlawd â llygad llym
yn dangos grym ei galon.

9 Fe orwèdd fel y llew iw ffau,
i fwrw ei ſaglau trowſlon:
Y gwan a'r tlawd a ddyna iw rwyd,
ac yno y daliwyd gwirion.
10 Fe duchan, fe a'ngrymma ei hun,
fel vn ar farw o wendid,
Ac ef yn grŷf â fel yn wael,
ar wan i gael ei ergyd.

11 Yn-ei galon, dwedodd am Dduw,
nad ydyw yn goffiadur:
Cuddiodd ei wyneb, ac ni wel
pa beth a wnel creadur.
12 Cyſod Arglwydd, dercha dy law,
dy ſod i'n gofiaw danges:
Ac nag anghofia, pan fo rhaid,
dy weiniaid a'th werines.

13 Paham y cablant hwy wir Dduw,
yr enwir annuw lleddfrom?
Pam' y meddyliant arnat ti
nad ymofyuni am danom?
14 Gwelaiſt hyn: cans confyddi drais,
a choſpi faſaus anfad:
Tydi yw gobaith tlawd, a'i borth,
a chymorth yr ymddifad.

15 Tor ymaith yr annuwiol rym
yn gyflym, a'r maleiſus,
Cais allan eu hanwiredd hwy,
ni chai di mwy 'n ddrygions.
16 Yr Arglwydd ſydd yn fremin byth,
ef yw'r gwehelyth lywydd:
Diſtrywiwyd pob cenhedlaeth gref
o'i dir ef, yn dragywydd.

17 Duw, gweddi'r gwan a glywaiſt di,
ac a gyſuri 'r galon:
Tro eilwaith attom' y gluſt dan,
a chlyw weddiau ſyddlon.
18 Tros yr ymddifaid y rhoi farn,
a'r gwan fydd cadarn bellach:
Megis nas gall daiarol ddyn
mo'r pwyſo arnyn mwyach.

Domine confido. Pſal. xi.

Am brofidigaethau. Duw yn gwared allan o bo-
nyns, ac yn llywodraethu y da a'r drwg.

C Redaf i'r Arglwydd yn ddi nam:

paham y dwedwch weithian

Wrth fenaid, hwnt, a hed i'th fryn,

fel wrth aderyn bychan?

3 Wele 'r annuwiol a'i bwâu,
a'i gwell ſaetha wna barod,

Am

Am wîrioniaid yn llechu'n ſain,
i ſaethu 'r rhai'n o gyſgod.

3 Y ſeilſain oll i lygredd aeth:
ond beth a wnaeth y gwirion?
4 Mae 'r Arglwydd yn ei ddinas gref,
ſe weryd ef y cyſion.
Yr Arylwydd o'i orſeddſa ſry
at y tlawd try ei olwg,
Gweithredoedd holl hiliogaeth dyn,
iw lygaid ydyn amlwg.

5 Mae 'r Arglwydd o'r naturiaeth hon,
prawf gwîſion er ymgeledd,
Ond cas yw gan ei enaid ſo
ddyn drwg a hoffo wageedd.
6 Ar bechaduriaid marwor, tân,
a brwmſtan a ddaw'n gawod,
A gwynt tymeſtlog vchel iawn,
fal dyna lawn wialennod.

7 Canys cyſion ydyw'r Arglwydd nerth
cyſiawnder mae'n ei garu;
A'i wyneb at yr vnion try,
a hynny iw ymgleddu.

Salvum me fac. Pſal. 12.

Wrth weledaullywodraeth, y mae eſe yn prophwydo, pan addſedo drygioni, y daw tro gwell.

O

Achub bellach Arglwydd cu,

ſe ddarfu'r tyngarogion:

A'r holl wirioneedd a'r ball aeth

o blith hiliogaeth dynion.

8 A gweſus gwenaiaith dwedant ſiug,
er twyll a hug i'r eiddyn:
A chalon ddyblyg yr vn wedd
y cair oſereed ganthyn.

9 Yr Arglwydd torred o'i farn faith
weſuſau'r gweniaith diles:
A'r holl dafodau ffroſtus iawn
a fytho llawn o rodres.
10 Gallwn orfod o nerth tafod,
dwy weſus y ſydd eiddom:
Fal hyn y dwedant hwy yn rhwydd,
a phwy ſydd Arglwydd arnom?

11 Yntau ein Duw a ddwedodd hyn,
rhag llethu'r gwaelddyn codaf:
Y dyn gofidus, tlawd, a'r caeth,
mewn ſechydwriaeth dodaf.
12 Pur iawn yw geiriau'r Arglwydd neſ
a'i ddewid ef ſydd berffaith,

Fel arian o ffwrn, drwy ſaml drô
wed'i goeth buro ſeithwaith.

13 Ti Arglwydd, yn ol dy air di,
a'i cedwi mewn hyfrydwch
Byth rhag y ddrwg genhedlaeth hon,
dy weiſion i gael heddwch.
14 Pan dderchafer y trowſion blin,
da ganthyn drin eawiredd:
Felly daw dynion o bob parth
i fwyſwy gwarth o'r diwedd.

Vſquequo Domine. Pſal. 13.

Ymreſymmu â Duw, drwy boethi yr Yſpryd, a thrwy weddi cael gobaith.

Canir hon ſol Pſal. 2.

PA hyd ſy Arglwydd, Dduw dilythâ
a'i byth yr wyf mewn angof?
Pa guddio t'wyd, (o Dduw) pa hyd?
dy lân wynebpryd rhagof?
2 Pa hyd y rhed meddyliau tro
bob awr i ſino 'nghalon?
Pa hyd y goddefaf y dir?
dra codir ſy nghaſeion.

3 O Arglwydd edrych arnaf ſi,
a chlyw ſy ngweddi ffyddlon.
Egor ſy llygaid, rhag eu cau
ynghyſſa angau ddigllon.
4 Pe llithrwn ddim, (rhag maint yw'r llid
ſo ddwedid ſy ngorchfygu:
A llawen fyddai ſy holl gâs:
dal fi o'th râs i fynu.

5 Minnau'n dy nawdd a roîs ſy ffydd,
a'm holl lawenydd eithaf:
Canaf i'm Duw am helpodd i,
gwnaf gerddi i'r Goruchaf.

Dixit inſipiens Pſal. 14.

Yn erbyn trahaus Ddaw, a dynion.

FE ddwedai 'r ynfyd nad oes Duw,
ac felly byw drwy goegni;
Ymlygru'n ffiaidd, ni chais gel:
nid oes a wnel ddaioni.
2 O'r nef yr edrychodd yr Ion
ar holl drigolion daear,
A roddai neb ei goel a'r Duw,
a cheiſio byw'n ddeallgar.

3 Fe giliodd bawb at lygredd byd,
ymdroent i gyd mewn brynti:
Nid oes vn a wnel well nâ hyn,
nac vn a fyn ddaioni.
4 Eu gwddf ſy fedd agored cau
maent â thafodau ſtrywgar.
A gwenwyn lindis ſy'n parhau
dan eu gwefuſau twyllgar.

5 A'i genau llawn cſel gwenwyn llith
o felldith, ac o ſuſtledd:
Ac anian eſgud yw en traed
i dywallt gwaed a dialedd.
6 Diſtryw ac anhap ſy'n eu ffyrdd
ni' dwaenant briffyrdd heddwch:
Nid oes ofn Duw'n eu golwg hwy,
ni cheiſiant mwy 'dîſeuwch.

7 Pam? oni wyddant hwy eu bod
drwy bechod, y modd yma,

Yn yſo fy mhobl a'i cildroi,
vn wedd a chnoi y bara?
8 Gweddio 'r Arglwydd hwy ni wnânt,
yn hyn dychrynant luoedd:
Am ſod Duw 'n dala gydâ 'r iawn,
yn vn a'r cyſtawn bobloedd.

9 Gwradwyddech gynt gyngor y tlawd
fal y gwnewch drallawd etto:
Am i'r tlawd gredu y doe llwydd
oddiwrth yr Arglwydd iddo.
10 Pwy a all roi i Iſrael,
o Sion vchel iechyd?
Pwy ond ein Duw? yr hyn pan wnêl,
bydd Iago ac Iſrael byſtyd.

Domine quis habitabit. Pſal. 15.

Dull a chyſtlog buchedd dda.

DYwaid i mi pa wdyn a drig,
i'th lys barchedig, Arglwydd?
A phwy a erys ac a ſydd
ym mynydd dy ſancteiddrwydd?
2 Yr hwn a rodia 'n berffaith dda,
yr hwn a wna gyfiawnder;
A'r hwn a draetha o'i galon wir,
a drig ar dir vchelder.

3 Yr hwn ni ddywaid, ac ni wna,
ddim ond o'r da bigilydd:
Ac ni chynnwys y rhai a ron
iw cymydogion gwilydd.
4 Y'r hwn ſydd iſel vn ei fryd,
yn caru 'i gyd-griſtnogion.
Yr hwn ſy 'n ofni 'r Arglwydd Dduw,
ac ſydd yn byw yn ffyddlon.

5 Yr hwn ni thyng ddim ond y gwir,
er dir neu niwed iddo:
Ac ni ro ei arian yn llog,
er dwyn cymydog dano.
6 Na gobr, na rhodd, yr hwn ni fyn,
er dal vn erbyn gwirion.
7 A woelo hyn ni lithra fyth,
ſe gaiff y ddilyth goron.

Conſerua me. Pſal. 16.

Mae Dafydd yn erchi 'r eglwys yn ymroi i'Ddiw, yn coſtau ei ddioni, ac yn cyhoeddi ſod ein holl ddedwyddwch ni ynghoſ, drwy Grist, a'i gyfodiad.

CAdw ſi Duw, cans rhois fy mhwys
a'm coel yn dreadwys arnad:
2 Fy Arglwydd wyd: mae dan fy mron,
y gwîr hon yn waſtad:
Nad lles yt yw na'm da, na'm rhin:
3 ond i drin ſanct daiarol,
I leſu 'r rhai 'n fy 'wllys yw,
y rhai ſy 'n byw 'n rhiwedd del.

4 I'r rhai a redant at Dduw gan,
y daw gofidiau amlder:
Eu diod offrwm o waed, ni
offrymaf ſi yn amſer.
5 Ni heuwaf chwaith. Yr Arglwydd yw
fy medd i ſyw, a'm phiol:
A thydi Ior ſy 'n rhoi 'mi ran,
a chyſran yn ddigonol.

6 A thrwy Dduw ſyrthiodd i mi rân
o fewn y fan byſiydaf:

Digwyddodd ymy, er fy maeth,
yr etifeddiaeth lanaf.
7 Bendithiaf finnau Dduw fy Ior,
hwn a roes gyngor ymmy,
Parennau hefyd ddydd a nos,
ſydd ym yn dangos hynny.

8 Rhois fy Ner (bob awr) gar fy mron;
o'r achos hon ni lithraf.
Cans mae ef ar fy nehau law,
yma na thraw ni ſyſtaf.
9 O herwydd hyn, llawen a llon
yw fy nghalon: ac eilwaith
Hyſtryd yw fy mharch a diddig,
a'm cnawd a drig mewn gobaith:

10 Cans yn vffern ni edi di
me'm henaid i, i aroſt:
Na'th anwyl ſanct (drwy nawſ y bedd)
i weled llygredd cnuſſos.
11 Dangoſi ym lwybr i fyw 'n iawn,
dy fron yw 'r llawn llawenydd,
Cans yn dy nerth, nid yn y llwch,
mae digrifwch tragwydd.

Exaudi Domine iuſtitiam. Pſal. 17.

Achwyn rhag brenin Saul, a dangos ei ddiyngdid yn yr achos.

OClyw gyfiownder Arglwydd mâd,
yſtyr fy nâd i'th grybwyll,
Cluſt ymwrando a'r weddi fau
ſydd o wefuſau didwyll.
2 Diſgwilia 'marn oddiwrthyt ti,
cans da y gweli 'r vnion:
Profaiſt a gwyddoſt ganol nos
mor ddiddos ydyw 'nghalon.

3 Ban chwiliaiſt fi (da yw dy gof)
ni chefaiſt ynof gamwedd,
Fy myſyr mâd na'm meddwl llaes,
na ddoed ymaes o'm dannedd.
4 I ochel cydwaith dynion drwg,
drwy d'air a'th amlwg cyngor,
Fordd y dyn trawſgeyf haetllyd llym,
ſe ddyſgwyd yn ei bepgor.

5 Ond yn dy ynion lwybrau di,
Duw, cynal fi yn waſtad,
Rhag llithro allan o'th iawn lwyl,
Duw diſgwyl fy nghenddeiliad.
6 Galw yr wyf arnad, am dy ſod
yn Ddiw parod i wrando,
Goſtwng dy gluſt, a chlyw yn rhodd
ſy holl ymadrodd etto.

7 Cyfranna dy ddaioniis râd,
(ti rhwn wyt geidwad ffyddlon)
I'r rhai ſy 'n ymroi dan dy law,
rhag broch, a braw y trowſion.
8 Cadw fi'n anwyl rhag en twyll
os anwyl canwyll llygad:
Noghyſgod dy adenydd di,
o cadw fi yn waſtad.

9 Rhag yr annuwiol a'i mawr bwys,
a rhag ſy nghyſrwys elyn,
Y rhai a gais fy enaid i,
gan godi yn fy erbyn.
10 Maent hwy mor dordyn ac mor ſrâg
ac yn rhy gâs eu geiriau:
Ac yn rhoi allan ſtroſt ac lled,
gan falſheu eu parablau.

I'r Main

11 Maent hwy yn amgylchu yn ſtin
y lle yr ym ni'n cyniwer,
Ac â'i golygon tua'r llawr
mewn gwg a thramawr hyder.
12 Maent hwy fel llew, dan godi gwrych,
a fai'n chwennych yſglyfaeth:
Neu fel llew ifange(er i les)
a geiſiai loches hyfaeth.

13 Cyfod Arglwydd, o'i ſtaen ef ſaf,
dy help a gaf i'm henaid,
A tharo'i lawr â'th gleddyf noeth
yr enwir ſtlamboeth tanbaid.
14 Rhag gwyr dy law, rhag gwyr y byd,
ſy'ai rhan i gyd oddiymma,
Gan lenwi eu bolian, a rhoi iw plant
yn fawr eu chwant a'i traha.

15 Minnau mewn myfyr, fel mewn hun,
a welaf lun d'wynebpryd,
A phan ddihunwyf o'r hun hon
y byddaf ddigon hyfryd.

Diligam te. Pſal. 18.

Dafydd yn dialch i Ddaw, am ei orfoledd a'i ſrwdmiaeth, gan ddatgan gwrthiau Duw, yn rheoli hinou: y mae yn prophwydo am Grift.

O Ior fy ngrym caraf di'n fawr
fy nghreiglawr, twr i'ymwared,
2 Fy Naf, fy nerth, fy nawdd, fy Nuw,
hwn yw fy holl ymddiried.
3 Pan alwyf ar fy Ior hynod,
i'r hwn mae clod yn gyſion,
Yna i'm cedwir yn ddian
rhag drygau fy nghaſeion.

4 Gofidion angau o bob tu
oeddynt yn cyrchu i'm herbyn,
A llifodd afonydd y fall
yn ddiball, er fy nychryn.
5 Pan ydoedd ſwyaf ofn y bedd,
a gwaedlyd ddiwedd arnaf,
Ag arfau angau o bob tu,
am câs yn neſu ataf;

6 Yna y gelwais ar fy Ner,
ef o'r vchelder clywoddi,
A'm gwaedd a ddaeth hyd gar ei fron,
a thirion y croeſafodd.
7 Pan ddigiodd Duw, daeth daear gryn,
a ſail pob bryn a ſigloddi:
A chyffro drwy'r wlad ar ei hyd,
a'r holl fyd a gynhyrfodd.

8 O'i enau tan, o'i froenau tarth,
yn nyma pob parth wybrent:
9 A chan gymylau dan ei draed,
du y gwnaed y ffurfafen.
10 Ac fal yr oedd ein Ior fel hyn,
vwch Cherubyn yn hedeg:
Ac vwch law adenydd y gwynt,
mewn nefol helynt hoywdeg.

11 Mewn dyfroedd a chymylau fry,
mae'i wely heb ei weled.
12 Ac yn eu gyrru'n genllyſg mân,
a marwor tân i wared.
13 Gyrrodd daranau, dyna'i lef,
gyrrodd o'r nef gennadon,

14 Cenllyſg, marwor tân, mellt yn gwaſ,
fal dyna'i ſaethau poethion.

15 Diſtrywiwyd dy gas: felly gynt
gan chwythiad gwynt o'th enau:
Gwaſgeriaſt di y moroedd mawr,
gwelwyd y llawr yn olau.
16 Felly gwnaeth Duw a mi'r vn modd,
anſonodd o'r vchelder,
Ac a'm tynnodd, o'r lle yr oedd
i'm hamgylch ddyfroedd lawer.

17 Fe a'm gwaredodd Duw fal hyn,
oddiwrth fy ngelyn cadarn:
Yn rhydrwm imi am ei fod,
rhoſ finnau glod hyd dydd farn.
18 Safent o'm blaen ni chawn ffordd rydd
tra fum yn nydd fy ngofid:
Ond yr Arglwydd ef oedd i'm dal,
a'm cynal yn fy ngwendid.

19 Fy naf ei hun a'm rhoes yn rhydd,
fe fu waredydd imy:
Ac o dra ſerch i mi y gwnaeth,
na bawn i gaeth ond hynny.
20 Yr Arglwydd am gobrwya'n ol,
fy ngwaſtadol gyfiawnder:
Ac yn ol glendid fy mwy law,
tal i'm a ddaw mewn amſer.

21 Cans ceiſiais ffordd fy Arglwydd ner,
ni wneuthym hyder ormod,
Na dim ſceler erbyn fy Nuw,
gochelais gyfryw bechod.
22 Cans ei ddeddfau, maen ger fy mron
a'i hollawl gyfion farnau:
Ac ni rois heibio'r vn or rhai'n,
hwy ynt fynghorſfain innau.

23 Bum berffaith hefyd o'i flaen, ac
ymgedwais rhag byw'n thyddrwg:
24 A'r Arglwydd gobrwyodd fi'n llawn
yr hyn ſu'n iawn iw olwg.
25 I'r trugarog trugaredd rhoi,
i'r perffaith t'roi berffeithrwydd.
26 A'r glan gwnei lendid, ac i'r tyn,
y byddi gyndyn Arglwydd.

27 Cans mawr yw dy drugaredd di
gwaredi 'r truan tawel:
Ac a oſtyngi gar dy fron,
rai a golygon vchel.
28 Ti a oleui 'nghanwyll i,
am hynny ti a garaf,
Tydi a droi fy nos yn ddydd,
a'm tywyll fydd golenaf.

29 Oblegid ynot ti, fy Naf,
y torraf trwy y fyddin:
Ie yn fy Nuw y neidia'n llwyr,
be tros y fagwyr feinin.
30 Yr perffaith ydyw ffordd Duw nef,
a'i air ef ſydd buredig:
Ac i bob dyn yntho a gred
mae'n ſwccled bendigedig.

31 Cans pwy ſydd Dduw? dwedweh yn rhwydd,
pwy ond yr Arglwydd nefol?
A phwy ſydd graig onid ein Duw?
ſef, d ſigl yw'n dragwyddol.
32 Duw a'm gwregyſodd i a nerth,
a rhoes ym brydferth lwybrau.

33 Fe

33 Fo roês ſy mhaêd at hy-lwybr da,
gorſeddfa'r vchel fannau.

34 Efe ſy'n dyſgu rhyfel ym'
gan roi grym i'm pawennau:
Fel y torrir bwâ o ddur
yn bryſur rhwng fy mreichiau.
35 Daeth o'th ddaioni hyn i gyd,
i hoiſt darian iechyd ymy:
A'th law ddeau yr wyd im' dwyn,
o'th fwynder yr wyn tyfy.

36 Ehengaiſt ymy lwybrau teg,
i redeg buan gamrau:
Nid oes ynof vn cymal gwan,
ni weggian fy enynglau.
37 Erlidiais i fy nghas yn llym,
a daethym iw goddiweddd:
Ac ni throis vn cam i'm hol mwy
nes en bod hwy'n gelanedd.

38 Gwnaethym arayni archollion hyll
fel ſefyll nas gallatant:
Ond trwy amarch iw cig, a'i gwaed,
i lawr dan draed ſyrthiaſant.
39 Gwregyſaiſt fi a gwr egys nerth,
at wres ac angerth rhyfel:
A'r rhai a ddaeth i'm herbyn i,
a gwympaiſt di'n ddiogel.

40 Fal hyn y gwnaethoſt imi gan
ar warran fy angelynion,
A'm holl gas a ddifethais i,
rhois hwynt i weiddi digon.
41 Ac er gweiddi drwy gydol dydd
ni ddoe achubydd attynt,
Er galw 'r Arglwydd: ni ddoe neb
a roddai atteb iddynt.

42 Maluriais hwy fel llwch mewn gwynt;
fal dyna helynt efrydd;
Ac mi a'i ſethrais hwynt yn ffrom,
fel pridd neu dom heolydd.
43 Gwaredaiſt fi o law fy nghas,
rhoiſt bawb o'm cwmpas danaf:
Doe rai ni welſent fi er hoed
a llaw, a throed, hyd attaf.

44 Addaw vſydd-dod, ond fo gaid
gan blant eſtroniaid gelwydd:
45 A phlant eſtroniaid twyll a wnant,
ond crynant iw ſtafellydd.
46 Eithr byw yr Arglwydd ar fy mhlaid,
fy nghraig fendigaid hefyd,
Derchafer Duw: ymho ef trig
fy nerth a'm vnig Iechyd.

47 Fy Nuw tra fo a'i nerth i'm dal,
rhoi dial hawdd y gallaf.
A rheli pobloedd: cans ef o
ſydd yn cu twyſo attaf.
48 Fy ngwaredydd, a'm derchafydd,
o chvſyd rhai i'm herbyn,
Wyt ti o Ddŵr a'm dug ar gais
rhag drwg a thrais y gelyn.

49 Am hyn canmolaf di yn rhwydd
o Arglwydd, Ddŵw y llnoedd:
Canaf dy glod: a hyn ſydd dyſg,
ymyſg yr holl genhedloedd.
50 Duw ſydd yn gwreuthyr (o'i fawr rad)
fawrhad i frenin Dafydd,
Ac iw eneiniog ei wellad,
ac hw had yn dragywydd.

Cœli enarrant. Pſal. 19.

Dangos pogwiant Duw yn ei greaduriaid, a'i gyfraith, a'i râs.

DAtgan y nefoedd fowredd Duw,
yr vnrhyw gwna'r ſtirfaſen.
2 Y dydd i ddydd, a'r nos i nos,
ſy'n dangos cwrs yr wybren.
3 Er nad oes ganthynt air nac iaith,
da y dywaid gwaith Duw lywydd;
Diau nad oes na mor, na thir,
na chlywir en lleſerydd.

4 Aeth eu ſain hwy drwy yr holl fyd,
a'i geiriau hyd eithafoedd.
Yr haul teg a'i gwmpas ſydd bell,
a'i babell yn y nefoedd.
5 O'r hon y oyfyd ef yn rhod,
fel priod o'i orweddfa.
Iw gwrs cyrch drwy lawenydd mawr
fal cawr yn rhedeg gyrfa.

6 O eithaf hyd eithafoedd nef
y mae ef a'i amgylchiad,
Ac ni all dim (lle rhydd ei dro)
ymguddio o'i oleuad.
7 Dyſg yr Arglwydd ſydd berffaith ddiawn,
a dry i'r iawn yr enaid,
Felly rhydd ei wir dyſtiolaeth
wybodaeth i'r ffyddloniaid.

8 Deddfau Duw Ion ydynt vaion,
llawenaant galon ddiddrwg,
A'i orchymyn ſydd bur dian
a rydd olau i'r golwg.
9 Ofn yr Arglwydd ſydd lân: ac byth
y pery'n ddilyth hyſryd.
Barnau 'r Arglwydd ynt yn wir llawn
i gyd, a chyfiawn hefyd.

10 Mwy deiſyfedig ynt nac aur,
ie na choethaur lawer,
Melyſach hefyd ynt na'r mel,
ſef dograu terfel tyner.
11 Cans ynchynt dyſgir fi, dy wâs
ar addas o'r vnlonder:
A'r holl gamp ſy o'i cadw nhwy,
felly cair gobrwy lawer.

12 Er hynny i gŷd, pwy a all
iawn ddeall ei gamweddau?
O gwra fi'n lân, (a bydd ddiddig)
o'm holl guddiedig feiau.
13 Duw attal feiau rhyfig, chwzat,
na thyfant ar fy ngwarthaf:
Yno byddaf wedi 'nglanhau
o'm holl bechodau mwyaf.

14 O Arglwydd, fy mhrynwr a'm nerth,
bydded yn brydferth gennyd.
Fy 'madrodd, pan ddel gar dy fron,
a'm myſyr calon hefyd.

Exaudiat te Dominus. Pſal. 20.

Y bobl yn bendithio eu brenin, ac yn gweddio yn byn en gelynion wrth fynd allan i ryfel.

GWrandawed di yr Arglwydd Ner
pan ddel cyfyngder arnad,

Eyn

Enw Duw Iacob, ein Duw ni,
a'th gadwo di yn wastad.
3 O'i gysegr rhoed yt help a nerth,
a braich o brydferth Seion:
3 Cofied dy offrwm poeth a'th rodd,
bo'rhai'n wrth fodd ei galon.

4 Rhoed ytty wrth dy fodd dy hun,
dy ddymun a'th addumed:
Dy fwriad iach a'th arfaeth tau,
a'th weddiau gwrandawed.
5 Yn Enw ein Duw gorfoleddwn
yn hyf, a chodwn faner:
A'th ddeisyfiadau gwnaed yn rhwydd,
yr Arglwydd o'r vchelder.

6 Yr Arglwydd gweryd (felly gwn)
o'i gysegr drwn ei'nelmog:
Gwrendy ei arch, gyrr iddo rym,
yn gyflym ac yn gefnog.
7 Rhai ar gerbydau rhont en pwys,
rhai ar feirch ddwys ymddiried:
Minnau ar enw'r Arglwydd Ddaw,
mai hwnnw yw'n ymwared.

8 Hwy a'mroesant a syrthiasant,
yn eu nerth eisoes yno:
Codasom a safasom ni,
O Ddaw, a thi i'n llwyddo.
9 Cadw ni Arglwydd a'th law gref,
boed brenin y nef drosom:
Gwrandawed hwnnw arnom ni,
a'n gweddi pan y llefom.

Domine in virtute. Psal. xx.

Gorfoledd dros y brenin am orchfygu amryw dyrnasoedd a chenhedloedd.

O Arglwydd, yn dy nerth a'th rin,
mae'r brenin mewn llawenydd:
Ac yn dy iechyd, yr vn wedd,
mae ei orfoledd bennydd.
2 Holl ddeisyfiad ei galon lân,
iddo yn gyfan dodaist:
Cael pob dymuniad wrth ei fodd,
ac o vn rhodd ni phellaist.

3 Canys da'r achubaist ei flaen ef,
a doniau nef yn gwtaf:
Ac ar ei ben, (ddaionus Ion,)
rhoist goron anr o'r puraf.
4 Ef a ofynnodd gennyd ees,
a rhoddaist hiroes iddo:
A hon dy rodd, dros byth y bydd,
nid a'n dragywydd heibio.

5 I'th iechydwriaeth y mae'n bywa
a mawr yw ei ogoniant:
Gosodaist arno barch a nerth,
a phrydferth yw ei lwyddiant.
6 Rhoist dy fendithion vwch pob tawl,
vn rhodd dragwyddawl iddo:
Allewyrch d'wyneb byth a fydd,
yn fawr lawenydd arno.

7 Am fod y brenin yn rhoi'i gred,
a'i'mddiried yn yr Arglwydd:
Dan nawdd y Goruchaf tra fo,
gwn na ddaw iddo dramgwydd.
8 A thydi Arglwydd a'th law lan,
cei allan dy elynion:
Rhag dy ddehenlaw (er a wnant)
ni ddiangant dy gafcion.

9 Di a'i gosodi'n wydd dy ddig,
fel ffwrnais fyrnig danllyd:
Yr Arglwydd iw lid a'i difa,
a'r tân a'i hysa'n esbyd.
10 Diwreiddi di en ffrwyth o'r tir,
a'i had yn wir ni thyccian:
11 Am fwriadwyt ddrwg ddilen,
heb ddwyn i ben mo'i hamcan.

12 Ti a'i gosodi hwy'r naill du,
a thu a'th lu iw herbyn:
Ac a lefeli dy fwan,
at eu hwynebau cyndyn.
13 Ymddercha di thau f'Arglwydd, gun,
i'th nerth dy hun a'th enfid:
Ninnau a ganwn, o'n rhan ni.
i foli dy gadernid.

Deus, Deus meus. Psal. 22.

Prophwydoliaeth o ddioddefaint Christ, a'i medi dros yr eglwys, a'i fwydaw trag wyddol, yn brophwyd, yn offeiriad, yn frenin.

DAngos fy Nuw, fy Nuw, a'm grym,
ba achos ym gadewaist.
Pell wyd o'm iechyd, ac o nâd
fy'mloeddiad, Llwyr i'm pellaist.
2 Fy Nuw'rwy'n llefain, tithau heb
roi ym' mor atteb etto,
Bob dydd a nos mae'nghri'n ddiffael,
a heb gael mo'm dihuddo.

3 A thi wyd sanct, sanct i barhau,
lle daw gweddiau'n wastad:
A holl dy Israel a'i clod,
a'i pwys a'i hystod attad.
4 Yno't gobeithiai'n tadau ni,
a thydi oedd en bwcclad:
Ymddiried ynot, Arglwydd hael,
ac felly cael ymwared.

5 Llefasant drwy ymddiried gynt,
da saost iddynt, Arglwydd:
Eu hachub hwynt a wnaethost di
rhag cyni a rhag gwradwydd.
6 Fo'm rhifir innau megis pryf,
nid fel gwr cryf ei arfod:
Fel dirmig dynion, a gwarth gwael,
a thybiant gael eu hystod.

7 Pawb a'm gwelent, a'm gwatworent,
ac a'm min-gamnaent hefyd,
Yfgwyd en pennau yn dra hy,
a chwedi hynny dwedyd,
8 Ar yr Arglwydd rhoes bwys a chred,
doed ef iw wared allan,
Os myn ei ollwng ef ar led,
cymered iddo ei hunan.

9 Duw tynnaist fi o groth fy mam,
rhoist ynof ddinam obaith,
Pan oeddwn i yn fugno hon,
ac o'i dwy fron am harchwaith.
10 Arnat ti bwriwyd fi o'r bru,
arnat ti bu fy'mddiried:
Fy Nuw wyt ti o groth fy mam,
fyddiais yt am fy egwared.

11 Oddiwrthif fi yn bell na ddos,
tra fo yn agos flinder,
I'm cymorth i, gan nad oes neb
a drotho'i wyneb tyner,

13 Bafych

12 Buſtych lawer, a chryſion iawn,
daethant yn llawn i'm gogylch.
A theirw Baſan o bob parth,
yn codi tarth o'm hamgylch.

13 Egorant arnaf enau rhwth
i'm bygwth, fel y llewod,
A faent yn rhuo eiſiau maeth,
o raib yſclyfaeth bared.
14 Fel dwfr rwyfi yn diferu'n chwyrn,
a'm heſgyrn, ſigla'r rhei'n ni:
Fy nghalon o'm mewn darfa'n llwyr,
fel cwyr a fai yn toddi.

15 Fel priddleſtr mae fy nerth mor ſwrth
ynglyn wrth fy ngorchfanau
Mae fy nhafod, yr wyf mor drwch,
fy nghyfle yw llwch angau.
16 Cans cwn cylchaſant fi, fy Ner,
a chadſa ſceler ddiffaith:
Cloddiaſant fy nwy law a'm traed,
ac felly gwnaed fy artaith.

17 A rhifo fy holl eſgyrn i,
gan gulni hawdd y gallaf,
Maent hwythau'n gweled hynny 'n wych,
bob tro yn edrych arnaf.
18 Rhyngthyntiw myſg y dillad man
yn rhannau doſbarthaſant,
A heſyd ar fy mrhiſ-wiſc i
coel brenni a fwriaſant.

19 Tithau fy nerth a'm barglwydd da,
nac ymbella oddiwrthy,
O bryſſia, tydi yw fy mhorth,
a thyn'd a chymorth ymy.
20 O dyr'dyac achub yr oes ſau
rhag ofn y cleddau ffyrnig,
A gwared o feddiant y ci
fy enaid i fy'n vnig.

21 Ymddiffyn fi rhag y llew glwth,
dwg o'i ſafn rhwth fy enaid,
Achub a gwrando fi yn chwyrn
rhag cyrn yr vnicorniaid.
22 Mynega fiuan d'enw yn bur
i'm brodur yn yr orſedd.
Llemwya'r gynulleidfa lân,
dy glod a wna'n gyſanneddd.

23 Hâd Iaco ac Iſrael, chwychwi
rhai ych yn ofni'r Arglwydd,
Drwy ofn y rhowch iddo foliant,
a rhowch ogoniant ebrwydd.
24 Cans ni'ch llyſoddi, ni'ch dirmygoddi,
ni chuddiodd ei wyneb pryd:
Eithr gwrandawodd weddi y gwan,
a'i dochan yn ei adfyd.

25 Honot ti bydd, ac i ti gwedd
mewn aml orſedd fy moliant.
I Ddaw rhof Paddunedau'n llon
gar bron y rhai a'i hofnant.
26 Diwellir y tlodion: a'r rhai
a geiſiai at yr Arglwydd
A'i molant ef, ſo gaiff (gwir yw)
eich enaid fyw'n dragywydd.

27 Trigolion byd a dront yn rhwydd
at yr Arglwydd pan gofiant:
A holl dylwythau'r ddaear hon
dônt gar ei fron, y mgrymant.

28 Cans yr Arglwydd biau'r dyrnas,
a holl gwmpas y bydoedd:
Ac vwch eu llaw, ef vnig lydd
ben llywydd y cenhedloedd.

29 Y cyſoethogion a ſwyfânt,
addolant yn eu gwnfyd:
Rhai a ânt i'r llwch gar ei fron,
a rhai, braint meirwon hefyd.
30 Y rhai'n oll a'i hâd, yn vn fryd
gwnſiant iddo gyd waſanaeth:
A'r rhai'n a i'r Arglwydd drwy'r holl dir
a rifir yn genhedlaeth.

31 Dont, dangoſant ei vniondeb
y rhai ſydd heb en geni:
Hyn a addawodd, ef a'i gwnaeth,
hynny a ddaeth o ddiſrî.

Dominus regit me. Pſal. 23

Gobaith yn naioni Duw.

YR Arglwydd yw fy 'mugail clau,
ni âd byth eiſiau arnaf:
2 Mi a gâf orwedd mewn porfa frâs,
ar lan dwfr gloywlas araf.
3 Fe goledd f' enaid, ac a'm dwg
rhyd llwybrau diddrwg cyſion,
Er mwyn ei enw mawr di lys
fo'm tywys ar yr vaion.

4 Pe rhodiwn (nid ofnwn am hyn)
Yn nyffryn cyſgod angau,
Wyd gyda mi, a'th nerth, a'th ffon,
ond tirion dyw'r arfau?
5 Goſodaiſt fy mwrdd i yn frâs,
lle'r oedd fy nghâs yn gweled:
Olew i'm pen, a chwppan llawn,
datonus iawn fu'r weithred.

6 O'th nawdd y daw y doniau hyn
i'm canlyn byth yn hylwydd:
A minnau a breſwaliaf byth
a'm nyth yn nhy yr Arglwydd.

Domini eſt terra. Pſal. 24.

Clod i'r tabernacl, a dangos fod eglwys Duw yma yn gyffelyb i'r eglwys nefol, a prophwyda am Ieruſalem, cymeddaſau y rhai a fydd cyfreſwgion o'r ddwy.

YR Arglwydd piau'r ddaiar lawn
a'i llownder mawr ſy'n eiddo:
Yr Arglwydd biau yr holl lyd,
a'r bobl i gyd ſydd ynddo.
2 Cans fo roes ei ſail hi a'i gwedd,
yn rhyfedd vwch y moroedd:
Ac a'i goſodedd hi yn lân
yn driglan vwch llif-ddyfroedd.

3 Er hyn: pwy a ddringa yn hy
i gyffegr fry yr Arglwydd?
A phwy a ſaif, a theilwng wedd,
vngorſedd ei ſanctaidrwydd?
4 Dyn a llaw lân, a meddwl da,
ac yn ddidraha ei enaid,
Dierwag, ac ni roes vn tro
er twyllo 'i gyfneſeifiaid.

5 Gan yr Arglwydd y caiffbwn wlith
ei râlawn ſendith helaeth,

A chyfiawnder i bob cyſtyw
gan Ddnw yr iechydwriaeth.
6 Hon ſy gan ddaw'n genhedlaeth gref,
a'i ceiſiant ef yn effro,
A geiſiant d'wyneb, dyma enmaeth,
ſef gwir genhedlaeth Iago.

7 Derchefwch chwi byrtheich pennau,
a chwithau ddorau bythol,
Cans brenin mawr daw i'ch mewn chwi,
ſef pen bri gogoneddol.
8 Pwy yw'r brenin hwn gogonedd?
Arglwydd rhyfedd ei allu:
Yr Arglwydd yw, cyfion ei farn,
a chadarn i ryfelu.

9 Derchefwch chwi byrth ych pennau,
ehengwch ddorau bythol:
Cans brenin mawr daw i'ch mewn chwi
teyrn o fri gogonol.
10 Pwy meddwch ydyw'r brenin hwn,
a gofiwn ei ogoniant?
Ior y lluoedd yw, brenin hedd,
a gogonedd, a ffyniant.

Ad te Domine. Pſal. 25.

Dafydd yn ei drallod yn cydnabod ei fai, a'i fod yn haeddu coſpedigaeth: a thrwy amryw fyfyrdodyſprydol, yn cais edifarwch, a gobaith; ac yn rhoi diolch.

F' Arglwydd derchefais f' enaid i
hyd attad tiyn vnion.
2 Fy Nuw, fy ngobaith, gwarth ni châ,
na lawenha 'ngelynion:
3 Sawl a obeithiant ynot ti,
y rhei'ni ni wradwyddir,
Gwarth i'r rhai a wnel am i hawl
ryw dwyll neu gam yn ddiſgir.

4 Arglwydd dangos ym' dy ffordd di,
a phar i mi ei deall:
Dyſg ac arwain fi yn vn wedd
yn dy wirioned di ball.
5 Cans tydi ydwyd Dduw ſy maeth,
a'm iechydwriaeth vnig.
Dy ddiſgwyl yr wyf rhyd y dydd,
a hynny fydd i'm diddig.

6 O cofia dy nawdd a'th ſerch di,
a'th fawr doſturi Arglwydd,
Cofia fod ynot ti erioed,
lawn ddioed dragarogrwydd.
7 Na chofia yr enwireddau mau,
na llwybrau fy ieuenctyd:
Ond Arglwydd, cofia fy nghur i
er dy ddaioni hyſryd.

8 Yr Arglwydd ſydd vnion a da,
a'i ffyrdd ym noddfa ydynt:
Fe arwain, (fel y mae yn rhaid)
y pechaduriaid ynthynt.
9 Fe ddyſg ei lwybrau mewn barn iawn,
i'r rhai vſyddawn yſtig,
Hyddyſg yw ei ffyrdd i bob rhai
a fyddai oſtyngedig.

10 I'r ſawl a gatwo ddeddfau'r Ion,
a'i vnion dyſtiolaethau,
Gwirioned, a thrugaredd fydd
ei lywydd yn ei lwybrau.
11 Er mwyn dy enw (o Arglwydd mau
Pwy maddau fy ſnwireddau,
Cans fy nrhoſeddiad i mawr yw,
mwy ydyw dy drugaredd.

12 Mae, pa ryw wr yn ein myſg ni
ſydd yn par oſni'r Arglwydd?
Fe ddengys y ffordd iddaw ſo,
hon a ddewiſo'n ebrwydd.
13 O hyn y caiff fy enaid cu
le i letteu'n eſmwyth:
A'r holl ddaear hon a'i gwellâd,
a gânt ei hâd a'i dylwyth.

14 Ei holl ddirgelwch a ddyſg ſo,
i'r ſawl a ofno'r Arglwydd:
Ac oi' holl gyfanneddau glan,
efea'i gwna'n gyfarwydd.
15 Tuedду'r wyf fy Arglwydd mâd,
yn waſtad â'm golygon:
Cans ef yn vnic, (yn ddi oed)
rhydd fy nau droed yn rhyddion.

16 Tro attaf, dod y'm nawdd diddig,
cans vnic wyf, a rhydlawd.
17 Gofidiau 'nghalon ynt ar led,
Duw gwared fi o'm nychdawd.
18 Duw, gwel fy mlinder, a'm poen fawr,
a maudd'n awr fy mhechod:
19 Gwel fy ngelynion a amlhânt,
ac a'm caſant yn ormod.

20 Cadw f' enaid, ac achub fi,
na wnel o'r rheini 'm wradwydd:
Rhois fy mhwyſ arnat ti fy Nâf,
a rhodiaf mewn perffeithrwydd.
21 Cadwed fi fy vniondeb maith,
cans rhois fy ngobaith ynod.
22 Duw, cadw di holl Iſrael,
gwared, a gwel ei drallod.

Indica me Domine. Pſal. 26.

Y mae Dafydd yn dangos ei ddiniweidrwydd: ac i ddangos nâd ffug yw ei weddi, mae ſe yn crio yn erbyn y rhai ſydd yn arfer ffug ſancteiddrwydd, ſef eielynion.

B Arn fi (o Dduw) a chlyw fy llais,
mi a rodiais mewn perffeithrwydd:
Ac ni lithraf, am ym rol 'mhwys,
yn llownddwys ar yr Arglwydd.
2 Prawf di fy muched Arglwydd dda;
a hola dull fy mywyd?
A manwl chwilia 'r galon fau,
a phrawf f' arennau hefyd.

3 O flaen fy llygaid, wyf ar led
yn gweled dy drugaredd:
Gwnaeth dalar hynny ar bob tro,
y'm rodio i'th wirioned.
4 Nid cyd eiſtedd gydâ gwageded,
er llithro'n loyw fràs ffrydau:
17 Yn yr anialwch digient Duw,
chwanegent amryw feiau.
18 Yn y diffaethwch profent Duw,
oes ſwyd i ſyw i meddylient:
19 A all Duw gael i'n ymma ſwyd,
mewn cyſryw lochwydd dwedent.

20 Er taro'r graig a rhedeg dwr,
yn ffrydau, cyflwr diboll:
A eill efe roi i'n fara chig,
i'n cadw yn ddiddig ddiwall?
21 Pan glybu Duw yr arairh hon,
fel tân yn wreichion nymodd,
Yn Iago ac yn Iſrael,
gan lid yn vchel digiodd.

22 A'i ddig oedd am na chredent hwy
i Dduw a'i ſwyſwy fowredd,
Ac na welent pa iechyd oedd
yn ei weithredoedd rhyfedd.
23 Gorchymmyn wybren, a'i gwarhau,
egoryd dryſau'r neſoedd:
24 A Manna'n ſwyd, fel gwenith neſ,
a lawiodd ef iw luoedd.

25 Rhoi i ddyn gael rhyw luniaeth da,
ſef bara yr Angylion:
26 Gyrru rhyd wybrea ddwyrain-wynt,
gyda'r deheuwynt nerthlon.
27 Fel y llwch y rhoes gig iw hel,
ac adar fel y tywod:
28 Yngbylch eu gwerſyll a'i trigfydd,
y glawiai beunydd gawod.

29 Bwyta digon a wledd ddiwael,
a chael eu hwyd dymmol:
30 Ac heb ommedd dim ar eu blys,
nac mo'i hewyllys cnawdol.
31 A'i tameidiau hwy iw ſafnau,
(ys ofnwn y Goruchaf:)
Yn Iſrael lladdodd iw ddig
wyr etholedig braſaf.

32 Er hyn pechent, ac ni chredent,
iw iach radau rhyfedd:
33 Trenliodd Duw eu hoes hwy âm hyn,
mewn dychryn ac oſeredd.
34 Tra fyddai Duw yn eu lladd hwy,
os ceiſient dramwy atto:
Os doent drwy hiraeth at ei râs,
yn foran glâs iw geiſio.

35 Os coſient fod Duw iw holl hynt,
graig iddynt a gwaredydd:
36 (Er ceiſio ſommi Duw'n y daith,
â'i gweiniaith, ac â'i celwydd:
37 Er nad oedd eu calon yn iawn,
na ffyddlawn iw gyfammod:)
38 Er hyn trugarhei Duw o'r neſ,
a'i noddes ef oedd barod.

Rhag eu difa, o'i lid y troes,
ac ni chyffroes iw hartaith:
39 Coſiodd ddyn, os marw a wnai,
nas gallai ddychwyl eilwaith.
40 Pa ſawl gwaith y cyffroeſant hwy,
wrth fyned trwy'r anialwch?
Gan ddigio Duw a'i lwyr driſthau,
ynghreigiau y diſeithwch.

41 Troeſant, profaſant Dduw â'i chwant,
gan demptio Sanct yr Iſrael:
42 Anghofio eu cadw hwynt fal hyn,
rhag cael o'i caſddyn afael.
43 Rhoeſai'n yr Aipht arwydd o'i râs,
a'i wyrth yn ninas Zoan;
44 Y modd y troes eu dwſr yn waed,
ni chaed dim glan-ddwſr allan.

45 Rhoes Duw yngwlâd yr Aipht iw plu,
waed, gwybed, llau, a llyffaint:
46 Lindys, locuſt, i ddifa'i ffrwyth,
a chenllyſg lwyth, a malihaint.
47 Diſtrywiodd Duw eu hŷd, gwellt, gwydd
48 Eu coedydd, a'i han'feiliaid:
A chenllyſg eeſſair, nielle a roes,
bu wrth eu heiniocs angau.

49 Rhoes arnynt bwys ei lid, a'i ſûr,
ac ing anghrengar digllon:
Ffrwyth ei lidiowgrwydd ef, a'i wg,
anfonodd ddrwg angylion.
50 Rhyw ſfordd a hon iw lid a droes,
heb ludd iw heiniocs angau,
Ond dwyn eu bywyd hwy drwy haint,
yn ei ddigoſaint yntau.

51 Yna y tarawodd yn Duw Naf
y plant cyntaf-anedig:
Yn nhir yr Aipht, a phebyll Cam,
ſef am ei fod yn llawnddig.
52 Ond (gan droi at ei bobl yn hawdd,)
fel twyſawdd drwy'r anialfan,
Fel arwain deſaid, lwybrau pell,
yn wael ddiadell ſechan.

53 Arweiniodd hwynthwy yn ddioſn,
drwy'r mor (ſforaid ddofn) heb wlychu,
A'i boll elynion hob ſwy ſtar,
ſe wnaeth i'r mor eu llyngcu.
54 Rhoes hwy i eiſeddu'n rhydd,
ym mynydd ei ſanctaiddrwydd:
Yr hwn a ddarfu ei waſhau,
â llaw ddeau yr Arglwydd.

55 Rhoes ef y wlad i ddwyn pob ffrwyth
rhoes i bob llwyth ei gyfran
O Iſrael, ac yn eu plaid,
rhoi'r hen drigoliaid allan.
56 Er hyn temptient, a digient Dduw,
hwn vnic yw ſanctaiddiol:
Ac ni ſyſient mo'r vlyddhau,
iw dyſtiolaethau neſol.

57 Ond mynd ar gil, ac ymlâcsu,
fel eu holl dad.u twyll-nawsi:
Megis bwa a fai mewn câd,
ac yntho daſliad gwyrdraws.
58 Hwyntwy yn ſynych a'i cyffroent,
mewn camwedd troent oddiwrtho
At wylfa nos, a delw o bren,
fal hyn y digien eſo.

59 Ond

59 Ond y Gorucha'n gweled hyn,
a ddigiodd wrthyn hwythau:
Felly dirmygodd Israel,
a gadel ei ammodau.
60 Yna'i ymadawodd efe,
a chyfegr Shilo dirion:
Ei bebyll a'i brif ysgol ddysg,
Ile buasai'mysg ei ddynion.

61 Ei nerth a roes i garchar caeth,
dan elyn daeth eu mowredd:
62 Ei bobl ei hun i'r cleddau llyn'n,
(fal dyna rym'ei'ddigedd:)
63 Ei wyr lenainc fo'i rhoes i'r tân,
gwerfon glân rhoes heibio:
64 Ei offeiriaid i'r cleddyf glâs,
a'i weddw ni chafas wylo.

65 Yr Arglwydd gwedi hyn deffroes,
fal vn a ddoe o gysgu:
Neu fal gwr cadarn wedi gwin,
yn erwin iw dychrynu.
66 Taflodd y gelyn yn ei ol,
rhoes mewn tragwyddol wradwydd,
67 Rhoes wyrion Ioseph dan vn pwyth,
ac Ephraim lwyth i dramgwydd.

68 Gwedi cwlio yrhai'n i gyd,
fo roes ei fryd ar Iuda:
Ar fynydd Scion (ei dretâd)
o gariad iw breswylfa.
69 Yna yr adeiladodd ef
adeilad gref a howddgar,
Yn gyfegr-lys byth i barhau,
fel hen feiliadau'r ddaiar.

70 Etholodd ef Ddafydd ei was,
yr hwn oedd ddifas fugail:
Ac a'i dug ef i maes yn lân,
o'i gorlan a'i ddefaid-gail.
71 O borthi defaid mammau wyn,
iw ddwyn i borthi dynion:
Iagof, ac Israel, a'i plant,
dyna ei feddiant ffyddlon.

72 Yntau a'i porthodd hwynt yn ol
ei berffaith reiol galon:
Ac a'i trinodd hwy yn brydferth,
o nerth ei ddwylaw cyfion.

Deus, venerunt. Psal. 79.

Achwyn rhag y diwfr a wnaethai Antiochus ar Dyrnl Duw a Ierusalem: a gofyn cymorth gan Dduw rhag ei orthrwm elynion.

LAwer cenedl (o Dduw) a ddaeth,
i'th etifeddiaeth vnig:
Rhoed Caerfelem a'i chyflegr hi,
yn garneddi o gerrig.
2 Rhoi cvrph dy weifion, wrth eu rhaid,
i hedrad y ffurfafen:
I'nfeilliaid maes rhoi cig dy faint,
fel dyma fraint a flawen.

3 Fel ffrydau dwfr tywallt a wnaed,
eu gwaed o amgylch dinas
Caerfelem, heb roi corph mewn bedd,
fel dyna ddiwedd atgas.
4 Yn ddirmyg, gwradwydd, ac yn warth,
i bawb o'n pob parth ydym.
5 O Dduw pa hyd? wyd byth yn ddig?
ai fel tân ffyrnig porthlym?

6 Tywallt dy lid ar bobl eſtron,
rhai nid adwaenom m'anot:
Ac ar dyrnaſoedd ni ellw,
(Duw) ar dy enw hyned.
7 Cans wyrion Iagof (bobl oedd gu)
y maent iw hyſu'n rhyfedd:
Ac a wnaethant i'r rhei'ni fod
preſwylfod anghyfanneddd.

8 Na chofia'n camwedd gynt i'n hoes,
Duw bryſia moes drugaredd:
Dy nodded a'n rhagflaeno ni
ſy'mewn trueni'n gorwedd.
9 O Dduw ein iechyd cymorth ni,
er mwyn dy fri gogonol:
A gwared er mwyn dy enw tau,
ni rhag pechodau marwol.

10 Pan y gofynant ple mae'n Duw,
dod arnynt amryw ffonnod:
I ddial gwaed dy ddwyfol blant,
ac yno cânt hwy wybod.
11 Duw, dod ochenaid ger dy fron
dy garcharorion rhygaeth:
Ac yn dy ddirfawr ogoniant,
ymddiffyn blant marwolaeth.

12 Ein cymdogion a'th gablodd di,
tâl i'r rhei'ni yn gwbl ol
En cabledd iw mynwesau'i hun,
o Arglwydd gun gorchefol.
13 Ninnau dy bobl a'th ddefaid mân,
awnawn yr gân ogonawl,
O oes i oes byth i barhau,
ac i'th fawrhau'n dragwyddol.

Qui regis Iſrael. Pſal. 80.

Gweddi at Dduw dros yr Eglwys, ar iddo barhau ei ddaioni a ddechreuaſoſ ef yndi.

CLyw di fugail i Israel,
ſy'n arwain fel y defaid
Hil Iagof, a llewycha di,
a'ſteddi ar Gerubiaid.
2 Fel y gwelo Ephraim hyn,
Beniamin a Manaſſes:
Cyfod, cymorth a gwared ni,
o'th fawr ddaioni cynoes.

3 Llewycha d'wyneb, dychwel ni,
Duw, di a'n cedwi'n gyflym:
Duw y lluoedd, clyw ein gweddi,
pa hyd y ſorri wrthym?
4 Llewa'i bara, drwy wyle yn doſt,
a wnaethoſt di i'r eiddod:
A rhoi iddynt ddagrau bob awr,
drwy feſur mawr yn ddiod.

5 Duw i'n gelynion o bob parth
rhoiſt ni yn warth i'n gwatwar:
6 Llewycha d'wyneb, dychwel ni,
felly i'n cedw i'n gymar.
7 Dugoſt o'r Aipht winwydden ir,
rhoiſt iddi dir i dyfu:
A'r holl genhedloedd o bob man,
troiſt allan cyn ei phlannu.

8 Arloeſaiſt y tir o'i blaen hi,
a pheraiſt iddi wreiddio:
I lanwodd, cuddiodd bob bryn a llawr
fel cedrwydd mawr yn brigo.

11 A'i hiraidd ſrâg yſtyn yr vdd
hyd foroedd ac afonydd:
12 Pam y rhwygaiſt gae'r ſath ber lwyn,
i bawb i ddwyn ei ffrwythydd?

Pawb ai heibio yn tynnu ei grawn,
pan oedd hi'n llawn ffrwyth arni:
13 A'r baedd o'r coed yn tirio'r llawr,
a'r bwyſtfil mawr iw phori.
14 O Dduw y lluoedd, edrych, gwyl,
a dychwyl i'r mgledin
Y winllan hon a blennaiſt di,
â'th law, a'i rhoddi'n dyfu.

15 Lle cadarnheiſt i ti dy hun,
dy brif blanhigyn dedwydd:
16 Llygrwyd â'r cledd, a'r tân yn faith,
a hyn o waith dy gerydd.
17 I gryſhau gwr dy ddeheu law,
boed droſtaw dy fraich nerthol,
Ewn a ſicrheiſt i ti dy hun,
ſef dros fab dyn dewiſol.

18 Tros hwn tra rhoddych di dy law,
oddiwrthaw ni ddychwelwn:
O Dduw, dadebra, bywha ni,
ar d'eaw di y galwn.
19 A dadymchwel nyni i fyw,
o Arglwydd Dduw y lluoedd:
Tywynna arnom d'wyneb-pryd,
ni a gawn iechyd bythoedd.

Exultate Dom. Pſal. 81.

Cyngor i ſoli Duw am ei ddaioni, ac i gydnabod â'n anialchwarwch.

O Cenwch fawl i Dduw ein nerth,
cerdd bryâferth cenwch iddo:
A llafar lais, a genau ffraeth,
gerddwriaeth i Dduw Iago.
2 Cymerwch gathl y pſallwyr lân,
a moeſwch dympan hefyd:
A cheiſiwch ganu gydâ hyn
y nabl a'r delyn hyſtyd.

3 Cenwch vdcyrn ar ſoer newydd,
y pryd ſydd nodol iddo:
4 Sef dedef yw hon ar wyl vchel,
Duw Iſrael ac Iago.
5 Yn Ioſeph clymmodd hyn yn ddyſg,
pan ddaeth oſyſg yr Aiphtwyr:
Lle clywais iaith oedd ddieithr im',
heb ddeall dim o'i hyſtyr.

6 Dwedodd fy Nuw: drwy nerth fy mraich
tynnais faich eich yſgwyddau:
Ac felly tynnais eich dwy law,
i'madaw a'r ffwrneiſiau.
7 I'th flinder gelwaiſt arnaf fi,
gwaredais diſut yma:
Wrth lais taran fy mrhofiad oedd,
ynglan dyfroedd Meribba.

8 Fy mhobl Iſrael gwrando fi,
os yſtyri yn ffyddlon:
9 Na fid ynot arall yn Dduw:
na chrymma'i gauddaw eſtron.
10 Myfi yr Arglwydd Dduw a'th ddug
o'r Aiphtir caddug allan:
Llanwaf dy fol heb ddiffyg dafn,
lleda dy ſafn yn llydan.

11 Ni chaeliai Iſrael fy rhybudd,
ni fyddent vfudd ymy:
12 Gollyngais hwynt iw ſyrdd eu hun,
iw cyngor cyndyn hunny.
13 Och na wrandawſai Iſrael,
gan rodio'n ffel fy llwybrau:
14 A phwys fy llaw llethaſwn fron
en holl elynion hwythau.

15 Caſeion ein Duw, yn ei lid,
a oſtyngeſid iddaw.
Ac ef a roeſai yn y tir
ammodau hir i'r eiddaw.
16 Ein Duw a roeſai iddynt borth,
drwy fraſder cymorth rhadol:
Rhoi mel o'r graig, rhoi llaeth yn ſlith,
a gwenith yn ddigonol.

Deus ſtetit. Pſal. 82.

Yn erbyn tuedd ac anghyfiawnder barnwyr: a dymuno cyfiawnder ar law Duw ei hun.

HOll farnwyr byd mae Duw'n eu myſg,
pe cymtent addyſg gantho:
Duw yw ymyſg y duwiau mân,
a'i farn ſy llân heb wyro.
2 Pa hyd y rhoddwch farn ar dro,
gan bleidio gydâ'r trowſion?
3 I'r tlawd, ymddifad, rheidus trwch,
paham na ferawch vnion.

4 Gwrandewch chwi ar y gwan a'r gwael,
a'r tlawd heb gael mo'i gyfraid:
(Pan ddel y rhei'ni gar eich bron)
o ddwylo'r trowſion diriaid.
5 Gwyr heb wybod, heb ddeall chwaith,
ſy'n rhodio taith tywyllni:
Ni ſyſtent hwy, pe ſiglai'nghyd,
yr hollſyd a'i ſylfeini.

6 Dwedais mal duwiau ych yn ſwr,
a phlant i'r Gwr goruchaf:
Er hyn mal dyn marw a wnewch,
vn gwymp a gewch a'ch hynaf.
7 Duw cyſod, a dyro farn ar
y ddaiar a'i chyrnaſoedd:
Cans mawr yw d'etifeddiaeth. di
a feddi'r holl genhedloedd.

Deus quis ſimilis. Pſal. 83.

Plant Iſrael yn gweddio, ar i Dduw eu gwared rhag eu gelynion: ac ar iddo goſbi y rhai drwg fel yr oſsens of.

NA oſtega, na thaw, na ſydd
di lonydd Duw y lluoedd:
2 Wele, d'elynion yn cryſhau,
gan godi'pendan i'r neſoedd.
3 Ymgyſrinachu dichell yno,
y lle mae ganthyn ſwriad,
A dychymygu dilen brudd,
i ni ſy'n ymgudd danad.

4 Dwedaſant, dewch diſethwn hwynt
na byddo homwynt genhedl:
Ac na bytho byth (meddanc hwy)
am Iſrael mwy mor chwedl.
5 Ymgynghoraſant bawb ynghyd,
ac yn vn fryd i'th erbyn,
6 Edom, Iſmael, Moab blaid,
a'r holl Hagariaid cynyn,

7 Gebal,

7 Gebal, Ammon, Amalechiaid,
Philiſtiaid a gwyr Tirus:
8 Aſſur, yn gydfraich â phlant Lot,
ſal dyna gnot maleiſus.
9 Tâl dithau adref yn y man,
megis i Madian gremlon,
I Siſera, ne'i labin ſwrth,
a laddwyd wrth lan Cizon.

10 Yn Endor gynt bu laddfa fawr,
ar hyd y llawr ar waſgar:
Gwna honynt hwythau laddfa ail,
a'i cyrph yn dail i'r ddaiar.
11 Goſod eu bonedd hwy fel Zeb,
ac Oreb yr vn diwedd:
A'i ſywyſogion fel Zeba,
a Salmunna i orwedd.

12 Dwedent y mynnent yn eu byw
gyſegrfa Duw i'w meddiant:
13 Fel tread rhod, neu wellt mewn gwynt,
dyna yr hynt a gaffant.
14 Fal y llyſg y tân bob pren crin,
a'r flam yr eithin mynydd;
15 Felly â'th ſtorm, ymlid hwy'n gynt
nâ dycheryn corwynt efrydd.

16 Llanw eu tâl'o warth a chwys,
ceiſiant ar frys yr Arglwydd.
17 Ac yn dragwyddol iddynt bydd,
gwiliydd, meſi, a gwradwydd.
18 Diſether hwynt: gwyped dyn byw,
mai d'enw di yw Iehouah:
Ac mai ti vnic Duw ſydd ar
y ddaiar yn oruchaf.

Quam dilecta. Pſal. 84.

Dafydd yn breuthu am Demi Duw; ac am gynulleidfa y Saiſſ: a chlod y babi a ymwetlant â Sion.

DY Babell di mor hyfryd yw I
(o Arglwydd byw y llueedd)
2 Mynych chwenychais weled hon,
rhag mor dra thirion ydoedd.
Mae f'enaid i (ſy Ion) mewn blys,
i'th gyſegr lys dueddu:
Fy nghalon i, a'm holl gnawd yw,
yn Nuw byw'n gorfoleidio.

3 Aderyn y to cafodd dy,
a'r wennol ſry iw chwion
Le wrth dy allor di iw trin,
ſy Nuw a'm brenin tirion.
4 Gwyn ei fyd a drig yn dy dy,
caiſſ dy foli annoy ddigon:
5 Ac ynot ti ſy'n cadarnhau,
a'th lwybrau yn eu calon.

6 Pe rhon a gorfod ar y rhai'n
rhyd glyn wylofain dramwy:
Goſodant ffynnon iddyn nhw,
a'r glaw a leinw ſwyſwy.
7 Ant rhagddynt bawb o nerth i nerth,
nes cael yn brydferth ddyfod:
I'mddanges i Dduw gar ei fron,
yn Sion ei breſwyliod.

8 Arglwydd Duw y lluoedd, clyw fi,
a'm gweddi o Ddaw Iagof:
9 Gwel wyneb d'eneiniog, a'i ſtâd,
Duw'n tarian nâd ſ'n angof.

10 Gwell yw nâ mil, yn dydd Pth dy
am hynny mwy dewiſol.
Yn fod ar riniog y drws tan,
nâ phlaſau yr annuwiol.

11 Sef, haul a tharian yw Duw mâd,
a rydd rad a gogoniant:
Ni leſtair ef ddaioni maith,
i'r rhai a berſaith rodiant.
12 O Arglwydd Dduw y lluoedd unwr,
anſon i lawr dy gymmod:
Dedwydd yw'r dyn a rothe'i gred,
a'i holl ymddiried ynod.

Benedixiſti Domine. Pſal. 85.

Er Mwyn nad oedd Duw yn tynnu meri wialen oddar ei Eglwys gwedi ei dyfid adref o Babel, maen bwy yn gynſaf iw goſſan of i orphen arnynt waſth ei ras. Ac yn achwyn rhag eu hir gyſtudd, ac yn olaſ, yn ymlawenychu yn eu gwaith o adferwidion Duw.

DA wyd i'th dir (Iehouah Ner)
dychwelaiſt gaethder Iago:
2 Maddeuaiſt drowſedd dy bobl di,
mae'i camwedd wedi 'i gaddio.
3 Tynnaiſt dy lid oddiarnom ni,
troiſt dy ddiglloni awchlym:
4 (O Dduw ein nerth) tro ninnau'n well,
a'th lid bid bell oddiwrthym.

5 Ai byth y digi wrthym ni?
a ſorri di hyd ddiwedd?
A faiſ dy lid o oes i oes?
Duw gwrando, mots drugaredd.
6 Pam? oni throi di a'n bywhau,
a llawenhau yr eiddod?
7 O dangos in'dy nawdd mewn pryd,
felly cawn iechyd ynod.

8 Beth a ddywaid Duw am danaf,
mi a wrandawaf hynny:
Fe draetha hedd iw bobl, a'i Saint,
rhag troi ym meraint ynfydu.
9 I'r rhai a ofnant Arglwydd nef,
mae'i iechyd ef yn agos:
Felly y caiff gogoniant bir,
o fewn ein tir ni aros.

10 Ei drugaredd, a'i wirioned,
ar vnwaith cyfarfuant:
Ei vniondeb, a'i hedd ynghyd,
drwy'r tir a'ngyduſaſant.
11 Gwirioned o'r ddaiar a dardd,
vniondeb chwardd o'r nefoedd:
12 Duw a ddenſyn yn' ddaioni,
a'n tir i roddi cnydoedd.

13 Vniondeb oedd o flaen Duw nef,
a'r cyſion ef aed rhagddo:
A Duw a rodla yn ei waith,
ſel i'r vn daith ac efo.

Inclina Domine. Pſal. 86.

Dafydd yn gweddio ar Dduw am gymmorth; ac yn dymuno ar Dduw ei dafyſgu ſ. Ac y mae efe yn achwyn rhag ei elynion.

GOſtwng o Arglwedd y glaſt dau
clyw fy ngweddim trymion:
Gwrando ſi ſy'druan a thlawd,
o'th barawd drugareddion.

I Cadw

2 Cadw fy oes, gwr cynnwyſ wy',
ac yttí 'r ydwy'n credu:
Duw bydd achubwr da i'th wâs,
o'th râs dyrd i'm gwaredu.

3 Trugarha wrthif Arglwydd mâd,
cans arnad llefa'n ddibaid:
4 Einioes dy wâs Duw llawenhâ,
cans attad coda'i enaid:
5 Cans ti o Arglwydd ydwyd ddâs
i'th bobloedd a thrugarog,
I'r rhai a alwant arnat ti,
mae dy ddaioni 'n bleidiog.

6 O Arglwydd clyw fy llais mor llym,
a'm gweddi i'm myfyrdod:
7 Clywi fy llais, gwell fy nghlwyſ,
y dydd y bwyf i'm trallod.
8 Ymyſg y duwiau nid oes vn,
fel dydi gan gogoned:
Ymyſg gweithredoedd cymmain hun,
nid oes yr vn vn weithred.

9 Y bobloedd oll a wnaethoſt (Iou)
o'th flaen dod ac addolant:
A phale bynnág ar y bont
i'th enw rhont ogoniant.
10 Cans tydi ydwyd fawr a phur
yn gwneuthur thyfeddedau:
A thydi'n vnig wyd yn Duw,
ni cheiſiwn amryw dduwiau.

11 Dyſg imi dy ffordd (o Arglwydd)
câf yn rhwydd dy wirioned:
Gwna fy nghalon yn vn â thi,
ac ofnaf fi dy fawredd.
12 Fy Arglwydd Duw moliannaf dí
â holl egni fy nghalon:
Ac i'th fawr enw byth gan dant,
y rhof ogoniant cyſon.

13 Cans mawr yw dy drugaredd di,
tu ac attaf fi yn barod,
Gwaredaiſt i'm enaid i o'r bedd,
ac o'r gorddyfnedd iſod.
14 Duw, daethant atnaf fi wyr beilch,
fel llu o weilch ewin-ddrud:
Ceiſient ddwyn i'm einioes o'r byd hwn,
i'w golwg gwn nad oeddud.

15 Ond tydi'n vnig wyd hawddgâr,
a chlaear dy drugaredd,
Hwyr i'th lid ac i gymmod hawdd,
llawn o nawdd a gwirioned.
16 O edrych arnaf, moes dy râs
i'th wâs y ſydd i'th orllwyn:
Dod ym'dy nerth, cadw fal hyn
fi, plentyn dy lawforwyn.

17 O Dduw dod o'th ſerch ym'arwydd,
er gwradwydd i'm caſeion:
Pan welant dy fod yn rhoi nerth
ym', ac ymadferth ddigon.

Fundamentz eius. Pſal. 87.

To Yſtryd glán yn prophwydo am ryddhâd yr eglwys a'r cyſnr ſydd o fod yn vno hefo.

SAilfeiniaon (ſef Sion) ſydd
ar gyſlegr fynydd vchel:
2 A car dy byrth rhoes Duw ei ſerch,
yweh pob trig-lannerch lâen,

3 O ddinas Duw, preſwylfa'r Ion,
mawr ydyw'r ſon am danad:
A gogoneddus air yt' ſydd,
vwch trigfennydd yr holl-wlad.

4 Rahab, Babel, a Phaleſtin,
a Thirus flin, a'r Mwriaid,
A fu i'th blant elynion gynt,
mae rhai o honynt vnblaid.
5 Ond dwedir hyn am Sion ber,
ſo anwyd llawer ynthi,
Nid ymbell vn: cans ſwſcwr da
yw Duw gouucha'iddi.

6 Fe rydd yr Arglwydd yn ei riſ,
y neb ſo cyſrif hono:
Efe a eſyd byn ar led
ſef, Hwn a aned yno.
7 Cantor tafod, a cherddor tant,
pob rhai yt' canant fawr-glod
A thrwy lawenydd mae'n parhau
fy holl ffynhonnau ynod.

Domine Deus. Pſal. 88.

Y ffyddloniaid yn en cyſnadd yn galw ar Dduw drwy ffydd.

ODduw fy Iechyd, nos a dydd,
mae 'ngweddi 'n vſydd arnad,
2 Goſtwng dy gluſt, o Arglwydd nef,
a doed fy llef hyd attad.
3 Cans mae fy enaid mewn dull caeth,
a'm heinioes aeth i'r beddrod:
4 Fel gwr marw y rhifwyd fi,
a'm nerth oedd wedi darfod.

5 Mor fawr a rhai wedi eu lládd,
a'i taſlu 'nglhâdd mewn angof,
A laddyt di mor fwr a hyn,
na bai byth honynt atgof.
6 Goſodaiſt fi mewn dyfndec trwch,
ac mewn tywyllwch eithaf.
7 Rhoiſt bwyt dy ddig ar y corph man,
a'th holl for-donnau arnaf.

8 Pellheiſt fy holl gydnabod da,
r'wy fyn ffieidd-dra iddyn:
Ni chaf fi fyned at vn câr,
yr wyf mewn carchar rhydyn.
9 Y mae fy ngolwg (gan dy lid)
mewn gofid o fawr gyſtydd.
Duw llefais arnad yn fy mraw,
gan godi'mwylaw beunydd.

10 Ai i'r meirw y dangoſi wyrth?
a ddant i'th byrth i'th foli?
11 A draethir dy fawl yn y bedd,
a'th lân wirioneid heini?
12 Ai mewn tywyll y mae dy rádi
a'th lowndeb yngwlad angof?
13 Fal hyn (Duw) llefais arnat ti,
o clyw fy ngweddi etto.

14 Pam (o Arglwydd a'm Duw) i'm rhaid
y rhoi fenaid ar wrthod?
Ac y cuddi dy wyneb pryd?
fy nghoel i gyd ſydd ynoch
15 Tnan ymrou marwolaeth wyf,
mewn trymglwyf o'm ieuenctyd:
A'th ofni bum yn nychbeth gwael,
gan ammau cael me't iechyd;

16 Dy

18 Dy ddig a lifodd drofof fi;
d'wfn fydd i'm corri 'n effydd,
Fel deifr y daethant yn fy nghylch,
do, do, o'm hangvich beunydd.
19 Ymhell oddiwrthyf rhoiſt bob câr,
pob cyfa ll hygar heibio,
A'm holl gydnabod a fu gynt,
yr ydynt yn ymgaddio.

Miſericordias. Pſal. 89.

Dafydd yn molı Duw am ei ſyſcmod, ac yn acbwyn wacced oedd ei dyrnas: ac yn olaf y mae eſit yn gweddio am ei wared o'i ſiuderau, ac yn dangos byrred oes dyn.

MYſyriaf gerdd byth i barhau
o drugareddau'r Arglwydd:
A'i wirioned i'm genau fydd,
hyd dragywydd yn ebrwydd.
2 Sef dwedais hynt cair byth yn wir,
adeiledir trugaredd:
I barhau byth cair yn y nef
dy gadarn gref wirionedd.

3 Fal hyn (o Dduw) attebaiſt ym',
mi a wneuthym rwym gan dyngu,
I Ddafydd f' etholedig wâs,
a'r gair o'm grâs yn cardde.
4 Fal hyn ſiccrhâf dy hâd di byth,
a gwnaf wahelyth dreſniad.
I'th gadarn fairge o oed i oed,
mi a roi bob troed yn wâſtad.

5 Am hyn y ſiccrwyd tragwyddawl
y nef o fawl dy wyrthiau:
Yngorſedd Sainct, y gbverchfa hedd,
am dur wirioned a'eiriau.
6 Pwy ſyddeyſtal â'n harglwydd cu
pe chwilid lla'r wybrennau?
Ymyſg Angylion pwy mal Ion,
ſef ymhlith meibion duwiau?

7 Drwy gynnulleidfa ei Sainct ef,
Duw o'r nef ſydd ofnadwy:
A thrwy'r holl ſyd o'n hamgylch ni,
i ofni ſydd ddyladwy.
8 Pwy ſydd debig i t. Dduw byw,
o Arglwydd Duw y llu oedd?
Yn gadarn lor, a'th wir i'th gylch,
o amgylch yr holl neſoedd.

9 Ti a oſtyngi y mor mawr,
a'r don hyd lawr yn yſtig:
10 A nerth dy fraich curi dy gâs,
yr Aipht, fal gwâs lladdedig,
11 Eidiod nef a daiar i gyd,
ſeiliaiſt y byd a'i lanw:
12 Gogledd, deau, Tabor, Hermon,
ſy ditiou yn dy enw.

13 Pth fraichmae grym', mae nerth i'th law,
a'th gref ddeheulaw codi:
14 Nawdd a barn yw dy orſedd hir,
a nawd i a gwir a geri.
15 Eu gwnſyd i'r holl bobl a ſydd,
a ſoni llawen yd i nod:
Ac yn llewych dy wyneb glân
y rhodian i gyfarfod.

16 Yn d'wnig enw di y cânt,
fawl a gogoniant beunydd,
Yn dy gyfiawnder codi'a wnânt,
ac ſelly byddant ddedwydd.
17 Cans ti wyd gryſder eu nerth hwyl
lle y caffent ſwy o dycciant,
Dydi a ddarcheſi eu cyrn,
ac ſelly ceciyrn lyddant.

18 Cans o'r Arglwydd a'i ddaioni,
y daw i ni amddiffin:
O Sanct Iſrael drwy ei law,
oddiyno daw ein brenin.
19 I'th ſanct y rhoiſt gynt wybodaeth,
drwy weledigaeth neſolt:
Gaſodais gymorth i'ar gryf gun,
derchefais yn dewiſol.

20 Cefais (eneinials ef yn olj)
fy ngwâs dewiſol Dafydd
Ag olew ſanct: 21 Braich a llâw graf,
rhoiſt gyd ag ef yn llywydd.
22 Ni chaiff gelyn ei orthrynnu,
na'i ddrygu yn mab cnwir:
23 O'i flaen y coetha'i elynion,
a'i holl gaſeion dihir.

24 Fy ngwirioned, a'm trugaredd,
rhof fi trwy gariad iddo,
Ac yn fy enw fi'n ddi orn,
dyrchefir ei gorn efo.
25 Goſodaf ei law ar y mor,
ac o'r goror bwygilydd:
A goſodaf ei law ddeau,
hyd terfynau'r afonydd.

26 Ef a weddia arnaf fi
Iw galedi, gan ddwedyd,
Ti yw fy nhad fy Nuw, fy ngharn,
yn gadarn o'm ieuengtyd.
27 Minnau gwnaf yntau im yn fab,
yn goſaf bac etifedd,
Ar frenhinoedd y ddaiar las,
yn vwch ei ras a'i fowtedd.

28 A chadwaf iddo (yr vn wedd)
drugaredd yn dragwyddolt
A'm cyfammod iddo yn llawn,
yn ffyddlawn, ac yn nerthol,
29 Goſodaf hefyd byth i'w had,
nerth a mawrhâd vwch bydoedd
A'i orſeddfainge ef i barhau,
vn wedd a dyddiau'r neſoedd.

30 Ond os eiblant ef (drwy afrol)
nid ânt yn ol fy nghyfraith,
Os hwy ni rodiant, gan barhau,
i'm beirnia'm llwybeau perffaith;
31 Os fy neddfau a halogant,
ni chadwant fy holl eirchion,
32 Yna vmwelaf a'i cam gwers,
â gwiaiſ ſcwrs, neu goeſſon.

33 Ond ni thorraf ag ef yn nod,
o'm hammod a'm trugaredd:
Ac ni bydaf ſi ddim yn ol,
o'm yſtyriol wirioned.
34 Ni thorraf fy nghyfammod glân,
a ddaeth allan o'm genau,
Ac ni newidiaf air o'm llw,
mi a roiſ iw new'n ddiau.

35 Yn fy ſancteiddrwydd tvngais im',
na phallwn ddim i Ddafydd,

36 Bydd ei had a'i drwg, yn ddi dranc
o'm blaenſel haul tragywydd.
37 Yn dragywydd y ſicrheir eſ,
fel cwrs(c) ix nef planedau
Haul neu lenad, felly y bydd
ei gwrs tragywydd yntau.

38 Ond ti a'm ffieiddiaiſt ar fyrr,
ac yn ddiyſtyr lidiog
Di a gyffreiſt yn dra blin,
wrth dy frenin eneiniog.
39 Diddymaiſt di dy air i'th was,
a'th râs, a'th addewidion:
Ac a'i halogaiſt eſ yn fawr,
gan daflu'i lawr ei goron.

40 A drylliaiſt ei fagwyrydd eſ,
a'i gaer gref rhoi'ſt yn adwy.
41 Yn egored felly y mae
yn brae i bawb ſy'n tramwy.
42 Iw gym'dogion gwarthrudd yw eſ,
a than law gref ei elyn,
A llawen fawn y codent floedd,
bob rhai a oedd i'w erbyn.

43 Troiſt heſyd fin ei gleddau eſ,
a'i law oedd gref a blygaiſt:
44 Darfu ei lendid eſ a'i wawr,
a'i dorwn i'r llawr a fwriaiſt.
45 Pryd ei ieuengctyd heibio'r aeth,
a thi a'i gwnaeth cyn fyrred,
A bwriaiſt drofto wradwydd mawr,
o nen hyd lawr y torred.

46 Pa hyd fy Nuw y byddi' nghuddiſt
ai byth, fy llywydd nefol?
A lyſg dy lid ei fel y tân
yn gyfan yn dragwyddol?
47 O cofia pa oes ei bod yn ferr,
a i'n ofer gynt y gwnaethoſt
Holl blant dynion o dal dy law,
ac yn' ni ddaw yn rhydoſt.

48 Pa wr y ſydd a'i oes dan ſel,
na ddel marwolaeth atto?
Pwy a all ddiange, ac ni ddaw
y caib a'r rhaw i'w guddio?
49 O mae dy nodded Arglwydd gynt?
mae helynt dy drugaredd?
Mae dy lw, o ſyriol ſyddi,
i Ddafydd i'th wiriondeb?

50 Cofia Arglwydd yn wradwydd llym'
lle'r ydym ni, dy weiſion.
Yr hwn a dawdd i'm monwes i,
gan ſtroſt y Cowri mowrion.
51 Yr hwn wareth'r oedd elynion di
yt' yn ei roddi 'n eldieg,
(Fy Arglwydd Ddaw) a'r vn ſyr-hâd
i droediad dy eneiniog.

52 Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn ſytho.
Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn ſytho.

Domine refugium. Pſal. 90.

Moſen wrth weled y bobl heb yſtyried dim o ddaioni Duw, na'i goſb, yn gweddio ar Ddaw a'm dyn [in calonau hwy a'i drugarydd,

DVw! buoſt in' yn Arglwydd da,
ac yn breſwylfa i drigo,
O bryd i bryd, felly yr aeth
bob rhyw genhedlaeth heibio.
2 Er cyn rhoi ſailyn mynydd mawr,
cyn llunio llawr cwmpaſ-fyd,
Duw! o dragwyddol wyd cyn neb,
hyd dragwyddoldeb heſyd.

3 Weithian i ddiniſtr y troi ni,
troi dithau wedi'n rhyddau.
A dwedi cyn tin mynd i'r llwch,
dychwelwch meib-on Adda.
5 Cans dec mlynedd ſel doe ynt,
pan elo 'i helynt heibio,
O'th ſiaen di, megis gwylfa nos,
ni chaiff yn ddangos etto.

5 Nid yw dyn ond fel hun, neu ail
i addail, neu lifeiriant.
Neu megys glâs lyſiem gwan,
mor ſuan y newidiant.
6 Yr hwn y boran gwyrddlas ſydd,
a gwawr o newydd arno:
Ond pan y torrer eſ brydnawn,
yn ſuan iawn mae'n gwywo.

7 Cans yn dy lid difethwydni
gan ofni dy ddigofaint,
8 Rhoiſt di ein beiau gar dy fron,
a'n holl ddirgelion dryghaint:
9 Cans drwy dy ddigg mae 'n dyddiau ni,
a'n tegwch gwedi darfod,
A'n holl flynyddoedd yn ar ben,
fal gorphen henchwedl gorfod.

10 Ein holl flynyddoedd yw ſaith ddeg,
dan bump chwanegos bydd gryno:
Yna ein nerth ai'n boenblin iawn,
i ſfordd yr awn yn gyflym.
11 Ond pwy a edwyn nerth dy lid?
mawr oedd ſydd o'th ſorri:
Set fel'y mae dy ofn di'n fawr,
dy ddig ſydd ddirfawr iaun.

12 Dyſg felly 'n rifo'n dyddiau gwael,
i'n calon gael doethineb,
13 Dow ba hyd! dyrd a dod yn hawdd
i'th weiſion nawdd ac nadeb.
14 Yn ſoran iawn diwalla ni
i'th fawr ddaioni eiſoes,
Fel y caffom ni lawen fyd
yn lyſtyd dros yn heinioes.

15 Gwna ni yn llawen, bucm brudd
ban oedd yn' gyſtudd dybryd:
A chwe dillewer blwyddyn drom,
y rhai y cowſom adſyd.
16 O Dduw, gwna weled dy fawr waith,
a'th wrthiaw maith i'th weiſion,
A'th odidowgrwydd, a'th ſyniant,
ymyſg en plant a'i hwyrion.

17 Arnom ni doed rhâd Duw a'i nerth,
i ſâlu prydferth weithiaw,
Duw dod ein gwaith mewn trefnid dda
Duw trefna waith ein dwylaw.

Qui habitat. Pſal. 91.

Dyma ſtorhâd o ddadwyddwch y dyn a ſo yn rhai [ei bydd yr Ddaw rhag pob proſ dinaeth.

Addewid

Addewid Duw i'r rhai a'i hofnant ac a'i canant ef, o ddiwgelrwydd, a gogoneſt tragwyddol.

YSawl a drigo, doed yn neſ,
yn llocheſ y Goruchaf,
Ef a ymeryd i gael bod
ynghyſgod hwn ſydd bennaf.
2 Fy holl ymddiffyn wyd a'm llwydd,
wrth fy Arglwydd y dwedaſ,
A'm holl ymddiried tra fwy fyw
ſydd yn fy Nuw Goruchaf.

3 Caus ef a weryd yr oes dan,
oddiwrth faglau yr heliwr,
A hefyd oddiwrth bla, a haint,
echryſaint, ac anghyflwr.
4 Ei eſgyll droſod ef a rydd,
dan ei adenydd byddi
Yn ddiogel: a'i wiredd gred
ſydd gylch a biwcled itti.

5 Ni ddychryni er twrf y noſ,
na'r dydd o achoſ hedfaeth,
6 Er haint, neu blâ, mewn tywyll fydd,
neu hanner dydd marwolaeth.
7 Wrth dy yſtlys y cwympa mil,
a dengmil o'th law ddeau t
Ac ni ddaw drwg yn dy gyfyl,
a thi a'i gwyl yn ddiau.

8 A'th lygaid y gweli di dâl
i'r enwir gwammal anian.
9 Sef fy holl obaith wyd (o Ddduw)
ac vchel yw dy drigfan.
10 Ni ddigwydd niwed yt', ond da,
na phla, na dim echryſlon,
I'th Eglwys a'th gynlleidfa nawdd,
11 canſ archawdd'iw Angylion,

I'th ſyrdd dy gadw, a'th gynllwyn,
a'th ddwyn â'i dwylaw hardd-deg,
12 Rhag digwydd yr ddrwg (hyd yn oed)
taro dy droed wrth garreg.
13 Dy ſangfa fydd ar y llew dig,
a'r aſp wenwynig ſethri t:
Ar greulon genſu'r llew o'r graig,
ac ar y ddraig y ſengi.

14 Mi a'i gwaredaf ef rhag brâd,
am roi ei gariad arnaf,
Am adnabod ſy enw man,
yn ddiau y derchafaf.
15 Geilw arnaf, mi a ai gwrandawaf,
mewn ing y byddaf bared,
Gwaredaf hefyd rhag ei gâs,
a chaiff drwy vrddas fowrglod.

16 Fo gaiff fyw yn ddigon o hyd,
caiff yn y byd hir ddyddiau.
Dangoſaf iddo radlawn faeth,
a'm iechydwriaeth iſaau.

Bonum eſt. Pſal. 92.

Pſalm i gyhoeddi y bobl i gydnabod ac i foliannu Duw yn ei weithredoedd. Dirwedd diſgwiliaeth yr enwir: a dedwyddwch y cyfion yn cael mwſi Duw yn ei Deml.

MOliannu 'r Arglwydd da iawn yw,
a chyfarch Duw yn bennaf:
A chanu i'th enw di fawl,
a'th ganmawl (y Goruchaf.),
2 Y boran am dy drugaredd
a'th wirioneidd ſon y noſ,
3 Ar ddecſtant, nabyl, a thelyn,
myſyrio hyn a'i ddangoſ.

4 Sef drwy dy weithred llawenhwyſ,
ynnyn mwyf yn ſy Nuw Naf,
Yngwaith dy ddwylaw ſy Nuw Ior,
beunydd y gorfoleddaf.
5 Dy weithredoedd ond mawrion yat t
6 Dy helynt nis gwyr anghall t
Dy feddyliau o ddyfn iawn fryd,
hyn nis gwyr ynfyd ddeall.

7 Pan flodeuo yr enwir ddyn,
megis llyſewyn iraidd,
Pan fo drygweilch yn grefu plaid,
Duw yno rhaid eu diwraidd.
Y drwg flagar vchel yr ânt,
a hwy a ſyrthiant beunydd t
8 Tithau yr Arglwydd yn ddigel,
wyt vchel yn dragywydd.

9 O Arglwydd wele d'elynion,
dy gaſcion diſtethir,
A holl weithredwyr train a cham,
yn ddinam a waſgerir.
10 Tydi a ddercheſi fy nghorn,
fel yr vnicorn perffaith,
Hefyd â gwerthfawr olew ir,
i'm taenellir ieilwaith.

11 Fy llygaid a welant hefyd,
fy ngwynfyd o'm gelynion.
A'm cluſtiau a glywant ar frys
f' ewyllys am ddrwg ddynion.
12 Y cyfion blodeua i'r nen,
fal y balmwydden vnion,
Cynnyddu yn iraidd y bydd,
fel cedrwydd yn Libanon.

13 Y rhai a blannwyd yn nhy Ddduw,
yn goedwydd byw y cyfant,
Ac ynghyntedd au ein Duw ni
y rhei'ni a flodeuant.
14 A dwyn eu ffrwyth a wnant o faint,
yn amſer henaint ertto,
Tirfion, iraidd, a phroſadwy
a fyddant hwy yn hilio.

15 I ddangoſ nad trawſ, ac nad cam
f' Arglwydd a'm cadernyd,
Ac nad oes ynthi na chamwedd,
na dim anwiredd hefyd.

Dominus regnavit. Pſal. 93.

Moliant i allu Duw: yn erbyn y bobl a wrthwynebant awdurdod.

TEyrnaſu y mae yr Arglwydd,
mewn ardderchogrwydd gwiſgodd t
Ymwiſgodd f' Arglwydd, yn brydferth,
a nerth yr ymwregyſodd.
2 Fe a ſicrhâodd ſail y byd
heb ſyfyd, yn ddihaeth:
Dy fainc erioed a ddarparwyd,
ti wyd er tragwyddoldeb.

3 Y llifeiriaint, (ſy Arglwydd) faint
y llifeiriaint yn codi,
Tyrfan a llif yn rhwygo'r llawr,
a thonnau mawr yn corthi

4 Cadarn yw tonnau y moroedd,
gan dyrfau dyfroedd lawer.
Cadarnach yw yr Arglwydd mau,
yn nhyrau yr vchelder.
5 Dy dyſtiolaethau ynt ſiwr iawn:
ſef cyſawnyw ſancteiddrwydd,
A gweddus yn dy dŷ di fydd,
byth yn dragywydd i'r Arglwydd.

Deus vltionum. Pſal. 94.

Gweddi at Dduw ynerbyn y gorthrymwyr, a chyſſur i'r gorthrymedig.

O Arglwydd Dduw, Duw mawr eirym,
dialwr llym pob traha,
O Dduw y nerth, ti biau'r tâl:
a'r dial, ymddiſgleiria,
2 Ymddercha di farnwr y byd,
a thâl i gyd eu gobrwy,
I'r beilchion a'r trahaus dod
y tâl a ſo dyladwy.

3 Ba hyd? (o Arglwydd) o ba hyd,
y chwardd gwyr byd drygionus?
4 Yr ymſalchiant yn eu drwg,
gan ſygwth amlwg ffroſtus?
5 A'th bobl di (Arglwydd) a ſaeddant,
a chyſtuddiant dy dretâd,
6 Y weddw, a'r dieithr a laddant,
lliaſant yr amddifad.

7 Dwedaſant hyn heb geiſio cel,
ein gwaith ni wel yr Arglwydd,
Ac ni ddeall Duw Iago hyn,
ynny ni ddiſgyn aſtwydd.
8 Ymyſg y bobloedd difraw don,
ysty riwch ddynion angall,
Chwithau ynfydion, o ba bryd
y rhowcheich bryd ar ddeall?

9 Hwn a wnaeth y gluſt i bob byw,
oni chlyw ef yn amlwg?
Ac oni wyl hwnuw yn hawdd
a lumawdd i ni olwg?
10 Oni cherydda hwnuw chwi
ſy'n cosbi pob cenhedlaeth?
Ac oni wyr hwnuw y ſy'n
dyſgu i ddyn wybodaeth?

11 Gwyr yr Arglwydd feddyliau dyn
mai gwagedd ydyn diffaith,
12 Duw, dedwydd yw a gosbech di,
a'i ffordd i yn dy gyfraith:
13 Yr hon a ddyſg i ddyn warhau,
i ſwrw dyddiau dihir,
Tra ſoer yn darparu y clawdd,
y fan y bawdd yr enwir.

14 Canſein Ior ni ei bobl ni âd,
a'i wir dretâd ni wrthyd,
15 Ef at iawn farna gadarnhâ,
a phob dyn da a'i dilyd.
16 Pwy a gyfyd gyda myfi,
yn erbyn egni trowledd?
Pa rai a ſafant ar fy nhu,
yn erbyn llu anwireddi?

17 Oni bai fod Duw imi yn borth,
ac vſtyn cymorth i mi,
Braidd ſuna ddaethai ym' y lotu
a roeſai i'm oes i dewis

18 Pan ſawn yn cwyno dan drymhau,
rhag bod i'm camrau lithro.
Fy Arglwydd, o'th drugaredd dnd,
di a'm cynhelud yno.

19 Pan ſo ynof' amlaf yn gwau,
bob rhyw feddyliau trymion,
Doe dy ddiddanwch di ar dro,
i gyſuro fy nghalon.
20 A oes gyfeillach i ti Dduw,
a maint yr anuwoliou?
Hwn a lunia enwiredd maith
yn lle y gyfraith vnion.

21 Y rhai ſy'n ymdyrru yngbyd,
ar fryd dwyn oes y cyſion:
Ac yn eu cynger yr ymwnaed
i geiſio gwaed y gwirion.
22 Ond yr vnic Ior ſydd er hyn,
yn llwyr amddiffyn i' enaid:
Eſe yw ſy nerth o'm hol a'm blaen,
a ſeilſ.en ſy ymddiriaid.

23 Efe a dâl i bob dyn drwg,
yn amlwg am ei gamwedd:
Y maleiſus tyn Duw o'r byd,
am ei chwyd o enwiredd.

Venite exultemus. Pſal. 95

Y mae'n annog i foli Duw am lywodraethu y byd, a dewn yr eglwys: ac i ochel cyffelybu ein tadau, y rhai am demptio Duw, ni chawſant ddyfod i dir y hynyd.

O Dowch a chanwn i'r Arglwydd,
eſe yw Llwydd ein bywyd:
Ac ymlawenhawn yn ei nerth,
ef yw ein prydferth iechyd.
2 O down yn vn-fryd gar ei fron,
â chalon bur ddiolchgar:
Bryſſiwn at Dduw dan lawenhau,
a chanwn pſalmau'n llafar.

3 Herwydd yr Arglwydd nef a llawr,
y ſy Dduw mawr yn ddiau:
Tywyſog mawr yw ef mewn trin,
a brenin yr holl dduwiau.
4 Eſe biau holl ddaiar gron,
a'r dyfnder eigion danaw:
Vchelder heſyd, eithafoedd,
mynyddoedd ſydd yn eiddaw.

5 Ef biau'r moroedd vwch pob traeth,
ac ef a'i gwnaeth i ruo:
Ei ddwylaw ffurfiaſant yn wir
y ſych-dir ac ſydd yntho.
6 O dowch, addolwn, cyd-ymgrymmwn,
ac ymoſtyngwn iddaw:
Ef yw ein Arglwydd vn-ben rhi',
ef a'n gwnaeth ni â'i ddwylawe

7 Cans ef i ni y ſydd Dduw da,
a phobl ei borfa ydym:
A'i ddefaid ym, os chwi a glyw
ei air ef heddyw'n gyffym.
8 Meddyliwch fod eich bai ar lled,
na ſydawch galed galon:
Fel yn nydd prawſ, mewn anial dir,
lle y coſir bod ymryſon.

9 Y lle temtiodd eich tadau ſi,
a'm proſi i'm adnabod;

Eaint

Faint ydoedd y gweithredoedd mau,
yn ddiau cawſant wybod.
10 Dros ddeugain mlynedd â'r llin hon
drwy fawr ymryſon, dwedais,
Pobloedd ynt cyſeiliornus iawn,
a'i calon yn llawn malais.

Cans nid adwaenent y ffyrdd mau,
onid amlhau eu tuchan:
11 Wrthynt i'm llid y tyngais hyn,
na ddelyn i'm gorphwyſfau.

Cantate Domino. Pſal. 96.

Cynnor i bob cenhedlaeth i ſôli Duw am ei drugaredd.

OCenwch glod i'r Arglwydd mâd,
a moeſwch ganiad newydd:
Yr holl ddaiar dadcenwch fawl,
yr Arglwydd nefawl beunydd.
2 Cenwch chwi glod i'r Arglwydd nef,
a'i enw ef bendigwch,
A'i iechydwriaeth drwy gref ydd,
o ddydd i ddydd cyhoeddwch.

3 Datcenwch byth ei glod a'i râd,
yngwlad y cenhedlaethoedd,
A'i ryfeddodau ef ym mhlith,
pob amryw, amrith bobloedd.
4 Cans ein Arglwydd ni ſydd Duw mawr,
a rhagawr canmoladwy,
Uwch yr holl dduwiau y mae ef,
yn frenin nef ofnadwy.

5 Duwiau y bobl eulynnod ynt,
ni ellynt mwy na chyſgod:
A'n Duw ni a wnaeth nef a llawr,
fal dyna ragawr gormod.
6 Cans mawr ydyw gogoniant nef,
ac o'i flaen ef mae harddwch,
Yn ei gyſſegr ef y mae nerth,
a phurydferth yw'r hyfrydwch.

7 Chwi dylwythau y bobloedd, trowch,
yn Hawen rhowch i'r Arglwydd,
I'r Arglwydd rhowch ogoneddi fry,
a nerth, a hynny'n ebrwydd.
8 Rhowch ogoniant iw enw ef,
yr Arglwydd nef byth bobloedd,
A dwyd offrwm iddo heurych,
a chwi dowch iw gyntedd oedd.

9 Addolwch ſ' Arglwydd gar ei fron
iw gyſſegr, digon gweddol:
A'r ddaiar rhagddo, hyd, a lled,
dychryned yn aruthrol.
10 I'r holl genhedloedd dwedwch hyn
yr Arglwydd ſy'n tyrnaſu:
Nid yſgog y byd ſy'n ſicr iawn,
ef a wyr vniawn farnu.

11 O llawenhâed nefolaidd do,
i'r ddaiar bo gorfoledd:
Rhued y mor a'i deonau llawn,
a'r pyſg ſy' mewn ei annedd.
12 A gorfoledded y maes glâs,
ei dwſ, a'i addas ffynſant:
A phob pren gwyrdd ſydd yn y coed,
i'r Arglwydd rhoed ogoniant.

13 Am ei ddyfod, am ei ddyfod,
a'i farn ſydd bynod lowenwedd:
Barna yn gyfion yr holl fyd,
a'r bobl, â'i gyd-wirionedd.

Dominus regit. Pſal. 97.

Dafydd yn cynghori pawb i lawenychu am ddyfod teyrnas Chriſt, yn ofnadwy i'r annŵr, ac yn llawenydd i'r cyfion.

YR Arglwydd ydyw ein pen rhaith,
bo perſaith y ddaiaren:
Ynyſoedd cedyrn yr holl fyd,
bont hwy i gyd yn llawen.
2 Niwl a thywyllwch ſy iw gylch ef,
hyfrydwch nef gyfannedd:
Lawnder a barn ydynt yn ſail,
ac adail maingc ei orſedd.

3 Tân â o'i flaen ef, ac a lyſg
ym myſg ei holl elynion:
4 A'i fellt yn fflamio trwy'r holl fyd,
oedd olwg enbyd ddigon.
5 O flaen Duw, fel y tawdd y cwyr,
y bryniau'n llwyr a doddent:
O flaen hwn (ſef yr Arglwydd) ac
y ddaiar y diflannent.

6 Yr holl nefoedd yn dra hyſbys
a ddengys ei gyfiownedd,
A'r holl genhedloedd a welſant
ei fawr ogoniant rhyfedd.
7 Gwradwydd i'r rhai a waſanaethan
y delwau mân cerfiedig:
Addolwch ef (nid anlun eau)
holl dduwiau darfodedig.

8 Dy farnedigaeth (o Dduw Ion)
a glybu Sion ddedwydd:
Merched Iuda (o herwydd hyn)
ſy'n ymnyn o lawenydd.
9 Cans ti (o Arglwydd) yw fy Naf,
oruchaf dros y ddaiar:
Rhagorol yw'r derchafiad tan
vwchlaw'r holl dduwiau twyllgar.

10 Pob drygioni chwi a gaſewch,
caru a wnewch yr Arglwydd,
Hwn ſydd yn cadw oes ei Sainct,
i'w dwyn o ddrygfraint afrwydd.
11 Mewn daiar yr egina'i hâd,
goleuad daw i'r cyfion,
Yn ol trifiwch fo dry y rhod,
i lân gydwybod vnion.

12 Yn yr Arglwydd, o'r achos hon,
chwi gyfion llawenychwch,
Drwy gofia ei ſanctaiddrwydd ef,
â llais hyd nef molienwch.

Cantate Domino. Pſal. 98.

Mawl pob creadur i ſôli Duw, am ei allu, a'i drugaredd, a ffyddlondeb ei gyſtunnod yngkriſt, drwy'r hwn y mae ein cadwediganth ni.

CEnwch i'r Arglwydd newydd gân,
ei waith in lân ryfeddod:
Ei law ddeau a'i fraieb a wnaeth,
i'n iechydwriaeth parod.
2 Yr Arglwydd hyſbys in' y gwnaeth
ei iechydwriaeth gyhoedd,
A'i gyfiownder ef yn dra hawdd
datgoddiawdd i'r cenhedloedd.

3 Fe gofiodd ei drugaredd hir,
a'i wir i dy Iſrael,
Fel y gwelodd terfynau'r byd
ei iechyd yn ddiymgel.
4 I'r Arglwydd â chaniad llafar,
chwi yr holl ddaear cerwch,
A llafar lais, ac eglur lef,
ſry hyd y nef y lleiſiwch.

5 Cerwch i'r Arglwydd Dduw fal hyn
â'r delyn, a chywirdant:
A chydâ'r delyn lais a thon,
rhowch iddo gyſon foliant.
6 Canu yn llafar ac yn rhwydd,
o flaen yr Arglwydd frenin:
Ar yr vdcyrn, a'r chwythgyrn pres,
fal dyna gyffes ddibrin.

7 A rhued y mor mawr i gyd,
a'r byd, ac oll ſydd ynthynt,
8 Y llifeiddyſroedd, a'r mynyddoedd,
y mae yn addas iddynt.
9 Curant, canant, o flaen Duw cu,
yr hwn ſy'n barnu'r bydoedd.
I'r byd y rhydd ei farn yn iawn,
ac yn vniawn i'r bobloedd.

Dominus regnauit. Pſal. 99.

Mawl teyrnas Glorifi, dros yr Iddewon a'r cenhedloedd: gan eu hannog i foli ac i waſanaethu Duw, ac i weddio arno.

YR Arglwydd Dduw yw ein brenin,
er maint yw trin y bobloedd:
Mae'n eiſtedd rhwng dau gerubyn,
ſe gryn' pob daiar leoedd.
2 Canys brenin mawr ydyw'r Ion
yn Seion o'i dderchafel:
Ac vwchlaw pobloedd yr holl fyd,
y ſydd o rydyd vchel.

3 Cydfolianant o'r nef i'r llawr,
dy enw mawr rhagorol:
Ofnadwy, ſanctaidd, yw i'w drin.
4 Tithau (o frenin nerthol)
A geri farn, darperi lawn:
yn gyfiawn heb drawſoſgo,
A barnedigaeth bur ddidoſt,
a wnaethoſt di yn Iago'.

5 Derchefwch yr Arglwydd ein Duw,
ſef ſanctaidd yw i'w fawredd:
Ymgrymmwch o flaen ei ſtol draed,
ſelly parhaed ei ſowledd.
6 Moſes, ac Aaron ſanctaidd blaid,
ymhlith offeiriaid gyrrodd?
Samuel galwai ei enw ef,
yntau o'r nef attebodd.

7 Mewn coloſn o niwl y bu wiw,
gan Dduw lefaru wrthynt,
Tra ſuant hwy yn cadw ei fodd,
a'r ddeddf a roddodd iddynt.
8 Gwrandewaiſt arnynt, dodaiſt ged,
a'i harbed, gan ymattal:
Duw ein Nâf, dy nawdd pared ſu,
a hwythau 'n haeddu dial.

9 Derchefwch ein Duw Ior am hyn,
yn Sion fryn cyſſegraidd,
Ymgrymmwch iddo yn eich byw,
ſef vnig Dduw ſydd ſanctaidd.

Iubilate Deo. Pſal. 100.

Mae yn cynghori pob dyn i waſanaethu yr Arglwydd, ac i fyned iw gynnulleidfa i'w foli.



'R Arglwydd cerwch lafar glod,



a gwnewch vfydd-dod llawen fryd,



a Dowch o flaen Duw a pheraidd don,



trigolion y ddaear i gyd.

3 Gwybyddwch mai'r Arglwydd ſydd Dduw,
a'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod,
Nid ni'n hunain, ei bobl ym ni,
a defaid rhai' ei borfa a'i nod.

4 O ewch i'w byrth a diolch bran,
yn ei gynteddau molwch ef,
Bendithiwch enw Duw hynod,
rhowch iddo glod drwy lafar lef.
5 Cans da yw'r Arglwydd, awdur hedd,
da ei drugaredd a dilyth,
A'i wirioned ini a roes,
o oes, i oes, a bery byth.

Miſericordiam. Pſal. ci.

Dafydd yn dangos trefn a rheol ei dy: ſef yn gyrru ymaith y rhai drwg, ac yn meurygu y da.

DAtcanaf drugaredd a barn,
i'w Arglwydd cadarn canaf.
2 Byddaf ddeallus mewn ffordd wych,
hyd oni ddelych attaf.
A rhodiaf yn fy nhy yn rhwydd,
a chrwy berffeith rwydd calon.
3 Pob peth drwg ſydd gennif yn gâs,
a childyn ddyrras ddynion.

4 Calon gyndyn ynof ni bydd,
drwg weithydd ni'm adnabyddaf.
5 Sclandrwr dirgel, a'r balch vchel
o'r achos ni oddefaf.
6 Ar ffyddloniaid mae 'ngolwg I,
ſe lyn y rhei'ni wrthy':
7 A'r hwn a redio mewn ffordd ddrwg,
hwn a wafnaetha ynnmy.

8 Ni chaiff aros o fewn fy nhy,
vn dyn ac fy dwyllodrus,
Yn fy ngolwg vn dyn ni bydd,
a lunio gelwydd treſnus.
9 Holl annuwiolion fy ngwlâd faith,
yn foreu ymaith torraf:
Fel na ddelont i ddinas Dduw,
y cyfryw a ddiwreiddiaf.

Dominę

Domine exaudi. Pſal. 102.

Gweddi y ſſyddloniaid yn amſer caethiwed Babel.

O Arglwydd, erglyw ſy ngweddi,
a doed ſy nghri hyd attad:
2 Na chudd dʳwyneb mewn ing tra ſwyf,
clyw, clyw, pan alwyf arnad.
3 Fy nyddiau aethant fel y mwg,
ſef cynddrwg im cyſtuddiwyd:
Fy eſgyrn poethant achos hyn,
fel tewyn ar yr aelwyd.

4 Fy nghalon trawyd â chryn iôn,
ac fel y gwellt glas gwywodd:
Fel yr anghofiais ſwyta'ʳ muyd
dirmygwyd fi yn ormodd.
5 Glynodd ſy eſgyrn wrth ſy nghroen,
gan faint ſy mhoen a'm cuchan.
6 Fel yn oʳ anialwch, lle y tyfo
y pelig, new'ʳ dylluan.

7 Neu fel yn o adar y to,
a fai yn gwilio ʳi hunyd.
Yn rhodio 'n unic ben y ty:
wyf anhy ac anhyſtyd.
8 Fy ngelynion â thaſod ſhydd,
hwy beunydd a'm difenwant:
A than yuſydu yn ei gwyn,
iʳm herbyn y tyngaſant.

9 Fel llwch a lludw yn ſy mhla,
faʳ bara a ſwyteais:
Yr yn wedd yn y ddiod ſan
ſy nagrau a gymyſgais.
10 A hyn fu oʳth ddigoſaint di,
am yeʳ ſy nghodi vnwaith:
Ac hecwydd bod dy ddig yn fawr,
iʳr llawr iʳm teflaiſt eilwaith.

11 Fy nyddiau troeſant ar y chod,
ac fel y cyſgod ciliant,
A minnau a wywais achos hyn,
ſel y glaſwellt yn methiant.
12 Ond tydi Dduw, ſy Arglwydd da,
a barhei yn dragwyddol,
O oes i oes dy ſnaw a aeth
mewn coſſ dwriaeth graſol.

13 O cyſod bellach trugarhâ,
o Dduw bydd dda wrth Sion:
Mae 'n ſadwʳ wrthi drugarhau,
ſel dymaʳ nodan 'n vnion:
14 Cans hoff iawn gan dy weiſion di,
ei meini aʳi magwyrau,
Maent yn toſturio wrth ei llwch,
aʳi thriſtwch, aʳi thrallodau.

15 Yno yr holl genhedloedd byw
yr Arglwydd Dduw a ofnant,
Aʳr holl frenhinoedd trwy y byd,
a ront yt gyd ogoniant.
16 Pan adeiledeir Sion wych,
a hon yn ddrych iʳr gwledydd;
Pan weler gwaith yr Arglwydd nef,
y molir eʳn dragywydd.

17 Edrychodd hwn ar weddiʳr gwael,
rhoes iddynt gael ei harchant:
18 Scrifenir hyn: aʳr oes yn ol
a gaiffei ganmol yntau.
19 Cans Duw edrychodd oʳr uchſyn,
ar ei gyſſegr dy, Sion;

20 Clybu ei griddfan, êr thyddhau
plant angau 'i garcharorion.

21 Fel y cydleifiont hwy ar gân,
yn Seion lân, ei ſoliant;
Acʸnghaer Salem yr vn wedd,
ei fowredd aʳi ogoniant.
22 Hyn ſydd pan gaſglo pawb ynghyd,
yn vnfryd iw ſoliannu:
Aʳr holl dyrnaſoedd dont yngwydd
yr Arglwydd, iw waſanaethu.

23 Duw ar y ffordd lleihâdi fy nerth,
byrrhâdd fy mthydferth ddyddiau.
A mi'n diſgwyl rhyddhâd ar gais,
24 yno y dywedais innau;
O Ddnw na thoſt fy oes yn frau,
ynghanol dyddiau hoedrant:
Dy flynyddoedd di ſydd erioed,
o oed ioed y byddan.

25 Di yn y dechrau ſodaiſt ſail,
oddʳ iſod adail dalar:
A chwmpas wybren vwch ein llaw,
yw gwaith dy ddwylaw hawddgar.
26 Darfyddant hwy pathei di byth,
creuliant fel llyth trwſciadau.
27 Troi hwynt fel gwiſg, llygrau a wnant
felly newidiant hwythau:

Tithau Arglwydd, yr vn wyt tî,
aʳth flwyddau ni ddarfyddant.
28 Holl blant dy weiſion gar dy fron,
aʳi hwyrion a beſſwyliant.

Benedic anima. Pſal. 103.

Y mae'n cynghori pob creadur i foli yr Arglwydd am ei amryſ drugareddau, aʳi ynwared iʳw ſſyddloniaid.

FY enaid mawl ſanct Duw yr Ion,
a chwbl oʳm eigion yſoc.
2 Fy enaid nʳid fawl ſʳ Arglwydd nef,
naʳi ddonian ef yn angof.
3 Yr hwn ſyʳn maddau dy holl ddrwg,
yr hwn aʳth ddwg oʳth leſgedd;
4 Yr hwn a weryd dʳoes yn lloc,
drwy goron oʳi drugaredd:

5 Hwn a ddiwalla dʳenau di
âʳi lawn ddaioni pybyr:
Drwy adnewyddu yt' dy nerth,
mor brydferth aʳr hen eryr.
6 Yr Ion cyfiawnder, barn a wnai
iʳr rhai ſydd orthrymedig.
7 Danges a wnaeth ei briſſyrdd hên
i Foeſen yn nodedig:

Ac i Iſrael ei holl ddawn.
8 Duw llawn yw o drugaredd:
Hwyr yw ei lid, parod ei râd,
ſal dyna gariad rhyfedd.
9 Nid ymryſon ef â ni byth,
nid beunydd chwyth digoſaint.
10 Nid yn ol ein drygau y gwnai
â ni: ni'n cosbai cymmaint.

11 Cyhyd ac ywʳr ſtarſafen fawr
oddiſ ar y llawr o vchder,
Cymaint êr rhai aʳi hofnant ef,
ſydd nawdd Duw nef bob amſer.
12 Os pell ywʳr dwyrain oſtu hin
oddiwrth orllewin ſachlud,

Cyn belled ein holl bechod llyn,
oddiwrthym ef a'i ſymmud.

33 Ac ſel y bydd nawdd, ſerch, a chwant
tâd da iw blant naturiol,
Felly cawn ſerch ein tâd o'r neſ,
os ofnwn ef yn ddiwiol.
34 Efe a'n hedwyn ni yn llwyr,
ſe wyr mai llwch yw 'n defnydd:
35 Oes dyn ſel gwellt-glas ſy'n teghau,
neu ddail, neu flodau maeſydd.

36 Yr hwn, cyn gynted ac y del
y gwynt a'i awel dreſodd,
A chwythir ymaith fellyn'i le,
na wyddis ple y tyſodd.
37 Ond graſlawn drugaredd a fydd,
yn lân dragywydd ſeddiant,
O oes i oes heb drangc, heb drai,
gan Dduw i'r rhai ai' hofnant.

38 A'i gyfownder i blant y plant
a gadwant ei gyfammod:
O chofiant ei orchymynion ef,
mae teyrnas nef yn barod.
39 Yno y mae ei orſeddfaeſ,
ſef yn y nef tragwyddol:
A llywio y mae ef bob perth,
drwy ei frenhiniaeth anfol.

40 Bendithiwch chwi yr Arglwydd lon,
angylion, a'i holl gedyrn.
Ei lân orchymynyn ei a wnewch,
a'i lais gwrandewch yn drechwyrn.
41 Bendithiwch chwi yr Arglwydd ner,
ei luoedd tyner tiriom.
Ei wyllys gwnewch, caelumuch win,
chwychwi ei gwyr weiſion.

42 Bendithiwch chwi yr Arglwydd neſ,
ei hollwaith ef ſy hylwydd:
Ymmhob man ollo'i dreſn a'i hawl,
O ſ'enaid mawl di'r Arglwydd.

Benedic anima. Pſal. 104.

Diolch am wneuthuriad, a llywodraethiad y byd, drwy ryfedd ragluniaeth Duw.

FY enaid mola'r Arglwydd byw,
o ſ'Arglwydd Dduw y mawredd,
Mawr wyt, gogoniant a gai di,
ymwiſgi ag anrhydedd.
2 Megis ei ddillad y gwiſg ſo
am dano y goleuad:
Rhydd yn ei gylch yr wybr ar dân,
yn llydan, ſel llen waſtad.

3 Ar ddeifr rhoes ſail ei ſtefyll cau,
gwnaeth y cymylau iddo
Yn drwm olwynog: mae ei hynt
vwch eſgyll gwynt yn rhodio.
4 Gwnaeth bob chwychad iddo'n gennad,
gogonedd v ſtarſaen:
A'i weiniogion o flam dân,
a wibian rhyd yr wybren.

5 Creſ y rhoes ſail y ddaiar grom
ſel na ſyſ hon oddiyno:
rhyfelai rhei'ni 'n 'rhyfiliwch.

Leuani oculos. Pſal. 121.

Dangos y dylai y ffyddloniaid ddiſgwyl am gymmorth gan Ddnw yn unic, y modd y mae y Prophwyd yn y pſalm hon.

DIſgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
lle y daw i'm help wyllyſgar.
2 Yr Arglwydd rhydd i'm gymmorth gref,
hwn a wnaeth nef a daiar.
3 Dy droed i lithro ef nis gâd,
a'th geidwad ſydd heb huno:
4 Wele, ceidwad Iſrael lân,
heb hun na heppian arno.

5 Ar dy law ddeau mae dy Dduw,
yr Arglwydd yw dy geidwad,
6 Dy lygru ni chaiff haul y dydd,
ar nos nid rhydd i'r lleuad.
7 Yr Ion a'th geidw rhag pob drwg,
a rhag pob cilwg anfad:
8 Cai fynd a dyfod byth yn rhwydd,
yr Arglwydd ſydd dy geidwad.

Lætatus ſum. Pſal. 122.

Dafydd yn ymlawenhau ddarfod i Ddnw gyflawni yr addewid, a gofod yr Arch yn Sion, gan weddio am gymmyrch yr eglwys.

I Dy'r Arglwydd (pan ddwedent) awn,
i'm llawen iawn oedd wrando.
2 Sai'n traed o fewn Caer-Salem byrth,
yr vn ni fyrth oddiyno.
3 Caerſalem lân ein dinas ni,
ei ſail ſydd ynddi'n hunan:
A'i phobl ſydd ynddi yn gytun,
a Duw ei hun a'i drigfan.

4 Cáns yno y daw y llwythau'nghyd,
yn vnfryd, llwythau'r Arglwydd:
Tyſtiolaeth Iſrael a'i drig-fod,
a chlod iw fawr ſanctteiddrwydd.

5 Cans

5 Cans vno cadair y farn ſydd:
eiſteddfod Dafydd yno.
6 Erchwch i'r ddinas hedd a mawl:
a llwydd i'r ſawl a'th garo.

7 O ſewn dygaeran heddwch boed,
i'th lyſoedd doed yr hawddfyd.
8 Er mwyn ty mrodyr mae'r arch hon,
a'm cymydogion hefyd.
9 Ac er mwyn ty'r Arglwydd ein Duw,
hwn ynot yw'n rhagorol:
O achos hyn yr archaf fi,
i ti ddaioni rhadol.

Ad te leuaui. Pſal. 123.

Gweddi y ffyddloniaid, y rhai y mae yr annwiol, a diyſtyrwyr Duw, yn eu blino.

TVedda'r ngolwg at y ne'
(ſy Nuw) dy le trigiannol.
2 Fel y try gweiſion eu llygaid
at ddwylo i meiſtraid bydol.
Llygaid llaw-forwyn ar bob tro,
a ddylyn ddwylo'i meiſtres,
Diſgwyliwn arnat (Ddiw) 'r vn wedd,
am dy drugaredd gymmes.

3 Dy nawdd Arglwydd, dy nawdd ya rhodd,
dygaſom ormodd dirmig.
4 Gan watwar y tynn a'r balch iawn,
yr ym ya llawn boenedig.

Niſi quia Dominus. Pſal. 124.

Y ffyddloniaid wedi eu gwaredu o'i peryglon, yn cyſtaddef mai o'i nerth eu hun, eithr drwy drugaredd Duw y diangaſant.

DYma'r amſer vn ddi ymgel,
gall Iſrael, ſynegi,
Yr Arglwydd nef oni bai ei fod,
a'i arfod gyda nyni.
2 Gydâ ni oni bai ei fod,
pan ddaeth gwrth-draſod dynion:
3 Pan gododd llid i'n, a phoeni,
llyngcaſent ni yn ſywion.

4 Y dyfroedd a'n boddaſent ni,
a'n hoes dan geſa lli buan:
5 Chwyddaſent droſom, fel chwydd dwyr;
ſal dyna gyflwr trnan.
6 Bendigaid Ior ei law a droes:
ac ef ni roes mo honom
Yn yſglyfaeth i'n rhwyge'n frau,
iw gwâg efeiliau llymion.

7 Ein henaid aeth yn rhydd o lyn,
fal yr aderyn gwirion,
Rhwyd yr adarwr torri a wnaeth,
a ninnau aeth yn rhyddion.
8 Ein holl gynnorthwy ni, a'n llwydd,
ſy'n nerth yt Arglwydd howddgar,
Yr hwn drwy waith ei ddwylaw ef,
a greawdd nef a daiar.

Qui confidunt. Pſal, 125.

Mae ſe yn dangos ſicrr obaith y ffyddloniaid yn eu blinderau, gan ddywedyd iddynt ymddiried: ac i'r rhai anwir ddiſtryw.

SAwl a'mddiriedant yn Nuw Ion,
byddant ſel Seion ſynydd;
Yr hwn ni ſyfl: a'i ſylwedd fry
a bery yn dragywydd.
2 Fel y ſaif ſan Caerſalem fry,
a'i chylchu mae mynyddoedd:
Felly yr Arglwydd yn gaer ſydd,
dragywydd cylch ei boblogedd.

3 Er na orphywys rhwyſg cledd hir
yr enwir ar gyfiowniaid,
Rhag i'r rhai cyfiawn yſtyn llaw
i dreimlaw campau diriaid.
4 O Arglwydd Dduw yn bryſur gwna
i bob dyn da ddaioni;
Sef vnion attad ti yn glan
y bydd calonnau'r rhei'ni.

5 Onid y dryg-ddyn Duw a'i gyrr
gydâ gweithwyr anwiredd;
Mewn drwg ymdroes, felly ymdroed,
ar Iſrael boed tangnhefedd.

In convertendo. Pſal. 126.

Y Pſalm hon ſydd yn dangos ryfeddod ſu gwaredaid y bobl allan o gaethiwed Babylon, ac mai yr Arglwydd a'i gwnaeth.

PAn ddychwelodd ein gwir Dduw Ion
gaethiwed Seion ſanctaidd;
Mor hyfryd gennym hyn bob vn,
a rhai m wn hun neſolaidd.
2 Nyni ſ'n genau yn dda'n gwedd,
gorfoledd ar ein taſod:
3 Ymhlith cenhedloedd dwedynt hyn,
fe wnaeth Duw droſtyn yſted.

4 Yſtod fawr a wnaeth Duw yn wir,
ein dwyn i'n tir cynnefin
O gaethiwed y gelyn llym,
am hyn yr ym yn chwerthin.
5 O cynnull ein gweddillion ni,
tro adre' rhei'ni eilwaith,
Gan dy liſ-ddyfroedd ſel y gwlych
y dehau ſych a diffaith.

6 Y rhai ſy'n hau mewn dagrau blin,
bwyntwy dan chwerthin medant:
Felly i' Arglwydd dan droi y byd,
dwg ni i gyd i'r meddiant.
7 Y rhai dan wylo aeth o'r wlâd,
ſel taſu hâd rhyd gryniau;
Drwy lawenydd y dont ynghyd,
ſel caſglu yd yn dyrnau.

Niſi Dominus. Pſal. 127.

Nad ſynwyr dyn na'i boen, ond trugaredd Duw, ſy yn cadw, ac yn dwyn i ben bob peth.

YTy ni adeiladо'r Ner,
a'n ofer gwaith y ſaeti;
A'r ddinas hon nis ceidw eſo,
ni thycciа gwilio ynthi.
2 Os boran godi, os hun hwyr,
a byw drwy lwyr ofidio,
Ofer i gyd: Duw a rydd hun
i bob rhyw vn a'i caro.

3 Wele, y plant a roir i ddyn,
hiliogaeth yn i'r Arglwydd:
Ac o'i rodd ef daw ffrwyth y bru,
iw magu mewn ſanctteiddrwydd.

4 Fel gwr cryf, ple bynnag y daw,
ac yn ei law ei ſaethau:
Plant yr ieuenctyd felly y maen
yn barch o flaen y tadau.

5 Sawl honynt ſydd a'i gwiſg yn llawn,
mae'n ddedwydd iawn ei ſoddion;
Hwy nis gwradwyddir pan ddel man
i'mddiddan â'r gelynion.

Beati omnes. Pſal. 128.

Dangos ddaion; y rhai priodol a ofno 'r Arglwydd, ac adawrid o fendithion Duw i'r rhai a ſo byw yn ol ei orchymynion ef yn y lân ſtad honno.

A Ofno'r Arglwydd gwyn ei fyd,
a rhodiaw rhyd ei lwybrau,
2 Bwyttei o ynnill gwaith dy law,
a blith y daw i tthau.
3 Dy wraig ar du dy dy is nen,
fel per winwydden ffrwythlon,
Dy blant ynglylch dy fwrdd a ſydd
fel olewydd blanhigion:

4 Wele, fal dyma'r modd yn wir
bendithir y gwr eſion,
A ofno'r Arglwydd Duw yn ddwys,
rhydd arno bwys ei golon.
5 Cei gyflawn fendith gan Dduw lon,
bydd dithau Seion ddedwydd,
Fel y gwelych â golau drem,
Gaerſalem mewn llawenydd

Holl dyddiau d'einioes. 6 Plant dy blant,
cei weled llwyddiant iddynt,
Ac ar holl Seulu Iſrael,
daw hedd diogel arnynt.

Sæpe expugnaverunt. Pſal. 129.

Cynghori y mae i'r eglwys ymlawenhau, er bod trilliwyr yn mhob oes. Duw a'i gwaryd hi, ac a ſaſbr ei chaſeion.

LLawer gwaith cefais gyſtudd mawr,
Iſrael yn awr dyweded,
O'm hieuenctyd hyd yr awr hon,
ſe wyr ſy mron eu trymed.
2 A llawer gwaith y cefais lid,
o'm gwan ieuengtid allan,
Ablin gyſtudd ar lawer tro,
ac etto ni'm gorſuan'.

3 Yr arddwyr arddent y ceſn mau,
drwy rwygo cwyſau hirion:
4 Y cyfion Ner torrodd yn frau,
bleidr-ddidau'r annuwiolion.
5 Pa rai bynnag a roeſant gâs
ar degwch dinas Seion,
Gwradwydder hwynt, cilient iw hol,
y rhai annuwiol creulon.

6 Byddant fel y glâs wellt a fai
ar bennau tai yn tyfu,
Yr hwn ſydd cyn y tynner ſe,
yn gwywo, ac yn methu.
7 Ni lenw'r medelwr ei law,
ni chair o honaw ronyn:
I'r caſclwr nis tal ddim mo'i droi,
na'i drin, na'i roi mewn rhwymyn:

8 Fel na bai byth gwiw gan y rhai
ar a dramwyai heibio,
Ddwedyd vnwaith, Duw a ro llwydd,
ncu'r, Arglwydd a'ch bendithio.

De profundis. Pſal. 130.

Gweddi am drugaredd a maddeuant o'n pechodeu, ac o'r diwedd am gael tin gwaredu o bob dwng.

O'R dyfnder gelwais arnat Ion,
2 O Arglwydd tirion goſtwng
Dy gluſt, yſtyria y llais man,
clyw ly ngweddian teilwng.
3 Duw, pwy a ſaif yn d'wyneb di,
os creſn ar anwireda?
4 Ond fel i'th ofner di yn iawn,
yr wyd yn llawn trugaredd.

5 Diſgwyliais f' Arglwydd, wrth fy rhaid;
diſgwyliodd f' enaid arno.
Rhois fy holl obaith yn ei air,
5 f' enaid a gair yn effro.
Ac am yr Arglwydd gwilio'y bydd,
fwy nâ gwiliedydd diſri,
A edrych blygain bob pen awr,
a welo'r wawr yn codi.

7 Vn wedd diſgwylied Iſrael,
yn ddirgel am yr Arglwydd,
Cans mae nawdd gydâ'r Arglwydd nef,
mae yntho ef rywiowgrwydd.
Ei drugareddau ânt ar lled,
fe rydd ymwared ini.
8 Fe weryd-Iſrael: fal hyn,
fo'i tyn o'i holl ddrygioni.

Domine non eſt. Pſal. 131.

Dafydd yn ymwrthod â balchder gar bron Duw.

YN fy nghalon ni bu falch chwydd,
o Arglwydd, na dim tynder;
Ni chodais chwaith drahaus wg
i'm golwg o dra vchder.
2 Ac ni rodiais yma a thraw,
i dreiglaw pethau mowrion;
Ni fauwl chwiliais am wybod
rhyfeddod a dirgelion.

3 Goſtyngais f' enaid i mewn pryd,
fel pan ddiddyfnyd herlod:
Fy enaid ſydd fel yn a fu
gwedi ei ddiddyſnu'n barod:
4 Ond diſgwilied ty Iſrael
wrth wit Imannel beunydd,
Sef wrth yr Arglwydd o'r pryd hyn,
heb derfyn yn dragywydd.

Memento Domine. Pſal. 132.

Y ſyddlon yn ymddvried i addewidion Duw. Dafyad yn dymuno ar Ddaw ſicrhau yr vurhym.

OCofia Ddafydd, fy Nuw Ner,
a'i holl wrth flinder hefyd;
2 Pa lw addoned a roes ſo
i Dduw Iaco, gan ddwedyd,
3 Nid âf o fewn pabell fy nhŷ,
a'm gwely mwy nis dringaf;
4 Ni roddaf i'm dau lygad hun,
amrantun chwaith ni chyſgaf:

5 Nes caffwyf gyfle yn ddi rus,
i Arglwydd grymus Iaco.

6 Wele

6 Wele'r Ephraim clywſom fod
lle o bretwylfod iddo.
Cawſom hi ym meſydd y coed.
7 pawb doed iw bebyll tirion,
Awn, ymgrymwn, pawb vfyddhaed,
wrth ei ſaingc draed yn vnion.

8 F'arglwydd, cyfod i'th eſmwyth lys,
a'th arch o rymmus fowredd.
9 Gwiſged d'offeiriaid gyfion fraint,
gwiſged dy Sainct wirioneddd.
10 Er mwyn Dafydd dy ſyddlon wâs,
na thyn dy ras yn llidiog:
Ac na wrthnaba di er neb,
mo wyneb dy enneiniog.

11 I Ddafydd rhoes yr Ion lw gwir,
a chedwir hwn heb wyredd;
O ffrwyth dy gorph rhof ar dy ſaingc,
yr iraidd gaingc i eiſtedd.
12 Fy nedſi na'm cyſammod i,
dy feibion di oscadwant;
O blann i blanno gaingc i gaingc
hwy ar dy ſaingc a fatnant.

13 Cans ſy Arglwydd, o ſerch a bodd,
a rag-ddewiſodd Seion:
I drigo ynthi rhoes ei fryd,
gan ddwedyd geiriau tirion:
14 Hon fyth fydd fy ngorphwyſfa I,
o hoffder ynthi trigaf.
15 Bendithiaf hi â bwyd di ball,
a'i thlawd diwall o fara.

16 Ag iechydwriaeth, medd Duw naf,
y gwiſgaf ei heglwyſwyr,
A rhoddaf ynghenau pob Sainct
o'i mewn, ogoniant pſalmwyr.
17 Paraf hyn oll, ac ſelly y bydd,
corn Dafydd yn goronog:
Felly darperais, gan ſy mhwyll,
briſ ganwyll i'm eneiniog.

18 Am ei elynion, o bob parth,
y gwiſcaf warth a gwradwydd,
Paraf hefyd iw goron lo
flodeuo: mewn yr Arglwydd.

Ecce quam. Pſal. 133.

Clod cariad brawdol, a'i gyffelybu i'r olew yn y 30. pen. o Exodus.

WEle, ſod brodyr yn byw 'nghyd,
mor dda, mor hyfryd yw oedd
2 Tebyg i olew o ſawr werth,
mor brydferth ar y gwiſgoedd:
Fel pe diſcynai draw o'r nen,
rhyd barf a phen offeiriad,
Sef barf Aron a'i wiſg i gyd,
yn hyfryd ei arogliad.

3 Fel pe diſcynai gwlith Hermon
yn do dros Seion ſynydd,
Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwlith
ei ſendith, yn dragywydd.

Ecce nunc. Pſal. 134.

Cynghor i offeiriaid y Demi i gloſfori yr Arglwydd.

WEle, holl weiſion Arglwydd nef,
bendithiwch ef, lle yr ydych
Yn ſefyll yn nhy Ddnw y nos,
a'i gyntedd diddos trefn-wych.
2 Derchefwch chwi eich dwylo glân
yn ei gyſſegr-lân annedd:
A bendithiwch â chalon rwydd,
yr Arglwydd yn gyfanredd.

3 Yr Arglwydd, a'i ddcheulaw gref,
hwn a wnaeth nef a daiar,
A rotho ei ſendith a'i ras
i Seion ddinas howddgar.

Laudate nomen. Pſal. 135.

Cynghor i'r ffyddloniaid i foli'r Arglwydd am ei ddaioni yn gwaredu dyn addolwyr eulynnod.

OMolwch enw'r Arglwydd nef,
ei weiſion ei molienwch,
2 Y rhai a ſaif iw dy a'i byrth,
i'n Duw a'i fawrwyrth cenwch.
3 Molwch yr Arglwydd, cans da yw,
clod i'r Ior byw a berthyn:
Cenwch ei glod dros yr holl fyd,
a hyfryd yw y deſtyn.

4 Oblegid yr Arglwydd, a'i nawdd,
ef a etholawdd Iaco,
Ac Iſrael, iw myſg y trig,
yn deulu vnic iddo.
5 Cans mawr yw'r Arglwydd yn ei lys,
mi a wn yn hysbys hynny:
Ym mhell vwchlaw'r holl ddiwiau mân,
mae'r Arglwydd glân a'i alln.

6 Hrn oll a fynnodd a wnaeth ef,
yn vchder nef eithafon:
Ar ddaiar, ac yn y mor cau,
a holl ddyfnderau'r digion.
7 O eithaf daiar cyfyd tarth,
daw'r mellt o bob parth hwythau,
Ac oer dymeſtloedd, glaw, a gwynt,
a godyat o'i dryſorau.

8 Yn nhir yr Aipht dynion, a da,
â llawer pla y trawodd,
Cyntaf-anedig o bobyn,
â'i law ei hun a laddodd.
9 Pth gnnol di, o Aipht grenlon,
rhoes Duw arwyddion rhyfedd,
Ar Pharo a'i holl weiſion i gyd:
cng drwy'r holl fyd orfoledd.

10 O nerth ei fraich efe a wnaeth,
lawer cenhedlaeth feirwon:
A lladdodd lawer yn vn nedd
o ben brenhinedd cryfion.
11 Sef o'r Amoriaid Sehon fawr,
ac Og, y cawr o Baſan:
A'r vn ddinyſtriad arnynt aeth,
a holl frenhiniaeth Canan,

12 A'i holl diroedd hwyntwy i gyd,
gyd â'i holl frwyd bydol,
I Iſrael i roi a wnaeth
yn etifeddiaeth nerthol.
13 Dy Enw (o Arglwydd) a'th nerth cry',
a bery yn dragywydd,
Ac o genedl i genedl aeth
dy goffadwriaeth, lywydd,

14 Cans ar ei bobl y rhydd ef farn,
yr Arglwydd cadarn cyſion,

Ac yn ei holl lyworaeth bur,
bydd doſtur wrth ei weiſion.
15 Y delwau oll, gwaith dwylaw yn,
a dyſais dyn anſyddlon:
O aur acarian dyna'i gwnaeth,
o hil canheddaeth weigion,

16 O waith dyn, genau rhwth y ſydd,
heb ddim llyterydd iddyn:
Ac mae llun llygaid mawr ar lled,
a'r rhai'n heb weled gronyn.
17 Dwy gluſt dynion ſydd i bob un,
heb glywed mymryn etto,
Eu ſaſn yn ehang, ac ni chaid
na chwyth, nag enaid yntho.

18 Yn ſodd a'r delwau ſydd y rhai
a'i gwnelai hwynt â'i dwylo.
Ac nid yw well nâ'r rhai'n yr un,
ynthyn a ymddirietto.
19 Ty Iſrael na choeliwch chwi:
ty Aron: Leſi vſydd,
20 I'r rhai'n ddim, ond i'r Arglwydd nef,
bendithiwch e'n dragywydd.

21 Bendithier ſyth mawr Enw 'r Ion,
o Seion hen a barchem,
Bendithier moler ei enw ſo,
ſy'n trigo ynghaer Selem.

Confitemini. Pſal. 136.

Mawr ddioleb i Dduw am wnuthur a llywodraethu pob peth.

MOlwch yr Arglwydd, cans da yw,
molienwch Dduw y llywydd,
Cans ei drugaredd oddi fry,
a bery yn dragywydd.
2 Molwch chwi Dduw y duwiau'n rhwydd,
3 ac Arglwydd yr arglwyddi,
4 Hwn vnic a wnaeth wrthiau mawr,
drwy ei ddirfawr ddaioni:

5 Gwnaeth â'i ddoethineb nef wchben,
6 a'r ddaiaren a'r dyfredd,
Y rhai yw prif ſylwedd y byd,
ac i gyd o'i drugaredd.

Molwch yr Arglwydd (cans da yw)
molienwch Dduw y llywydd,
Cans ei drugaredd oddi fry,
a bery yn dragywydd.

7 R' hwn a wnaeth elenadau mawr,
o'r nef hyd lawr a'i fowredd.
8 Haul y dydd, 9 â'r lleuad y nos,
i ddangos ei drugaredd.
10 'Rhwn a drawodd yr Aipht iw ddig,
a'r blaen-anedig ynthi,
11 Ac a ddug Iſrael i'r daith,
ac ymmaith o'i holl gyni.

12 A hyn drwy law gref abraich hir,
o rym ei wir ogonedd:
13 A hollti'r mor coch yn ddwy ran,
o anian ei drugaredd.
14 Dug Iſrael i'r lan yn wych,
fel dyna ddrych gorfoledd:
15 Yſcyttiau Pharo, a'i holl lu,
a hyn a ſu'i drugaredd.

Molwch yr Arglwydd (cans da yw)
molienwch &c.

16 A dwyn ei bobloedd yn ddichwyn,
drwy wledydd dyrys aman:
17 Taro brenhinoedd er eu mwyn,
ac felly eu dwyn hwy allan.
18 Lladd llawer brenin cadarn llon,
19 ſef Sehon yr Amoriaid:
20 Ac Og o Baſan yn vn wedd,
o'i fawr drugaredd dibaid,

21 A'i holl diroedd hwyntwy i gyd,
eu rhoi yn lywyd bydol
22 I Iſrael ei wâs a wnaeth,
yn etifeddiaeth nerthol.

Molwch yr Arglwydd (cans da yw)
molienwch. &c.

23 Hwn i'n cyſtndd a'n coſiodd ni,
o'i fawr ddaioni tirion.
24 Ac a'n hachubodd yn ddi ſwrth
oddiwrth ein holl elynion.
25 Yr hwn a ymbyrth bob rhyw gnawd,
yn ddidlawd o'i drugaredd.
26 Clodforwch Dduw brenin y nef,
rhowch iddo efogonedd.

27 Molwch Arglwydd yr arglwyddi,
vwchben pob rhi o fowredd,
Duw'r duwiau, Ior vwchben pob Ion,
a ſynnon y drugaredd.

28 *Molwch yr Arglwydd (cans da yw)*
molienwch Dduw y llywydd, &c.

Super flumina. Pſal 137.

Yr Iſraeliaid yn eu caethiwed (wrth glywed y Caldeaiaid yn cablu Duw) ſydd yn dymuno ar Dduw goſbi yr Edomiaid, y rhai a baraſant i wyr Babel greuloni wrthynt a phrophwydoſo-eth am ddiwſtr Babel.

PAn oeddym gaeth yn Babilon,
ar lan prif aſon groyw,
Mewn coffadwriaeth am Seion,
hidlaſon ddagrau'n loyw.
2 Rhoddaſom ein telynau 'nghrog,
ar goed canghennog irion,
Lle yr oedd preniau helyg plan,
o ddeutu glann yr aſon.

3 Y rhai a'n dug i garchar caeth,
ini yn ffraeth gofynnen,
A ni'n bruddion, gerdd i Seion,
ſywaith peth nis gallen.
4 O Dduw pa ſodd y canai neb,
(rhoem atteb yn yſtyriol)
I chwi o gerdd ein Harglwydd Dâd,
a ni mewn gwlad eſtronol?

5 Os â Caerſalem or cof mau,
anghofied dehau gany:
6 Na throed ſy nhafod, oni bydd,
hi'n ben llawenydd ymy.
7 Cofia di Dduw, blant Edom lemm,
yn nydd Caerſalem howddgar:
Noethwch dynoethwch (meddei chai'n)
ei mur a'i main i'r ddaiar.

8 Bydd gwyn eu byd i'r ſawl a wnel
iti, merch Babel rydoſt,
Yr vnrhyw feſur, gan dy blau,
i ninnau fel y gwnaethoſt.

9 Y ſawl

9 Y ſawl a'gymro dy blant di,
bo'r rhei'ni ſendigedig,
Ac a darawo'r eppil tau,
a'i pennau wrth y cerrig.

Confitemur tibi. Pſal. 138.

Dafydd yn canmol daioni Duw tuag atto ef, ac yn gweled drwy et ſtyddy cai ef gymaint daioni gan Ddduw rhag llaw, ac o'r llaeu.

RHof fawrglod it i, fy Nuw Ion,
o ddyſnder calon canaf:
Yngwydd holl Angylion y neſ,
a'm heſſef i'th ſoliannaf.
2 Yngrymmaf tua'th ſanctaidd dy,
dan ganu o'th drugaredd,
A'th enw mawr vwchlaw pob peth,
a'th air difeth wirionedd.

3 Y dydd y gelwais arnat ti,
gwrandewaiſt fi yn ſuan:
Yno y nerthaiſt â chref blaid,
fy enaid i oedd egwan.
4 Doed brenhinoedd y ddaiar hon,
a rhoen yt vnion ſoliant:
Addolent oll ein gwir-dduw ni,
cans d'eiriau di a glywſant.

5 Yn ſtyrdd yr Arglwydd yr vn wedd,
ac am ei fowredd canant:
Gan ddangos drwy'r holl fyd ei fraint,
a maint yw ei ogoniant.
6 Vchel yw'r Ion, etto ſe wel
yr vſydd iſel ddynion:
A gwel o hirbell, er eu plan,
y beilch a'r gwarrau ſythion.

7 Pe bai yn gyſyng arna'r byd,
ti a'm bywheyd eilwaith:
Gan yſtyn llaw i ddwyn dy wâs
oddiwrth rai atcas ymaith.
8 Yr Arglwydd a gyflowna â mi,
Duw dy ddaioni rhag llaw,
Ac yn dragywydd imi dod:
na wrthod waith dy ddwylaw.

Domine probaſti. Pſal. 139.

Dafydd er mwyn ei lanhau ei hun, yn dangos nad oes dim yn guddiedig rhag Duw: a thrwy ddangos ei ſerch tuag at Ddduw, y mae eſe yn ymroi i fod yn elyn'r rhai a wrthwynebant Duw.

ARglwydd, manwl y chwiliaiſt fi,
da i'm adwaeni heſyd:
2 Eiſteddiad, codiad, gwyddoſt hyn,
a'm meddwl cyn ei ddwedyd.
3 Yr wyd ynghylch fy lloches i,
a'm ſtyrdd ſydd itti'n hyſbys:
4 Nid oes air nas gwyddoſt ei ſod
ar flaen fy nhafod ofnys.

5 O'm hol ac o'm blaen i'm lluniaiſt
dy law a ddodaiſt arnaf:
6 Gwybodaeth ddieithr yw i mi,
a'i deall hi nis medraf.
7 I ba le r'af fi i roi tro,
i'mguddio rhag dy Yſpryd?
I ba le ffoaf rhag dy wydd,
drwy gael ffordd rwydd i lathlyd?

8 Os dringaf tua'r neſoedd fry,
wyd yno i'th dy perſſaith:
Os tua'r dyſndwr, goſtwng tro
yr wyd ti yno eilwaith.
9 Pe cawn adenydd boreu wawr,
a mynd i for mawr anial,
10 Yno byddai dy ddehau di,
i'm tywys i a'm cynnal.

11 A phe meddyliwn, yr âll tro,
ymguddio mewn tywyllwg,
Canol y nos ſel hanner dydd,
mor olau fydd yn d'olwg.
12 Nid dim tywyllach nos i ti
nag yw goleuni haſ-ddydd:
A'r ddau i ti maent yr vn ddull,
y tywyll a'r goleu-ddydd.

13 Da y gwyddoſt y dirgelwchmau,
Parennau a ſeddiennaiſt,
Ynghroth fy mam pan oeddwn i,
yno dydi a'm cuddiaiſt.
14 Cans rhyfedd iawn y gwnaethbwyd fi,
a'th waith di ſy ryfedded,
A'm henaid a wyr hynny'n dda:
a hon a wna yt ſowrglod:

15 Ni chuddiwyd fy ngrym rhagot ti,
pan wnaethoſt fi yn ddirgel,
Fel llunio dyn o'r ddaiar hon,
o fewn pridd eſgion iſel.
16 Dy lygaid gwelſant fy nhafn wael,
cyn imi gael perffeith-lun:
A oedd pob peth yn dy lyſr yn llawn,
cyn bod yn iawn vn gronnn.

17 Mor anwyl dy feddyliau ym,
mor fawr yw ſum y rhei'ni?
18 Wrth ſwrw, amlach gwa eu bod
na'r tywod o riſedi.
Myſyrio pan ddeffrowyf fi,
'r wyf gyd'â thi yn gwblol.
19 O Dduw, ba achos yn dy lid,
na leddid yr annuwiol?

O Dduw pe coſpid rhai o'r rhai'n
y ſydd yn arwain traha,
Wrth y gwaedlyd fo gaid dwedyd;
dydi doeſ oddiymma.
20 Y rhai am danad ſ'Arglwydd cu,
fy'n treuthu pethau ſeeler,
A'th elynion dibris eu llw,
cymraſant d'enw'n oſer.

21 Ond câs yw gennif, o Dduw Ion,
dy holl gaſeion gwaedlyd?
Ond ſtiaidd gennif fi bob dyn,
a ai yn d'erbyn heſyd?
22 A llawn gâs y caſcais hwynt,
ynt ſel ar bwynt galynion.
23 O chwilia fi o Dduw yn hy,
cei hynny yn ſy nghalon.

Duw prawf fy meddwl i'n fy mol,
24 Oes ffordd annuwiol genny;
Gwel fi, tywys, dwg fi yn ſ'ol,
dod ffordd dragwyddol ymy.

Eripe Domine. Pſal. 140.

Dafydd yn achwyn wrth Dduw rhag dichellion ei elynion: a chan ei ſicrhau ei hun o gymorth Duw, mae eſe yn annog y cyſion i ſoli Duw ei holpwr.

Rhag

RHag y gwr drwg gwared ſi (Ner,)
rhag gwr y trowſder eſrydd,
2 Rhai ſy'n bradychu yn ddirgel,
a chaſglu rhyfel beunydd.
3 Fel colyn ſarph yn llithrig wau,
yw en tafodau llymion:
Gwenwyn yr Aſp ſydd yn parhau
dan eu gwefuſau crenlon.

4 Rhag y dyn drwg, rhag y gwr traws,
ſy'n myſyr lliaws ſaglau,
Duw gwared ſi, rhag goſod brâd,
yngwylch fy ngwaſtad lwybrau.
5 Y beilch cuddiaſant fagl a rhwyd,
wrth bon goſodwyd tanau;
Ar draws fy ffyrdd i ddal fy'nrhoed,
ynghudd, y rhoed llioynnau.

6 Dwedais wrth ſ'Arglwydd fy Nuw wyd,
tyn ſi o'i rhwyd a'i maglau:
O gwrando'n ſuan ſ'Arglwydd nef,
ar brudd lef ſy ngweddiau.
7 Fy Arglwydd yw ly nerth i gyd,
a'm coel a'm iechyd calon;
Ti a roiſt gudd tros fy mhen mau,
yn nydd yr arfau gloywon.

8 I'r dyn annuwiol, Duw, na âd
ddymuniad drwg ei'wllys;
Rhag ei wneuthur eſo yn gry,
a'i fynd yn rhy drahâus.
9 A'i holl ddymuniad drwg i mi,
a'i rhegen weddi grenlon,
Y rhai'n yn llwyr a ddoñt ymmhen
y capten o'm caſeion.

10 Syrthied arnynt y marwor tân,
ac felly lloſgan ymaith,
Bwrier hwynt mewn cau ffoſydd nant,
ſel na chyfodant eilwaith.
11 Dyn llawn ſiarad ſydd anwaſtad,
ni eiſtedd eſ yn gryno:
A drwg a ymlid y gwr traws,
o hyn mae'n haws ei gwympo.

12 Da y gwn y rhydd yr Arglwydd dâl
i ddial cam y truan;
Ac yr iawn farna y dyn tlawd
ſy'n byw ar gerdawd ſechan.
13 Y rhai cyfiawn drwy yr holl fyd,
dy enw a gyd-foliannant,
A'r holl rai vnion, heb oſn neb,
o flaen dy wyneb trigant.

Domine clamaui. Pſal. 141.

Dafydd pan oedd Saul yn ei erlid, yn dymuno help gan Dduw: a dioddefgarwch, nes paſſio'r erlid hwnnw.

OBryſsia Arglwydd, clyw fy llais,
o bryſur gelwais arnad;
O'r man lle'y bwyf gwrando fy llef,
a doed i'r nef hyd attad.
2 Fy ngweddi gar dy fron a ddaw,
gan godi dwylaw'n vchel,
Yn arogl darth ac aberth hwyr,
ſel vnion ddiwyr leſel.

3 O Arglwydd goſod, rhag gair ffrâeth,
gadwriaeth ar fy ngenau,
Rhag i'm gam-ddwedyd, goſod ddor
ar gyfor fy ngwefuſau,

4 Na phwyſa'nghalon ât ddrwg beth,
yngbyd-bleth â'r annuwiol:
Nag mewn cydfwriad gwaith neu wedd,
rhag twyllu eu gwledd ddaintethol.

5 Boed coſp a cherydd y cyfiawn,
ſel olew gwerthlawn arnaf;
Ni fi iw fy mhen, bo mwyaf ſo,
mwy trofio a weddiaf.
6 Eu barnwyr pebwrid i'r llawr,
ar greigiau dirfawr dyrva:
Gwrandawent ar fymadrodd i,
a chlywent hi yn felys.

Fel darnau cynnyd o goed mîn,
a fwriant rhyd y ddaiar:
Mae'n heſgyrn ninnau yr vn wedd,
yn mron y bedd ar waſgar.
8 Mae 'ngolwg a'm holl obaith i,
Duw, arnat ti dy hunan:
Duw byad di'n vnic yn fy mhlaid,
na fwrw fenaid allan.

9 Cadw fi Arglwydd rhag y rhwyd,
hon a oſodwyd ymy,
Teml yr annuwiol, hoenyn main,
rhag ofna'r rhai'n fy magly.
10 Yr anwireddwyr b'ado vn
cwympant en hun iw rhwydau,
Ymddiried ynot ti a wnaf,
ac felly diangaf innau.

Voce mea. Pſal. 142.

Dafydd, er nag oſn na dig, yn erbed Saul, at yn gweddio ar Dduw ei geidwad.

RHois weddi ar yr Arglwydd nef,
yn llym fy llef ymbiliais;
2 A'm holl fyfyrdod gair ei fron,
o'm calon y tywelltais.
3 Ond pan fynegais it fy nghur,
a'm dolur o'm meddyliau,
Da gwyddit ti bob ffordd a'r man,
y rhoeſan i mi faglau.

4 O'r tu deau nid oedd yn' neb,
trown ſwyneb, a'm hadwaenai,
Na nawdd, na neb, o du'n y byd,
fy mywyd a 'mgeleddai.
5 Armad lleſais, wrthyt dwedais,
Duw, di a ydwyd vnion:
Fy nghwbl obaith wyt ti yn wir,
a'm rhan yn nhir y bywion,

6 O yſtyr Arglwydd, faint fy nghri,
wyf mewn trueni digllon:
Rhag fy erlidwyr gwared fi,
mae rhei'ni yn rhy gryfion.
7 O garchar caeth fy enaid tynn,
dy enw am hyn a folaf:
Pan weler dy fod ar fy rhan,
y cyfion twyſgan attaf.

Domine exaudi. Pſal. 143.

Gweddi am ſaddeuant pechodau. Dymuno cael ei dderbyn i dangaredd, a chael Yſpryd Duw iw gadw hyd ddiwedd ei fywyd.

ERglyw fy arch, o Arglwydd mâd,
wyf arnad yn gweddio:
O'th wirionedd, a'th gyfiawnedd,
goſynnaf yt fy ngwrando.

2 Ac a'n ddos i'r farn a'th wâs gwael,
(pa les i'm gael cyfiownder?)
Am nad oes dyn byw gar dy fron
yn gyfion pan ei teimler.

3 Y gelyn a orlidiodd Foes,
mewn llwch i'm rhoes i orwedd:
Fal y rhai meirwon a fa'm hir,
is tywyll dir a'i hannedd.
4 Yna fy ysbryd, mewn blin ing,
a fu mewn cyfing-gyngor:
5 Ac ar fy nghalon drem daeth braw:
ond wrth fyfyriaw rhagor,

Mi a gofiais y dyddiau gynt,
a helynt gwaith dy ddwylo,
Am hyn myfyriais, fy Nuw Nâf,
am hyn myfyriaf etto.
6 Fy mwylaw attad rhois ar led,
lle y mae fy mddiried vnig,
Am dynad fenaid fydd yn wir,
yn wedd a'r tir fycheuig.

7 Yn ebrwydd gwrando fi yn rhodd,
o Arglwydd, palledd fyfpryd:
Rhag imi fyned i'r pwll du,
fel rhai a ddarfu eu bywyd.
8 Par i'm ar frys glywed dy nawdd,
cans ynot hawdd y credais:
A dyfg i'm rodio dy ffyrdd rhâd,
cans fenaid attad codais.

9 A gwared fi fy Nuw, a'm Ion,
rhag fy ngelynion aftrys,
Am fod fy lloches gryd thi:
10 O dyfg i mi d'ewyllys:
Cans tydi yd wyt y Duw man,
beed d'Yſpryd tau i'n tywys
Ar yr vniondeb yn y tir,
dyna dy wir ewyllys.

11 Duw, er mwyn d'enw fi bywhâ,
a helpa fenaid tyner,
Allan o ing Duw cais ei ddwyn,
ac er mwyn dy gyfiownder.
12 A gwna ar yr elynol blaid,
caſeion fenâid, gerydd:
Difetha hwynt er mwyn dy râs,
cans mi wyf dy was vfydd.

Benedictus Dominus. Pſal. 144.

Dafydd yn moli Duw am iddo ymrill ei dyrnau, ac y mae ſe yn dymuno enâll i'r annuwiol: ac i'n dangos beth yw happuſ rwydd ctnedl.

BEendigaid fo'r Arglwydd fy nerth,
mor brydferth yr athrawa
Fy nwylo' i ymladd, a'r vn wedd,
fy myſedd i ryfela.
2 Fy nawdd, fy nerth, fy nug, fy nghred,
fy nhwr, fymwarid vnig:
Cans trwyddo ef fy mhobl a gaf
tanaf yn oftygedig.

3 Pa beth yw dyn, dywaid o Ddaw,
pan fyddyt iw gydnabod?
A mab dyn pa beth ydyw fo,
pan fych o hono'n darbod?
4 Pa beth yw dyn? peth yr vn wedd
a gwagedd heb ddim hono;
A'i ddyddiau'n cerdded ar y rhod,
fal cyſgod yn mynd heibio.

5 Goſtwng y nefoedd, Arglwydd da,
ac edrych draha dynion:
Duw cyffwrdd a'r mynyddoedd fry,
gwna iddynt fygu digon
6 Iw gwaſgar hwynt gyrr fellt i wan,
iw lladd gyrr ſaethau tanbaid.
7 Diſcyn, tyn fi o'r dyfroedd mawr:
hyn yw, o law'r eſtroniaid

Duw gwared fi. 8 Genuain 'rhai'n
a fydd yn arwain gwegil
A'i dehau law fy yr vn bwyll,
ddeheulaw twyll, a choegni.
9 I ti Ddaw, canaf o fawrhad,
yn llafar ganiad newydd,
Ar nabl, ac ar y deg-taut,
cei gerdd o ſaliant beunydd.

10 Duw i frenhinoedd rhoi a wnaeth,
ei ſwccraeth ac lawn reol:
Dan ymwared Dafydd ei was,
rhag cleddyf cas niweidiol.
11 Duw gwared, achub fi wrth raid,
rhag plant eſtroniaid digus,
A'i ſafn yn llawn o ffalſder gau,
a'i dehau yn dwyllodrus.

12 Bydd ein meibion mal planwydd cu,
o'r bon yn cyfu'n iraidd:
A'n merched ni fel cerrig nadd,
mewn conglau neuadd ſanctaidd.
13 A'n conglau'n llawnion o bob peth,
a'n defaid, difeth gynnydd,
Yn filoedd (mawr yw'r lluyddiant hwn)
a myrddiwn i'n heolydd,

14 A'n hychen cryfion dan y wedd,
yn bywedd, ac yn lloyydd:
Heb dorr na tortiant i'n myſg ni,
na gweiddi i'n heolydd.
15 Dedwydd ydyw y bobl y ſy,
a phob peth felly ganthynt:
Bendigaid yw'r bobl y rhai'n yw,
a'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

Exaltabo te. Pſal. 145.

Dafydd yn dangos daironi Duw yn llywodraethu pob creadur. Mawl i Ddaw am ei gyfiownder, ai ras, ai ſerch i bob dyn a'i bofno, ac a'i garo.

MI a'th fawrygaf di, fy Nuw,
cans ty i yw fy llywydd:
Bendithio dy enw byth a wnaf,
mi a'i molaf yn dragwyddo.
2 Dy enw a fel.f fi bob dydd,
a'th glod a fydd Leb orphen.
3 Yr Arglwydd fydd glodfawr heb wedd,
a'i fowredd fydd heb ddiben.

4 Cenedl wrth genedl a ront fawl
i'th egoneddawl wrthiam,
Gan dana dy nerth rhyd y byd,
a dwedyd dy gymeddfau.
5 Am dy ogoneddmawr, fy Naf,
mynegaf, a'th gadernid.
6 Son am dy bethau ofnadwy,
gwnant bwy a miunau hefyd.

7 Llwyr goffadwriaeth honot ti,
a'th fawr ddaioni traethant;

A'c

Ac o'th gyfiawnder, fy Nuw Ion,
a llafar don y canant:
8 Sef graſlawn yw ein Arglwydd ni,
ac o doſturi ſyfedd:
Hwyr ac anniben yw i ddig:
llawn frydig i drugaredd.

9 Da yw yr Arglwydd i bob dyn,
a'i nodded ſy'n dycciannol:
Ac ar ei holl weithredoedd ef
daw nawdd o'r nef yn raſol.
10 By holl weithredoedd di i'th lwyſõd,
o Arglwydd a'th glodforant:
Dy wyrth pan welo dy Sainct di,
y rhei'ni a'th ſendithiant:

11 Gan ſon am drngaredd a grâs
dy dyrnas, a'i chaderuyd:
Fal dyna'r gerdd ſydd yn parhau,
yn eu genenau hyfryd.
12 Fel y parent drwy hyfryd glod,
gydnabod â'th dyrnaſoiad,
A'th nerth ym myſg holl ddynol blant,
a'th lawn ogoniant gwaſtad.

13 Brenhiniaeth dy dyrnas di fry,
a bery yn waſtadol,
A'th lywodraeth o oed i oed,
hon a roed yn dragwyddol.
14 Yr Arglwydd cynnal ef yn lloun,
y rhai ſy 'mton eu cwympod.
Ac ef a gyfyd bawb yn wir,
ar a oſtyngir iſod.

15 Wele, mae llygaid yr holl fyd
yn diſgwyl wrthyd Arglwydd,
Dithau a'i porthi hwynt i gyd,
bawb yn ei bryd yn ebrwydd.
16 A phan agorech di dy law,
o honi daw diwall-faeth:
D'ewyllys da yw ymborth byw,
a hynny yw eu llyniaeth.

17 Holl ffyrdd yr Arglwydd cyfion ynt,
a'i wrthiau ydynt ſanctaidd:
18 Agos iawn i bawb ydyw ſo,
a eilw arno'n buraidd.
19 Sef ar y gwyr a'i hofnant ef,
ſo glyw eu llef iw gwared,
Fo rydd eu 'wyllys hwynt a'i harch,
o'i wir-barch, Ion gogoned.

20 Pob dyn a garo'r Arglwydd nef,
caiff gantho ef ei 'mddiffyn:
A chan ddifetha rhydd oes ferr,
i bob yſceler cyndyn.
21 Fy enaid traethed ſendith rhwydd,
a mawl yr Arglwydd nefol:
A phob cnawd rhoed iw enw, y Sanct,
ogoniant yn dragwyddol.

Lauda anima mea. Pſal. 146.

Na all neb ymddiried i ddyn, ond yn Nuw hollalluog, yr hwn a wnaeth y cyſtuddiedig, a byrth y ſtlodion, a rydâha y carcharorion, a gyſſura yr ymddifad, y weddw, a'r di-ſtyr: ac ſydd frenin yn dragwyddol.

FY enaid mola'r Arglwydd nef,
a Mi'ai molaf of i'm bywyd:
Dangoſaf glod i'm Harglwydd Duw,
tra gallwyf ſyw na ſymmyd.

3 Na wnewch hyder ar dwyſogion,
nac ar blant dynion bydol:
Am nad oes ynthynt hwy i gyd,
na help nac iechyd nerthol.

4 Pan el y ſpirit o'r genau gwael,
a'r corph i gael daiar-lan;
Felly dychwyl, ſel dyna'r dydd
y derfydd ei holl amcan.
5 Y pryd hwn gwyn ei fyd eſo
a rothe ei holl obaith
Ar Dduw Iaco yn gymorth da,
pan el oddi yma ymaith.

6 Hwn Dduw a wnaeth nef, daiar, mor,
a'r holl yſtor ſydd ynthynt:
Hwn a ſaif yn ei wir ei hun,
pryd na bo vn o honynt.
7 Yr Hwn i'r gwael a rydd farn ddaſ
a bara i'r newynlliyd,
Fe ollwng Duw y rheidus gwâr,
o'i garchar ac o'i gaethfyd.

8 Yr Arglwydd egyr lygaid dall,
ef a dyr wall gwael ddynion:
Ymgleddu'r gwan mae'n Harglwydd ni,
a hoffi y rhai cyfion.
9 Dieithraid, a'r ymddifad gwan,
a'r weddw druan vnig,
Duw a'i pyrth: ond dyryſu wnai
holl ffyrdd pob rhai cythreulig:

10 Yr Arglwydd yn teyrnaſu a fydd,
dy Dduw tragywydd Seion:
O oes i oes pery dy lwydd:
molwch yr Arglwydd tirion.

Laudate Dominum. Pſal. 147.

Mae'r prophwyd yn moli amryw ddaioni Duw tuag at ei greaduriaid, ac yn enwedig en e glwys, yr hon a gaſclwyd, ac a gaſau ragor ddaioni rhagor yn bobl eraill.

MOlwch yr Arglwydd, cans da yw
canu i Dduw yn llafar:
O herwydd hyfryd yw ei glod,
a da yw bod yn ddiolchgar.
2 Caerſalem dinas gyfiawn ſydd,
yr Arglwydd ſydd iw darpar:
Gan gaſglu Iſrael ynghyd,
a ſu drwy'r byd ar waſgar.

3 Yr vnic Arglwydd ſy'n iachâu,
yn rhydd o friwiau'r galon;
Yr Arglwydd rhwym 'eu briwau'n iawn
y rhai dolur-lawn cleiſion.
4 Yr Arglwydd ſydd yn rhiſe'r ſer,
a phob rhyw niſer honynt:
Ef a'i geilw hwynt oll yn glan,
wrth briod enwau eiddynt.

5 Mawr yw ein Arglwydd ni o nerth,
a phrydferth o raſoldeb;
Ac mae'n bell iawn vwch ben pob rhiſ,
ſon am ei brif ddoethineb.
6 Yr Arglwydd vnic ſydd yn dal
i gynnal ytrhai gweiniaid,
Ac ef a oſtwng hyd y llawr
y dorf fawr annuwioliaid.

7 Cenwch i'r Arglwydd mal y gwedd,
clodforedd ſdâo a berthyn:

O cenwch,

O cẽnwch, cẽnwch gerdd i'n Duw,
da ydyw gyda'r delyn.
8 Hwn ŷ chymylau tóes y nen,
ŷ glaw'r ddayaren gwlychodd.
I wellt gwnaeth dyfu ar y fron,
a llyſiau'i ddynion parodd.

9 Hwn i'r anifail ar y bryn
a rydd yr hyn a'i portho:
Fe bortha gywion y cigfrain,
pan ſon yn llefain arno.
10 Nid oes gantho mewn grym yn march;
na ſerch, na pharch, na phleſer:
Nac mewn eſgair, neu forddwyd gwr,
fal dyna gyfiwr ofer.

11 Yr Arglwydd rhoes ei ſerch ar ddyn,
yr hwn y ſy'n ei hoffi:
Ac ſydd yn diſgwyl cael ei nawdd,
caiff hwn yn hawdd ddaioni.
12 O Caerſalem gyflawn o lwydd,
moliana'r Arglwydd eiddot;
O Seion ſanctaidd, dod yn wedd
i'th Dduw glodforedd barod;

13 Herwydd yr Arglwydd ŷ'i fawr wyrth
a wnaeth dy byrth yn gryfion:
A rhoes ei fendith, a thycciant,
ymlhith dy blant a'th wyrion.
14 Hwn a roes heddwch yn dy fro,
fel y cynnyddo llwyddiant,
Ac a ddiwallodd yn eich plith,
o fraſder gwenith, borthiant.

15 Ei orchymmyn ef a ddenſyn,
o'i ddown fawr air cymheſur,
Hwn ar y ddaiar â ar led,
ac yno rhed yn bryſur.
16 Eirch i'r eira ddiſgyn ſel gwlân:
elrch rew, fe'i tân fel lludw,
17 Eirch ia, fe ddaw yn deſyll cri;
pwy'erys oer ni hwnnw?

18 Wrth ei air eilwaith ar ei hynt,
fe bair i'r gwynt ochneidio
I doddi'r rhai'n, ac felly bydd
i'r holl afonydd lifo.
19 Grym ei air, a'i ddeſaulaw gref,
a ddengys ef i Iaco,
A'i ffyrdd a'i farn i Iſrael,
a'r rhai a ddelo hono.

20 Ni wnaeth efe yn y dull hwn;
ŷ neb rhyw naſiwn arall:
Ni wyddent farnau'r Arglwydd nef.
O molwch ef yn ddiball.

Landate Dominum. Pſal. 148.

Mae'ſe yn annog pob creadur, o bob ſtc i foli Duw, yn enwedig am ei ddaioni i Iſrael.

O Molwch yr Arglwydd o'r nef,
rhowch lef i'r vchel-leoedd.
2 Molwch hwn holl angylion nef,
molwch ef ei holl luoedd.
3 Yr haul, a'r lleuad, a'r holl ſer,
y gloywder, a'r goleuni.
4 Nef y nefoedd, a'r ſtarfaſ'n,
a'r deiſt vwch ben y rhei'ni.

5 Moliannant enw'r Arglwydd nef,
hwyntŷ'i air ef a wnaethbwyd.
Dwedodd y gair, a hwy fal hyn
ar ei orchymmyn erewyd.
6 Rhoes reol iddynt i barhau,
ſel deddfau byth iw dilyn:
Rhoes bob peth yn ei le'n ddi os,
nad elo dros ei derfyn.

7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaiar,
chwychwi yſtrywgar ddreigiau,
8 Y tân, a'r cenllyſg, eira, a tharth,
a'r gwynt o bob parth yntau,
9 Mynyddoedd, bryniau, ffrwythlon wydd,
a'r tirion gedrwydd brigog,
10 An'feiliaid, ac ymlufgiaid maes,
ac adar llaes aſgellog,

11 Brenhinoedd daiar, barnwyr byd,
ſwyddwyr ynghyd â'r bobloedd,
12 Gwyr ieuainc, gwyryſon, gwyr hen,
pob bachgen ym mhob oeſoedd.
13 Molant ei enw ef ynghyd,
vchel a hyfryd ydoedd,
Ei enw ef ſydd vchel ar
y ddaiar oll, a'r nefoedd.

14 Cans corn ei bobl a ddierchafawdd,
yn fawl a nawdd i'r eiddo,
I Iſrael ei etholedig,
a drig ynagos atto.

Cantate Domino. Pſal. 149.

Cyngor i'r eglwys i foli Duw am orchafiaeth y Sainct.

CEnwch i'r Arglwydd, ac iawn ſydd,
ryw ganiad newydd rhyfedd:
A chlywer ynghynlleidfa'r Sainct,
ei fawr fraint a'i orfoledd.
2 Boed Iſrael lawen a ffraeth,
yn Nuw a'i gwnaeth yn ddibrin:
A byddant hyfryd blant Seion,
yn Nuw eu tir.on frenin.

3 Molant ei Enw ar y bibell,
a thympanell, a thelyn;
4 Cans bodlon iw bobl yw i gyd,
rhydd iechyd u'r lledneiſ-ddyn.
5 Iw Sainct ef doed gorfoledd iawn,
a hon yn llawn gogoniant,
Yn eu gwelau, (yn llawen ddall)
ac yn eu ſtefyll canant.

6 Yn eu genau bydd cerdd bob awr,
ein Duw a'i fawr ryfeddod,
Ac yn eu dwylaw bydd iw drin,
y cleddyf deufin parod;
7 Ar eſtroniaid i'n dial ni,
ac i gosb boeni'r bobloedd:
8 I roi mewn caethder gadwyn dro,
i rwymo ei brenhinoedd.

I roi eu pendefigion chwyrn,
mewn gefyn heyrn ſtyrnig.
9 I wneuthur arnynt vnion farn
yn gadarn ſcrifennedig.
Dymma'r glân arddercbowgrwydd ſydd
iw Sainct y ſydd yn credu:
Clodforwch oll yr Arglwydd nef,
o molwch ef am hynny.

Landate

Laudate Dominum. Pſal.150.

Mae yn annog i ſoli Duw yn ddibaid a phob cerdd, am ei weithredoedd mawrion.

MOlwch Dduw yn ei gyſſegr len,
ſef ei ſurfaſen nerthol.
2 Molwch ef ſiw gadernid llyn,
ac amlder grym rhagorol.
3 Ar lais vdcorn rhowch y mawl hyn,
ar nabl, telyn, Tympan.
4 Molwch chwi ef â llawn glod glan,
a thannau, pibell, organ.
5 Ar y ſymbalau molwch ef,
ar rhai'n â'i lleſ yn ſein-gar:
O molwch ef â moliant clan,
ar y Symbalau llafar.
6 Holl bethau (molent vndaw byth)
ſydd ynthynt cwyth y bywyd.
Rhoent gyd-gerdd foliant i barhau:
clod-ſorwn ninnau hefyd.

Gogoneddu a fytho i'r Tâd,
i'r Mab rhad a'r gliw Yſpryd:
Mal y bu, y mae, ac y bydd
yn Duw tragywyddoldeb fyſyd.

Terfyn Pſalmau Dafydd.

TABL I DDANGOS PA LE y ceir pob vn or Pſalmau, wrth eu dechreuad a'i rhifedi.

A

Chub ſi Ddaw y gwr a'm gwnaeth. Pſal. 69
Addewais gadw'ngrnan'n gu. 39
Ai'r vniondeb, o bobloedd wych. 58
Aolno 'r Arglwydd gwyn ei fyd. 128
Arglwydd clyw'ngweddi yn ddiball. 5
Arglwydd manwl y chwiliaiſt fi. 139
Attad Ion fy nerth, y rhoſ lef. 28

B

Barn ſi o Ddaw, a chlyw fy llais. 26
Barn ſi o Ddaw, a dadleu'n dyna. 43
Bendigaid fo'r Arglwydd fy nerth. 144
Bum yn dyſal ddiſgwyl fy Ner. 40

C

Cadw ſi Ddaw, canys rhois fy mhwy. Cenwch, a churwch ddwylo'nghyd. 16 47
Cenwch i'r Arglwydd ac iawn fydd. 149
Cenwch i'r Arglwydd newydd gân. 98
Clodforaf ſi fy Arglwydd Ion. 9. & 111
Clodfored pawb yr Arglwydd nef. 105
Clodforwn di dragwyddol Ddaw. 75
Clyw di ſugail i Iſrael. 80
Clywſam â'n cluſtiau o Ddaw cu. 44
Credaſ i'r Arglwydd yn ddiham. 11
Chwi weiſion Duw molwch yr. 113

D

Da gennyf wrandoo'r Arglwydd nef. Dangos ſy Naw, ſy Naw a'm gryfa. 116 22
Datcanaſ drugaredd a barn. 101
Datcan y neſoedd fowredd Duw. 19
Da wyd i'ch dir Iehouah Ner. 85
Dedwyddol yw mewn bocheddda. 112
Diolchaf ſi â'm calon rwydd. 34
Diſgwyliaf o'r mynyddoedd. 121
Duw, bnoſt i'n yn Arglwydd da. 90
Duw, dod i'r brenin farn o'r nef. 72
Duw, dy nawdd ym'rhag marwol ddyn. 56
Duw ſy nghyfiawnder clywaiſt fi. 4
Duw pryſura i'm gwared i. 70
Duw y Duwiau yr Arglwydd cu. 50
Duw yn d'enw cadw fi'n dda. 54
Dwedai'r Arglwydd wrth fy Arglwydd man. 110
Dwedai yr vnfyd wrtho'i hun. 53
Dy Babell di mor hyfryd yw. 84
Dyma'r amſer yn ddiwrmgel. 124
Dy râs, dy nawdd, ſy Naw i'm dod. 57
Dywed i mi pa ddyn a drig. Pſal. 15

E

Erglyw fy arch o Arglwydd mâd. 143
Erglyw o Ddaw, fy llefain i. 61

F

Fy Arglwydd derchefais fy emaid i. 25
Fy Arglwydd, mi a'th fawrygaf di. 30
Fy Arglwydd, na cherydda fi. 38
Fe ddwedai'r vnfyd nad oes Duw. Pſal. 14
Fe enaid mawl Sanc Daw yr Ion. 103
Fy enaid mola 'r Arglwydd byw. 104
Fy enaid mola 'r Arglwydd nef. 146
Fy llais at Ddaw, pan reddais lef. 77
Fy mhobl i gyd gwrandewch fy neddf. 78
Fy Nuw gwareda fi rhag brad. 59
Fy vnig Ddaw ydyw fy mhlaid. 62

G

Gobaitha nerth i'n yw Duw hael. 46
Goſtwng o Arglwydd y gluſtiau. 86
Gwrandaweſi yr Arglwydd ner. 20
Gwrandewch chwi y bobloedd i gyd. 49
Gwyn ei fyd yr yſtyriol frawd. 41

H

Holl farnwyr byd mae Duw'n 'en myſg. Pſal. 82

I

Dy'r Arglwydd pan ddwedent awn. 122
I'm ing y gelwais a'r fy Arglwydd. 120
I'r Arglwydd cenwch lafar glod. 100
I ti o Ddaw, y gweddai mawl. 65

L

Lawer cenedl o Ddaw, a ddaeth. Llawer gwaith cefais gyſtudd. 79 129

M

Mawr ei enw'n minas ein Duw 48
Mi a'm ddiriedais ynod Ner. 31. 71
Mi a'th fawrygaf di fy Nuw. 145
Moliannu'r Arglwydd da iawn yw. 92
Molwch Ddaw yn ei gyſſegr. 150
Molwch yr Arglwydd canys da yw. 106
107. 118. 136. 147
Myfyriaf gerdd byth i barhau. 86

N

Na ddala ddryg-dyb yn dy ben. 37
Na oftega, na thaw, na ſydda 85
Nid ini Arglwydd, nid i ni. 115

O

O Achub bellach Argl. cu. 12
O achub fi 3 fy Nuw Ner. 7
O Argl. amled ydyw'r gwyr. 3
O Argl. Dduw, Duw mawr ei rym. 49
O Argl. Dduw, erglyw fy llef. 64
O Argl. ein Ior ni a'n nerth. 8
O Argl. erglyw fy ngweddi. 102
O Argl. na cherydda fi. 6
O Argl. pa'm y ſefi di. 10
O Argl. yn dy nerth a'th rym. 21
O bryſsia Argl. clyw fy llais. 14
O cenwch fawl i Dduw ein nerth. 81
O cenwch fawl i'r Argl. nef. 117
O cenwch glod i'r Argl. mâd. 96
O clyw gyfiawnder Argl. mâd. 17
O cofia Ddafydd, fy Nuw Ner. 132
O dowch a chanwn i'r Argl. 95
O Dduw, dydi a'n gwrthodaiſt. 60
O Dduw fy iechyd nos a dydd. 88
O Dduw fy moliant i na thaw. 109
O Dduw, gwrando fy ngweddi brudd. 55
O Ior fy ngrym, caraf di'n fawr. 18
O molwch enw'r Argl. nef. 135
O molwch yr Argl. o'r nef. 148
O'r dyſnder gelwais arnat Ion. 130

P

PA ham o Dduw oddiwrthym ni. 174
Pa ham y terfyſg gwyr y byd. 2
Pa hyd fy Argl. Dduw dilyth. 13
Pa'm y rhodreſi yn dy frâd. 52
Pan ddaeth Iſrael o'r Aipht faith. 114
Pan ddychwelodd ein gwir Dduw Ion. 126
Pan oeddym gaeth yn Babilon. 137
Pa rai bynnag yn Nuw yr Ion. 53
Pared yw fy nghalon o Dduw. 108
Pleidia o Argl. yn fy hawl. 35
Pob cyfryw ddyn y ſydd a'i daith. 119

R

RHag y gwr drwg gwared fi Ner. 140
Rhoſ fowrglod i ti fy Nuw Ion. 138
Rhois weddi ar yr Argl. nef. 142
Rhowch i'r Arglwydd a rhowch yn chwyrn. 29

S

SAwl a'mddiriedant yn Nuw Ion. 125
Seilſeini hon, ſef Sion, ſydd. 87

T

TEyrnaſu y mae yr Arglwydd. 93
Traethodd fy nghalon bethau da. 45
Trugaredd dod i mi. 51
Trugaredd Duw i'n plith. 67
Tuedda'ngolwg at y ne. 123
Tydi o Dduw yw y Duw mau. 63

W

W'Ele, fod brodyr yn byw'nghyd. 133
Wele holl weiſion Argl. nef. 134
Wrth gamwedd dyn aunawiol fur. 36

Y

YMgyfoded yn Duw ein Ner. 68
Yn fy nghalon ni bu falch chwydd. 131
Yn Iuda ac Iſrael dir. 76
Yn Nuw ymlawenhewch i gyd. 66
Y ty ni adeilado'r Ner. 127
Yr Argl. Dduw yw ein brenhin. 99
Yr Argl. piau'r ddaiar lawr. 24
Yr Argl. ydyw ein penhaith. 97
Yr Argl. yw fy mugail clan. 23
Yr Argl. yw fyngolau'gyd. 27
Yr vn wedd ac y brefa'r hydd. 42
Y ſawl a drigo, doed yn nes. 91
Y ſawl ni rodia dedwydd yw. 1
Y ſawl ſy deilwng, gwyn ei fyd. 32
Ys da yw Duw i Iſrael. 73

FEl y galler'gwybod ar ba dôn y mae canu pob vn o'r Pſalmau yn y gynnulleidfa, y mae nodau canu wedi eu goſod wrth rai o honynt; ac wrth y rhai hynny y gellir canu cynnifer o'r llaill ac a fo o'r vn meſur a hwythau: Ond o herwydd bod rhai yn Pſalmau o gwynfan a galar, ac eraill o ddiddanwch a llawenydd; rhai yn gweddio Duw am ymwared o gyſtudd, neu ryw ddaioui arall, ac eraill yn moliannu Duw ac yn diolch iddo am ei ddaioni a'i ymwared; rhai yn datcan ac yn mynegi mawrion weithredoedd Duw yn'yr oeſoedd o'r blaen, ac eraill yn prophwydo am bethau a ddeuai ar ôl: &c. O herwydd hyn medd if, iawn yw dewis i bob Pſalm y dôn a fo cymmhwyſaf a chymmeſuraf i'r defnydd a fyddo ynddi.

DIWEDD.